Hwn yw ein trydydd adroddiad blynyddol ar gyfer y cynllun blynyddol strategol.

Er mwyn paratoi'r adroddiad hwn, casglwyd data o'n hadroddiad blynyddol ar gyfer ein cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2019. Mae data a ddarparwyd bryd hynny gan feysydd gwasanaeth a phartneriaid yn darparu ffordd barhaus o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion a'n camau gweithredu.

3. Cynnydd gyda chyflawni ein hamcanion yn ystod 2018/19

Gellir crynhoi'r cynnydd allweddol o dan ein saith amcan fel a ganlyn:

Cludiant

- Cafodd 50 cyffordd eu trin mewn lleoliadau amrywiol ledled y fwrdeistref a gosodwyd cyrbiau is yn eu lle.

- Mae swyddogion yr Adran Drwyddedu wedi cyfarfod trigolion Pen-y-bont ar Ogwr sydd angen Cerbydau Mynediad Cadair Olwyn, i weld pa gamau y gellid eu cymryd i wella'r ddarpariaeth i deithwyr mewn cadeiriau olwyn. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae rhestr o dacsis hygyrch ar gael ar y wefan.

Meithrin cysylltiadau da

- Yn ystod 2018/19, mae sesiynau ymwybyddiaeth rheolaidd o Droseddau Casineb wedi cael eu cynnal ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cynhaliwyd cyfanswm o 69 o sesiynau gan ymgysylltu â 1392 o bobl. Yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, cynhaliwyd digwyddiadau ar y cyd gan Heddlu De Cymru a CBSP yn y Swyddfeydd Dinesig, Porthcawl, Maesteg, Caerau a gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr.

- Mae CBSP wedi hybu ymgyrchoedd ar Twitter, Facebook, Instagram a gwefan CBSP, gan gynnwys y canlynol:
    - Diwrnod Cofio'r Holocost;
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddementia;
    - Dydd Gŵyl Dewi;
    - Cymunedau cyfeillgar i ddementia;
    - Wythnos Prentisiaethau, Urdd 2018;
    - Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu Hiliol;
    - Camu Allan dros Strôc;
    - Gwobr Dinasyddion y Maer 2018;
    - Digwyddiadau Olympaidd Mini;
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddementia 2018;
    - Wythnos Gofalwyr;
    - Ras yr Iaith – ras dros yr Iaith Gymraeg;
    - Eid al-Adha;
    - Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn;
    - Diwrnod Iechyd Meddwl 2018;
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb;
    - Diwrnod y Cofio;
    - 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf;
    - Ymgyrch rhuban gwyn;
    - Diwrnod hawliau gofalwyr;

- Diwrnod Mudwyr Rhyngwladol;
- Diwrnod Santes Dwynwen;
- Mis Hanes LGBTQ.

- Fis Tachwedd 2018, cadarnhaodd Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn mabwysiadu'r Diffiniad Llawn o Wrthsemitiaeth fel y Cynigiwyd gan y Gynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost (IHRA).

- Thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2019 oedd 'rhwygwyd o gartref' a'r nod oedd annog y rhai a oedd yn bresennol i adlewyrchu ar sut mae cael eich gorfodi i golli lle diogel i'w alw'n gartref yn rhan o'r trawma mae unrhyw un sy'n profi erlid a hil-laddiad yn ei ddioddef. Nododd CBSP y diwrnod gyda digwyddiad cyhoeddus teimladwy a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr yn Theatr Sony yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl y cyngor fel cyflogwr

- Darparwyd hyfforddiant Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ar gyfer staff a enwyd ym mhob ardal fusnes. Cafodd pum sesiwn eu cynnal yn 2017/18 a dau sesiwn pellach, gyda 18 o gyfranogwyr, yn 2018/19. Mae cyfanswm o 64 o staff (pawb a nodwyd fel y grŵp targed o gyflogeion ar gyfer hyfforddiant AEG) wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn nawr.

- Rydym yn parhau i hybu'r gwasanaeth Gofal yn Gyntaf i staff drwy gyfrwng cynllun cyfathrebu parhaus a chylchlythyr chwarterol Bridgenders. Rydym yn mesur y defnydd o Ofal yn Gyntaf yn chwarterol.

- Rydym wedi dechrau cynnig clinigau archwilio iechyd misol i staff, ac mae'r rhain yn cynnwys monitro pwysedd gwaed a cholesterol a mesuriadau bodimetrig.

Iechyd meddwl

- Ers i Lywodraeth Cymru wneud cyhoeddiad mewn perthynas â newid ffiniau'r Bwrdd Iechyd, mae'r cyngor wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid Iechyd yng Nghwm Taf Morgannwg. Mae trafodaethau parhaus mewn perthynas â'r modelau gwasanaeth a fydd yn cael eu cyflwyno yn y Fwrdeistref.

- Mae cynnydd wedi'i wneud drwy wasanaeth cydlynu'r gymuned leol, y ddarpariaeth integredig sy'n cael ei darparu drwy ARC gyda gwasanaethau allgymorth yn cael eu datblygu yn y Fwrdeistref. Hefyd, darparu gwybodaeth a chyngor drwy hybiau cymunedol, cysylltiadau â chlystyrau meddygon teulu, menter 'Heneiddio'n Dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr' a phartneriaethau allweddol eraill sy'n gweithio tuag at yr agenda atal a lles.

- Mae'r tîm Grwpiau Agored i Niwed wedi hyfforddi dau hyfforddi'r hyfforddwyr mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl Ieuenctid – mae hyn yn cael ei ehangu i bob ysgol ac mae'r rhai sy'n ymgymryd â'r cwrs deuddydd yn adrodd ar effaith

bositif ymhlith staff yn ogystal â chefnogaeth i ddisgyblion. Mae hwn yn gynllun parhaus i sicrhau y bydd gan bob ysgol o leiaf un aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant iechyd meddwl erbyn mis Rhagfyr 2019.

Plant

- Gan ddefnyddio adborth gan ysgolion a staff cefnogi Cymorth Cynnar, cynhaliodd y gyfarwyddiaeth Addysg a Chefnogi Teuluoedd ymarfer i gaffael sefydliad i ddarparu hyfforddiant cysylltiedig ag LGBT+. Stonewall oedd y sefydliad llwyddiannus ac mae wedi cyflwyno 3 rownd o'i raglen Hyfforddi'r Hyfforddwr i ysgolion a staff cefnogi. Mynychodd cyfanswm o 65 aelod o staff o sefydliadau fel Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, timau Cymorth Cynnar, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Gofalwyr Ifanc, y tîm Grwpiau Agored i Niwed, Mentor Bro Ogwr, ÔI-16 (ÔI-ofal) a phrosiectau Ysbrydoli 2.

- Mae Addysg a Chefnogi Teuluoedd wedi sefydlu Tîm Grwpiau Agored i Niwed sy'n darparu cefnogaeth integredig i amrywiaeth o ddisgyblion sydd wedi'u datgan gan Estyn fel rhai agored i niwed ac â photensial i fod yn agored i niwed:
    - Addysgu gartref dewisol
    - Plant sy'n derbyn gofal
    - Plant sy'n colli addysg
    - Saesneg fel iaith ychwanegol
    - Sipsi a Theithwyr Roma
    - Disgyblion sydd wedi'u heithrio yn barhaol

- Mae'r tîm yn darparu cefnogaeth ddiogelu i ysgolion. Mae'r tîm Grwpiau Agored i Niwed hefyd yn hwyluso fforymau tymhorol ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal Dynodedig ac Arweinwyr Diogelu lle mae siaradwyr allanol a hyfforddiant a diweddariadau mewnol yn cael eu darparu.

- Mae Stonewall yn cefnogi atal bwlio LGBTQ+ mewn ysgolion ac mae rhwydwaith ysgolion LGBTQ+ yn cael ei ddatblygu gyda'r timau cynhwysiant ac ysgolion a Grwpiau Agored i Niwed.

Hamdden, celfyddydau a diwylliant

- Mae'r Gist Gymunedol wedi cefnogi 56 o brosiectau cymunedol gan gynnwys buddsoddiad o £5556 mewn trechu anghydraddoldeb. Mae partneriaeth gyda'r Siarter Ieuenctid ar gyfer diwylliant chwaraeon a'r celfyddydau wedi hyfforddi 15 o bobl fel arweinwyr hyfforddi cymdeithasol i dargedu anfantais. Mynychodd grŵp pellach o 13 o bobl Get on Track mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Fonesig Kelly Holmes.

- Mae'r rhaglenni Egnïol am Oes wedi cefnogi 9769 o ymweliadau ar draws 12 safle gan ddarparu mynediad am ddim ac mewn cymunedau wedi'u targedu.

- Mae cyfleoedd hamdden a diwylliannol yn cyfrannu at ddatblygu cymunedau cyfeillgar i oedran. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i berfformio'n dda

gyda'r fenter nofio am ddim dros 60 oed genedlaethol wedi cael 77011 o ymweliadau. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda chynghorau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn rheolaidd er mwyn cyflwyno'r rhaglen Park Lives gan gefnogi oedolion hŷn i fod yn egnïol yn yr awyr agored.

- 1494 o bobl wedi ymgysylltu â rhaglen gweithgarwch awyr agored Park Lives.

- Mae CBSP wedi cyflwyno rhaglen lwyddiannus o weithgareddau cefnogol i ddementia gyda phartneriaid, gan gynnwys BAVO, clefyd Alzheimer, Halo ac Awen. Mae'r cyfleoedd wedi cynnwys nofio cyfeillgar i ddementia, côr gofalwyr ac ysgolion cefnogol i ddementia.

- Mae 40 o ysgolion wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant parth actif teuluoedd i gefnogi gweithgarwch teuluoedd.

- Mae Awen yn parhau i weithredu cynllun Hynt ac yn cynnig prisiau is am wasanaethau a gweithgareddau.

- Yn ystod 2018-2019, Awen oedd y gweithredwr llyfrgell cyntaf yng Nghymru i gael gwared ar ddirwyon llyfrgell, er mwyn annog mwy o ddefnydd.

Data

- Mae monitro cydraddoldeb yn parhau'n rhan o bob ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth cydraddoldeb a gasglwyd i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ochr yn ochr ag adroddiad yr ymgynghoriad.

- Yn ystod 2018/19, buom yn ymgysylltu â mwy na 15,000 o drigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol drwy gyfrwng amrywiaeth o ymgynghoriadau a sesiynau ymgysylltu.

- Mae manylion yr ymgynghoriadau caeedig, y canlyniadau a'r camau nesaf yn cael eu rhannu ar dudalen ymgynghoriadau'r wefan. Ar gyfer aelodau'r Panel Dinasyddion, rydym yn llunio cylchlythyr blynyddol y Panel Dinasyddion, "Chi'n dweud ... Ni'n gwneud ...".

- O ganlyniad i'r broses gwynion ffurfiol, mae deg o ffurflenni monitro cydraddoldeb wedi cael eu prosesu.

- Rydym yn parhau i gasglu data cydraddoldeb ar gyfer pob cyflogai newydd ac rydym yn parhau i hybu system hunan-wasanaeth y cyflogeion i annog staff i gwblhau/diweddaru eu data personol.

- Rhwng mis Chwefror 2018 a mis Ionawr 2019, lluniodd y cyngor chwe AEGau a 33 sgriniad AEG. Mae'r gweithgarwch cysylltiedig â nifer a natur yr AEGau a gynhaliwyd gan y cyngor yn parhau i gael ei adrodd yn ôl i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn flynyddol.

4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cynhaliodd y cyngor 12 ymgynghoriad cyhoeddus:

ADY Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd
Darpariaeth ADY Ysgol Gynradd Betws
Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2018
Ymgynghoriad y Polisi Trwyddedu (Deddf Gamblo 2005)
Cais am gyflwyno darpar safleoedd (paratoi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol)
Y potensial i ad-drefnu'r ddarpariaeth ôl-16
Ymgynghoriad bysiau â chymorth 2019 i 2020
Cynnig i Ymgynghori ar y Strategaeth Eiddo Gwag 2019-2023
Pecynnau cefnogi prifysgolion ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal
Ymgynghoriad cyhoeddus gofod cyhoeddus: gorchymyn gwarchodaeth rheoli cŵn

Yn ychwanegol at yr ymarferion ymgynghori uchod, cynhaliwyd dau arolwg ymgysylltu gennym gydag aelodau ein Panel Dinasyddion. Roedd yr arolwg cyntaf yn rhoi sylw i ddysgu cymunedol oedolion, datblygiadau digidol, cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, ailgylchu a gwastraff, darpariaeth iechyd meddwl a gwasanaethau cwsmeriaid ac roedd yr ail arolwg yn efelychu arolwg Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr.

5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau)

Yn ystod mis Mehefin 2018, cwblhaodd 18 o gyflogeion weithdai AEG ac mae cyfanswm o 217 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu hyd yma.

6. Trefniadau caffael

Mae meysydd gwasanaethu'n gweithio gyda'r tîm caffael i sicrhau bod AEGau yn cael eu hintegreiddio yn y broses gaffael. Mae rheolau'r gweithdrefnau contract yn cynnwys, fel isafswm, gymalau sy'n cynnwys cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, caethwasiaeth fodern a deddfwriaeth cyflogaeth. Mae materion cydraddoldeb yn gwbl integredig yn y broses gaffael, o gyn-cymhwysedd i ddyfarnu contract. Mae hysbysiad cydymffurfio'r iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys ym mhob contract.

7. Gwybodaeth am gyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2019, roedd 5740 o gyflogeion yn y cyngor, gan gynnwys y rhai'n cael eu cyflogi mewn ysgolion. Mae'r cyfrif pennau a'r proffiliau oedran yn darparu dadansoddiad o'r cyflogeion hyn. Fodd bynnag, mae'r manylion am y nodweddion gwarchodedig sy'n weddill yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir yn wirfoddol gan gyflogeion. Felly mae'r ffigurau canran yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael fel canran o'r gweithlu cyfan.

	CBSP – fel ar 31.03.2019			
Disgrifiad	**Gwryw**	**Benyw**	**Cyfanswm**	**%**
Cyfanswm cyflogeion	1165	4575	**5740**	
O blith yr uchod:				
Llawn amser	899	1566	**2465**	**42.94%**
Rhan amser	266	3009	**3275**	**57.06%**
Anabledd wedi'i ddatgan	47	91	**138**	**2.40%**
Cyfrifoldeb gofalwr wedi'i ddatgan	30	249	**279**	**4.86%**
Ethnigrwydd				
Gwyn	980	3909	4889	85.17%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	4	26	30	0.52%
Du neu Ddu Prydeinig	2	5	7	0.12%
Hil Gymysg	2	16	18	0.31%
Unrhyw grŵp ethnig arall	2	17	19	0.33%
Heb ddatgan	175	602	777	13.54%
Siarad Cymraeg				
'Ychydig'	147	640	787	13.71%
'Cymharol dda'	26	100	126	2.20%
'Rhugl'	42	216	258	4.49%

Darllen Cymraeg				
'Ychydig'	148	644	792	13.80%
'Cymharol dda'	37	121	158	2.75%
'Rhugl'	42	215	257	4.48%
Ysgrifennu Cymraeg				
'Ychydig'	111	533	644	11.22%
'Cymharol dda'	29	111	140	2.44%
'Rhugl'	38	197	235	4.09%
Rhywioldeb				
Heterorywiol	561	2146	2707	47.16%
Deurywiol	3	13	16	0.28%
Dyn hoyw	21		21	0.37%
Menyw hoyw / lesbiad		10	10	0.17%
Trawsrywiol	0	0	0	0.00%
Arall	3	7	10	0.17%
Gwell gen i beidio dweud	29	93	122	2.13%
Proffil Oedran				
16-19	12	9	21	0.37%
20-25	55	180	235	4.09%
26-30	100	392	492	8.57%
31 - 35	115	508	623	10.85%
36 - 40	124	555	679	11.83%

41 - 45	134	647	781	13.61%
46 - 50	172	742	914	15.92%
51 - 55	183	652	835	14.55%
56 - 60	160	533	693	12.07%
61 - 65	73	266	339	5.91%
66 +	37	91	128	2.23%
Cyfanswm	**1165**	**4575**	**5740**	

8. Cyflogeion ar 31 Mawrth 2019 yn ôl rhyw a graddfa cyflog

Cafodd ein strwythur tâl a graddfa ei weithredu ar 1 Medi 2013 ac mae mecanwaith cadarn a chlir yn ei le ar gyfer gwerthuso graddfeydd cymharol swyddi. Mae hyn yn seiliedig ar swyddogaethau a chyfrifoldebau yn hytrach nag unrhyw ffactorau unigol perthnasol i'r cyflogai.

Graddfa	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
JE graddfeydd 1 – 8 (£16,394 - £24,657)	549	3468	**4017**
JE graddfeydd 9 – 10 (£26,470 - £30,756)	103	224	**327**
JE graddfeydd 11 – 16 (£32,233 - £50,323)	145	284	**429**
Prif Swyddogion (£53,537 - £136,400)	6	5	**11**
Soulbury a swyddogion ieuenctid (£20,456 - £63,089)	6	38	**44**
Athrawon, penaethiaid, dirprwy benaethiaid, penaethiaid cynorthwyol (£17,208 - £106,709)	314	1011	**1325**

DS Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar nifer y swyddi oriau contract ar draws yr awdurdod. Os oes gan gyflogai fwy nag un swydd, bydd yn cael ei gyfrif am bob swydd sydd ganddo. O'r herwydd, ni fydd y ffigurau uchod yn cyd-fynd â chyfansiymau eraill yn yr adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar gyfrif pennau.

9. Ceisiadau am swyddi

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cawsom 6,495 o geisiadau am swyddi drwy'r system recriwtio Adnoddau Dynol gan 3,518 o unigolion, yn cynnwys ceisiadau

mewnol ac allanol. Nid yw'r data'n cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan rai ysgolion.

Mewn rhai achosion, ni wnaeth yr ymgeiswyr ddatgan gwybodaeth ar gyfer pob nodwedd warchodedig. Felly mae'r ffigurau canran yn nodi lefel y diffyg ymateb fel 'Heb Ddatgan' ar gyfer pob nodwedd benodol.

Disgrifiad	Nifer yr Ymgeiswyr	%
Ymgeiswyr Gwrywaidd	1003	28.51%
Ymgeiswyr Benywaidd	2511	71.38%
Heb ddatgan	4	0.11%
Anabledd wedi'i ddatgan:	218	6.20%
Proffil Oedran:-		
16 – 25	841	23.91%
26 – 35	1052	29.90%
36 – 45	763	21.69%
46 – 55	594	16.88%
56 – 65	246	6.99%
66+	7	0.20%
Heb ddatgan	15	0.43%
Cyfeiriadedd Rhywiol		
Heterorywiol	3132	89.03%
Deurywiol	40	1.14%
Dyn Hoyw	31	0.88%
Menyw Hoyw / Lesbiad	27	0.77%
Gwell gen i beidio dweud	102	2.90%
Arall	21	0.60%
Heb Ddatgan	165	4.69%
Statws Priodasol		
Priod	1196	34.00%
Byd gyda Phartner	611	17.37%
Partneriaeth o'r Un Rhyw neu Sifil	5	0.14%
Wedi gwahanu/ysgaru	205	5.83%
Sengl	1334	37.92%
Gweddw	24	0.68%
Gwell gen i beidio dweud	40	1.14%
Heb Ddatgan	103	2.93%
Hil		
Gwyn	3279	93.21%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	41	1.17%
Du/Du Prydeinig	38	1.08%
Tsieineaidd	7	0.20%

Hil Gymysg	26	0.74%
Gwell gen i beidio dweud	31	0.88%
Grŵp Ethnig Arall	16	0.45%
Anhysbys / heb ddatgan	80	2.27%

10. **Hyfforddiant staff**

Mae ein trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant staff corfforaethol wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- **Hyfforddiant ar ôl mynediad** – mae cyflogeion yn gofyn am hyfforddiant penodol i wasanaeth drwy gyfrwng y polisi hyfforddiant ar ôl mynediad. Dim ond ceisiadau y cytunir iddynt gan reolwyr llinell sy'n cael eu hanfon ymlaen i'r adran adnoddau dynol ac felly nid ydym yn gallu canfod unrhyw rai a gafodd eu gwrthod o bosib.

- Nid ydym yn gallu datgelu gwybodaeth berthnasol i'r rhai sy'n cael hyfforddiant ar ôl mynediad oherwydd, er bod data'n cael eu casglu, mae nifer y cyflogeion a faint o ddata sydd ar gael yn rhy fach i ni eu dehongli mewn ffordd ystyrlon.

- **Hyfforddiant wyneb yn wyneb** – mae mwyafrif ein hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i dargedu at gyflogeion yn seiliedig ar natur y rôl a'r cyfrifoldebau. O'r herwydd, nid oes unrhyw geisiadau am yr hyfforddiant hwn wedi'u gwrthod.

- **E-ddysgu** – mae mwyafrif yr hyfforddiant corfforaethol yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng e-ddysgu a gall cyflogeion gael mynediad ato yn uniongyrchol ym mwyafrif yr achosion.

Mae'r tabl isod yn datgan nodweddion gwarchodedig y cyflogeion hynny a ddefnyddiodd y dull hyfforddi hwn rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Disgrifiad	**Wedi cwblhau e-ddysgu**	
Gwryw	608	19.5%
Benyw	2506	80.5%
Anabledd wedi'i ddatgan:	98	3.1%
Proffil Oedran:-		
16 – 25	164	5.3%
26 – 35	622	20.0%
36 – 45	822	26.4%
46 – 55	962	30.9%
56 – 65	514	16.5%
66+	30	1.0%

Cyfeiriadedd Rhywiol		
Heterorywiol	1890	60.7%
Deurywiol	13	0.4%
Dyn Hoyw	18	0.6%
Menyw Hoyw / Lesbiad	8	0.3%
Gwell gen i beidio dweud	89	2.9%
Arall	7	0.2%
Heb Ddatgan	1089	35.0%
Statws Priodasol		
Priod	1509	48.5%
Byw gyda Phartner	272	8.7%
Partneriaeth o'r Un Rhyw neu Sifil	7	0.2%
Wedi gwahanu/ysgaru	272	8.7%
Sengl	704	22.6%
Gweddw	18	0.6%
Gwell gen i beidio dweud	25	0.8%
Heb Ddatgan	307	9.9%
Hil		
Gwyn	2803	90.0%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	18	0.6%
Du/Du Prydeinig	5	0.2%
Tsieineaidd	3	0.1%
Hil Gymysg	11	0.4%
Gwell gen i beidio dweud	140	4.5%
Grŵp Ethnig Arall	6	0.2%
Anhysbys / heb ddatgan	128	4.1%

Nid oes unrhyw gofnodion yn yr adran Adnoddau Dynol am wrthod mynediad i hyfforddiant i gyflogeion fel yr amlinellir uchod, ac ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn am y mater hwn.

11. Gwrandawiadau cwynion cyflogaeth a disgyblu a gynhaliwyd yn ystod 2018-19

Mae hyn yn cynnwys cyflogeion sy'n rhan o weithdrefnau cwynion cyflogaeth fel achwynwyr, fel cyflogeion y gwnaed cwyn yn eu herbyn neu gyflogeion sy'n destun gweithred ddisgyblu. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, nid ydym yn gallu datgelu'r wybodaeth hon. Ym mhob categori, mae nifer y cyflogeion a maint y data'n rhy fach i ni eu dehongli mewn ffordd ystyrlon.

12. Cyflogeion a adawodd y cyngor yn 2018/19

Mae'r data canlynol yn crynhoi nodweddion gwarchodedig yr 886 o unigolion a adawodd gyflogaeth y cyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Mae'r data am nodweddion

gwarchodedig (ar wahân i rywedd ac oedran) yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddatgelwyd yn wirfoddol gan y cyflogeion. Mae'r dadansoddiad o'r canrannau'n seiliedig ar gyfanswm y rhai wedi gadael.

Disgrifiad	Nifer wedi gadael	% wedi gadael
Cyflogai Gwrywaidd	203	22.91%
Cyflogai Benywaidd	683	77.09%
Anabledd wedi'i ddatgan:	31	3.50%
Proffil Oedran:-		
16 – 25	113	12.75%
26 – 35	161	18.17%
36 – 45	193	21.78%
46 – 55	203	22.91%
56 – 65	193	21.78%
66+	23	2.60%
Cyfeiriadedd Rhywiol		
Heterorywiol	477	53.84%
Deurywiol	8	0.90%
Dyn Hoyw	4	0.45%
Menyw Hoyw/Lesbiad	3	0.34%
Gwell gen i beidio dweud	21	2.37%
Arall	2	0.23%
Heb ddatgan	371	41.87%
Statws Priodasol		
Priod	366	41.31%
Byw gyda Phartner	76	8.58%
Partneriaeth o'r Un Rhyw neu Sifil	0	0.00%
Wedi gwahanu/ysgaru	76	8.58%
Sengl	233	26.30%
Gweddw	5	0.56%
Gwell gen i beidio dweud	7	0.79%
Heb ddatgan	123	13.88%
Hil		
Gwyn	772	87.13%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	5	0.56%
Du/Du Prydeinig	3	0.34%
Hil Gymysg	6	0.68%
Gwell gen i beidio dweud	0	0.00%
Grŵp Ethnig Arall	3	0.34%
Heb ddatgan	97	10.95%

13. Ymgysylltu ac ymgynghori

Rydym yn ceisio cynnwys safbwyntiau grwpiau cynrychioliadol yn ein proses gynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn datblygu gwasanaethau hygyrch ar gyfer y cyhoedd a'n cyflogeion.

Mae ymgysylltu'n rhan bwysig o'n gwaith felly rydym yn rhoi prosesau penodol ar waith i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hystyried a bod holl ddimensiynau cydraddoldeb yn cael sylw.

Bydd cyflogeion a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o gyflawni, gweithredu, monitro a gwerthuso ein hamcanion.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori ar ganlyniad ein gweithgarwch ymgysylltu i ddangos yn glir sut mae pobl wedi dylanwadu ar gynllunio a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

14. Cysylltu â ni

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein CCS neu gael copi o'r cynllun mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni:

Ar e-bost: talktous@bridgend.gov.uk
Dros y ffôn: 01656 643643
Dros ffôn testun: 18001 01656 643643
Ar ffacs: 01656 668126
Yn ysgrifenedig: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar agor rhwng 8am a 5.30pm, Llun – Gwener
Dyma ein gweithdrefn gwynion.

This page is intentionally left blank

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

REPORT TO CABINET COMMITTEE EQUALITIES

24 AUGUST 2020

REPORT OF THE CHIEF EXECUTIVE

UPDATE REPORT ON IMPLEMENTATION OF THE WELSH LANGUAGE (WALES) MEASURE 2011 AND WELSH LANGUAGE STANDARDS

1. Purpose of report

1.1 This report updates the Cabinet Committee Equalities (CCE) on the implementation of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and the Welsh Language Standards.

2. Connection to Corporate Well-being objectives / Other Corporate Priorities

2.1 The Welsh Language (Wales) Measure 2011 and subsequent Welsh Language Standards impact upon the work of the whole council. The standards link to the equalities agenda, form a key component of the council's Transformation Programme and Customer Charter 'Our Promise', and links to the following corporate priorities:

- **Priority 2: Helping people and communities to be more healthy and resilient -** taking steps to reduce or prevent people from becoming vulnerable or dependent on the Council and its services. Supporting individuals and communities to build resilience, and enable them to develop solutions to have active, healthy and independent lives.

- **Priority 3: Smarter use of resources** – ensure that all resources (financial, physical, ecological, human and technological) are used as effectively and efficiently as possible and support the creation of resources throughout the community that can help to deliver the Council's well-being objectives.

3. Background

3.1 Since the council received its compliance notice from the Welsh Language Commissioner in 2015, progress towards implementing the 171 assigned standards has continued.

3.2 Updates on compliance have been provided at every CCE since 28 April 2016. Those reports are referenced as background documents to this report.

4. Current situation / proposal

4.1 Key progress/updates with compliance since the last meeting in November 2019 and March 2020 can be summarised as:

1. BCBC celebrated Welsh Language Rights Day on 6 December 2019 by sharing posts on social media relating to:

    - BCBC's bilingual social media accounts;

- BCBC's bilingual chatbot;
- Welsh signage;
- Contacting the council using the Welsh Language;
- Corresponding with the council using the Welsh Language;
- Applying for jobs with the council using the Welsh Language and;
- Promotion of Welsh Medium Education.

2. The Welsh Language Commissioner Code of Practice was received on 19 February 2020. The code of practice provides practical guidance on the requirements of each of the standards within the regulations, apart from the promotion standards (145 and 146). A separate advice document is available for these standards. The purpose of the code of practice is to assist local authorities (and other bodies subject to the standards) to interpret and comply with the standards. The code explains the requirements of the standards and shares examples of ways in which to comply. A copy of the code of practice is attached as appendix one and appendix two. The code came into force on 19 February 2020.

3. One new complaint has been received as detailed below:

    - The Commissioner received a complaint from a member of the public on 14 January 2020 regarding the Welsh text on the bottom of the voting card sent to the electorate for the General Election of 12 December 2019. The complainant was of the opinion that *"Os rhoi dychwelyd i'r"* was not the correct translation of *"If undelivered return to"*. The commissioner also stated that it appears that the address for returning the card is in English only (Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB). The council have provided a response to the Commissioner stating that the council is not the responsible body for maintaining the Register of Electors or sending polling cards to registered voters. These functions are the responsibility of the Registration Officer and the Returning Officer whose roles are independent of the council.

4. Previous complaints update:

    - The final determination has been received following a complaint which was received on 8 February 2018 by the commissioner regarding a consultation presentation to parents that was held at Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd as part of the Post-16 review, which was held in English. The complaint has been upheld and the Commissioner concluded that it was the Council that was responsible for the meeting in question as it formed part of its consultation exercise on post-16 education reform in the County. The council had three months from the date of the compliance notice (26 September 2019) to ensure that any invites sent out in relation to a meeting for which it is responsible (be that directly or by arranging for another person to do so on its behalf) asks all those invited whether they wish to use the Welsh language at that meeting. Section 3 of the Welsh in the Workplace Policy (published in September 2019) provides information on public meetings, and reminders about meetings and compliance with the Welsh Language Standards have been sent to all staff via weekly Bridgenders messages.

    - The Commissioner received a complaint from a member of the public on **16 October 2019** regarding an automatic email the complainant received from the Council acknowledging a council tax payment. The email was sent

from the email address AUTOMAILER@E-PAYCAPITA.COM' and the same email template was the subject of complaint CSG616. The complainant alleged that the Welsh version contains errors. The council has provided initial information to the commissioner in relation to this, however this has now been raised as a formal complaint.

5. Effect upon Policy Framework & Procedure Rules

5.1 There is no effect upon the Policy Framework and Procedure Rules.

6. Equality Impact Assessment

6.1 This is an information report. As such, no Equality Impact Assessment is required.

7. Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 Assessment

7.1 The well-being goals identified in the Act were considered in the preparation of this report. It is considered that there will be no significant or unacceptable impacts upon the achievement of well-being goals/objectives as a result of this report.

8. Financial Implications

8.1 The current available budget for Welsh language translation in 2019-20 is £324,649. To date only £4,000 of this funding has been allocated out to Directorates. The cost of implementing the Welsh Language Standards will continue to be reviewed to the end of 2019-20 and into 2020-21.

9. Recommendation

9.1 That the Cabinet Committee Equalities receives and considers this report.

Mark Shephard
Chief Executive
Date: 24 August 2020

10. Contact officers:

Nicola Bunston
Consultation, Engagement and Equalities Manager
Email: nicola.bunston@bridgend.gov.uk
Telephone: 01656 643664
Postal address: Civic Offices,
Angel Street
Bridgend
CF314WB

Philip O'Brien
Group Manager - Transformation and Customer Services
Email: Philip.OBrien@bridgend.gov.uk
Telephone: 01656 643333
Postal address: Civic Offices,
Angel Street

Bridgend
CF314WB

11. Background papers:

Appendix one - Code of Practice for the Welsh Langage Standards (No. 1) Régulations 2015 (Welsh)

Appendix two - Code of Practice for the Welsh Langage Standards (No. 1) Régulations 2015 (English)

- 28 April 2016 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards ;
- 14 July 2016 Welsh Language standards annual report 2015/16 ;
- 14 July 2016 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards ;
- 10 November 2016 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards ;
- 9 March 2017 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards ;
- 13 July 2017 Welsh Language standards annual report 2016/17 ;
- 13 July 2017 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards ;
- 23 November 2017 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards.
- 22 March 2018 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards.
- 16 July 2018 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards.
- 19 November 2018 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards.
- 26 March 2019 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards.
- 04 July 2019 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards.

- 26 November 2019 Update report on implementation of the Welsh Language (Wales) measure 2011 and Welsh Language standards.

This page is intentionally left blank

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015



Canllawiau ymarferol am ofynion safonau'r Gymraeg ar gyfer Gweinidogion Cymru, cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau parciau cenedlaethol

Dylid darllen y cod ymarfer hwn ochr yn ochr â'r deunydd canlynol:

- Hysbysiad cydymffurfio'r corff
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, a
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rhagair

Dyma gyflwyno fy nghod ymarfer cyntaf fel Comisiynydd y Gymraeg a hynny mewn perthynas â'r safonau sydd mewn lle ar gyfer awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru a'r awdurdodau parciau.

Pwrpas y cod ymarfer yw cynorthwyo'r sefydliadau sydd yn gweithredu'r safonau gyda'r ffordd y maent yn cydymffurfio. Mae'r cod yn gwneud hynny drwy egluro rhagor am yr hyn y mae'r safonau yn gofyn oddi wrthynt ac yn rhannu enghreifftiau o sut i gydymffurfio.

Fy mwriad yw bod y cod ymarfer yn ei gwneud yn gliriach i sefydliadau yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt gan dynnu oddi ar eu profiad cychwynnol o fod yn gweithredu'r safonau.

Aled Roberts

Comisiynydd y Gymraeg

19 Chwefror 2020

Cynnwys

1	Cyflwyniad i'r gyfraith	4
2	Cyflwyniad i'r cod ymarfer	7
3	Canllawiau cyffredinol ar gynnwys y rheoliadau	10
4	Safonau cyflenwi gwasanaethau [1-87]	19
5	Safonau llunio polisi [88-97]	93
6	Safonau gweithredu [98-144]	100
7	Safonau cadw cofnodion [147-154]	132
8	Safonau sy'n ymdrin â materion atodol [155-176]	136
Atodiad 1	Rhestr o'r cyrff y mae'r cod yn berthnasol iddynt	141
Atodiad 2	Newidiadau i'r rheoliadau	142
Atodiad 3	Templedi i hwyluso cydymffurfedd	143

1 Cyflwyniad i'r gyfraith

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae hefyd yn pennu mai prif nod Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth arfer ei swyddogaethau'n unol â'r prif nod yma, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw:

- I statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- I'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy gyfraith a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- I'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac
- I'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Safonau'r Gymraeg

1.2 Mae'r Mesur yn rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg drwy alluogi gosod safonau'r Gymraeg ('safonau') ar gyrff[1].

1.3 Mae pum dosbarth o safonau, sef:

- safonau cyflenwi gwasanaethau
- safonau llunio polisi
- safonau gweithredu
- safonau hybu, a
- safonau cadw cofnodion[2].

1.4 Mae safonau yn egluro sut mae'n rhaid i gyrff drin a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb-yn-wyneb, llunio polisïau neu wrth ddarparu gwasanaethau yn fewnol i'w staff.

Comisiynydd y Gymraeg

1.5 Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') ei sefydlu gan y Mesur. Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

1.6 Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am osod safonau ar gyrff ynghyd â gorfodi'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau hynny. Y Comisiynydd hefyd sy'n gyfrifol am lunio codau ymarfer sy'n ymwneud â'r safonau hynny.

[1] 'Corff' yng nghyd-destun y safonau yw sefydliad sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau.

[2] Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth arall ynghylch y safonau hynny (h.y. safonau atodol).

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

1.7 Gwnaeth Gweinidogion Cymru bennu safonau[3] ar gyfer Gweinidogion Cymru, cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol drwy Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015[4] ('y rheoliadau')[5]. Is-ddeddfwriaeth yw'r rheoliadau sy'n cynnwys y rhestr o safonau y mae'r Comisiynydd yn cael gosod ar bob corff perthnasol. Mae'r cod ymarfer ('y cod') hwn yn berthnasol i'r rheoliadau hyn.

1.8 Ar ôl cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd modd i'r Comisiynydd osod safonau penodol ar y cyrff perthnasol, drwy roi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Hysbysiad cydymffurfio

1.9 Mae hysbysiad cydymffurfio yn ddogfen sy'n nodi:

- pa safonau o'r rheoliadau y mae'n rhaid i gorff gydymffurfio â hwy, ac
- y 'diwrnod gosod' ar gyfer pob safon - sef y diwrnod oddi ar bryd y mae'n rhaid i gorff gydymffurfio â safon (neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol)[6].

1.10 Rhoddodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio i bob corff perthnasol ar 30 Medi 2015. Gyda hynny, daeth gofynion y safonau cyntaf yn weithredol iddynt ar 30 Mawrth 2016[7]. Daeth eu cynlluniau iaith Gymraeg i ben hefyd ar y diwrnod hwnnw.

Newidiadau cyfreithiol sy'n gallu effeithio ar y cod

1.11 Gall y canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y cod hwn gael eu heffeithio arnynt os yw:

- Gweinidogion Cymru yn diwygio'r rheoliadau yn y dyfodol[8]
- deddfiadau perthnasol, y cyfeirir atynt yn y cod, yn cael eu diwygio neu eu disodli, neu os yw

[3] Adran 26 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/section/26/enacted/welsh

[4] Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi_20150996_mi.pdf
Rhif 996 (Cy. 68). Daethant i rym ar 31 Mawrth 2015.

[5] Ceir rhestr fanylach o'r cyrff perthnasol yn Atodiad 1

[6] Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/part/4/chapter/6/crossheading/hysbysiadau-cydymffurfio/enacted/welsh

[7] Gofynion safonau â diwrnod gosod o 6 mis yn unig. Daeth gofynion safonau â diwrnod gosod hwyrach yn weithredol wedi hynny.

[8] Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/406/contents/made/welsh
eisoes wedi diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Gweler atodiad 2 y cod hwn am fwy o wybodaeth.

- penderfyniad Tribiwnlys y Gymraeg neu lys yn rhoi dehongliad awdurdodol o ofynion neu ystyr safon.[9]

1.12 Felly, bydd rhaid i'r rhai sy'n darllen y cod fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ynddo. Gellir cysylltu â swyddfa'r Comisiynydd am yr wybodaeth ddiweddaraf.

Statws y cod

1.13 Mae'r Mesur yn nodi:

> "(1) Caiff y Comisiynydd ddyroddi codau ymarfer at ddiben darparu canllawiau ymarferol am ofynion unrhyw safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ("codau ymarfer safonau")[10]."

1.14 Mae'r cod hwn yn ddogfen statudol. Gwnaeth Gweinidogion Cymru gydsynio i'r cod hwn ar 8 Hydref 2019 yn dilyn ymgynghoriad ar god drafft rhwng 12 Ionawr 2018 a 6 Ebrill 2018. Daw'r cod hwn i rym ar 19 Chwefror 2020.

1.15 Caiff y Comisiynydd adolygu neu dynnu'r cod hwn yn ôl (a dyroddi cod diwygiedig neu newydd yn ei le) os gwêl yn briodol yn y dyfodol[11].

1.16 Nid yw methiant corff i gydymffurfio â darpariaeth yn y cod hwn yn peri i'r corff hwnnw fod yn agored i unrhyw gamau gorfodi[12]. Nid yw'r cod hwn yn ddatganiad cyflawn neu awdurdodol o'r gyfraith. Dim ond Tribiwnlys y Gymraeg a'r llysoedd sy'n gallu rhoi dehongliad awdurdodol o'r ddeddfwriaeth a gall penderfyniadau barnwrol dilynol effeithio ar gynnwys y cod.

1.17 Fodd bynnag, os yw'r Comisiynydd yn dymuno hynny, fe all ddibynnu ar fethiant corff i gydymffurfio â chanllawiau o fewn y cod hwn fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau bod y corff wedi methu â chydymffurfio â safon.

1.18 Yn yr un modd, gall corff ddibynnu ar y ffaith iddo gydymffurfio â chanllawiau o fewn y cod hwn fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â safon[12].

[9] Mae penderfyniadau'r Tribiwnlys ar gael ar http://www.tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru

[10] Adran 68 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/section/68/enacted/welsh

[11] Gweler Adran 68 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/section/68/enacted/welsh
am fanylion ynghylch y camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn i god ymarfer diwygiedig ddod yn weithredol.

[12] Adran 69 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/section/69/enacted/welsh

2 Cyflwyniad i'r cod ymarfer

Pwrpas y cod

2.1 Pwrpas y cod hwn yw darparu canllawiau ymarferol i Weinidogion Cymru, cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol am ofynion y safonau sydd wedi'u pennu yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015[13].

2.2 Mae'r cod yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch gofynion pob un o'r safonau yn y rheoliadau, ac eithrio'r safonau hybu (145 a 146). Mae dogfen gyngor ar wahân ar gael ar gyfer y safonau hyn.

2.3 Ymysg pethau eraill, mae'r cod yn darparu canllawiau ymarferol drwy:

- ymateb i gwestiynau cyffredin a ofynnwyd gan gyrff yn y gorffennol
- dehongli termau ac ymadroddion nad ydynt eisoes wedi'u dehongli yn y rheoliadau neu'r Mesur
- cyfeirio at unrhyw dermau neu ymadroddion perthnasol sydd eisoes wedi'u dehongli mewn rheoliadau neu ddeddfwriaeth arall
- darparu enghreifftiau o ystyr termau, ymadroddion penodol neu o sut gall corff weithredu rhai gofynion
- amlygu materion i gyrff eu hystyried wrth geisio cydymffurfio, ac
- egluro unrhyw gymalau perthnasol a geir yn y rheoliadau neu'r Mesur sy'n eithrio'r dyletswyddau i gydymffurfio mewn sefyllfaoedd penodol.

Sut i ddefnyddio'r cod hwn

2.4 Mae **Adran 3** yn rhoi canllawiau cyffredinol ar gynnwys y rheoliadau. Mae'n rhoi mwy o eglurder ynghylch materion sy'n effeithio ar y rheoliadau yn eu cyfanrwydd neu'n effeithio ar nifer o safonau ar draws mwy nag un gweithgaredd neu ddosbarth o safonau.

2.5 Mae **Adrannau 4-8** yn rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion y safonau fesul dosbarth o safonau:

- **Adran 4**: Safonau cyflenwi gwasanaethau [1-87]
- **Adran 5**: Safonau llunio polisi [88-97]
- **Adran 6**: Safonau gweithredu [98-144]
- **Adran 7**: Safonau cadw cofnodion [147-154]
- **Adran 8**: Safonau sy'n ymdrin â materion atodol [155-176].

2.6 Mae **Atodiad 1** yn rhestru pa gyrff y mae'r rheoliadau yn ymwneud â hwy. Mae **Atodiad 2** yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau sydd wedi bod i'r rheoliadau ers iddynt ddod i rym. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys templedi y gall corff eu defnyddio wrth gydymffurfio â safonau penodol.

[13] Adran 68 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/section/68/enacted/welsh

2.7 Mae'r canllawiau yn y cod wedi'u llunio gan ragdybio bod y safonau y cyfeirir atynt wedi'u gosod ar y corff. Dylid cyfeirio at hysbysiad cydymffurfio corff i ganfod pa safonau penodol sydd wedi'u gosod arnynt.

2.8 Os oes dehongliad perthnasol wedi'i ddarparu yn y rheoliadau, y Mesur neu ddeddfwriaeth arall, mae'r cod fel arfer yn cyfeirio at y dehongliadau hyn ac yn nodi'n benodol eu bod yn dod o'r deddfwriaethau hynny. Fel arall, mae'r cod yn cynnwys dehongliadau'r Comisiynydd o ofynion y safonau neu dermau penodol.

2.9 Oni bai y nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at 'corff' yn y cod hwn fel arfer yn cynnwys staff y corff hwnnw yn ogystal ag unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu ar ran, neu yn enw, y corff hwnnw (gweler paragraffau 3.37–3.49 y cod hwn).

Amrywiadau mewn hysbysiadau cydymffurfio

2.10 Mae'r cod yn ymdrin â gofynion y safonau fel y maent wedi'u pennu yn y rheoliadau yn unig. Nid yw'r cod yn darparu unrhyw gyngor ynglŷn ag amgylchiadau penodol lle mae'r Comisiynydd wedi darparu mewn hysbysiad cydymffurfio ym mha amgylchiadau (neu ardaloedd) mae'n rhaid i gorff gydymffurfio.

2.11 Dylid felly ddarllen y cod hwn ochr yn ochr â hysbysiad cydymffurfio'r corff ynghyd â'r rheoliadau er mwyn ystyried dyletswyddau'r corff yn llawn.

Dyletswyddau, canllawiau, rhestrau ac enghreifftiau

2.12 Mae'r term 'rhaid' (neu dermau tebyg) yn y cod yn dynodi dyletswyddau statudol sy'n dod yn uniongyrchol o'r gyfraith[14].

2.13 Mae'r term 'nid oes rhaid' (neu dermau tebyg) yn dynodi nad oes dyletswydd statudol yn unol â'r safon dan sylw[15].

2.14 Mae'r termau 'gellir', 'disgwylir' a 'ni ddisgwylir' (neu dermau tebyg) yn dynodi canllawiau ymarferol gan y Comisiynydd ynghylch gofynion y safonau neu enghreifftiau o sut y gellid eu gweithredu. Er nad yw'r canllawiau hyn o reidrwydd yn ddyletswyddau statudol, dylid ystyried paragraffau y 1.16–1.18 y cod hwn.

2.15 Ni ddylid dehongli cyfeiriadau at y term 'yn cynnwys' (neu unrhyw dermau tebyg) i awgrymu bod unrhyw gyfyngiad o ran y gofynion neu'r dehongliad (oni bai bod hynny'n cael ei nodi'n benodol).

2.16 Mae'r cod hwn yn cynnwys enghreifftiau o sut y gellid gweithredu gofynion y safonau. Pwrpas yr enghreifftiau hyn yw dangos sut y gall gofynion y safonau effeithio ar weithrediad y corff yn ymarferol. Ni ddylid dehongli'r enghreifftiau hyn i olygu:

- bod rhaid gweithredu'r gofynion yn y modd hwnnw'n unig
- nad oes modd cydymffurfio drwy weithredu mewn modd arall, na
- bod rhaid gweithredu'r gofynion yn unol â'r enghreifftiau a gynigir yn unig.

[14] Boed o'r hysbysiad cydymffurfio, y rheoliadau, y Mesur neu unrhyw ddeddfwriaeth arall.

[15] Nid yw cyfeiriad at y term hwn yng nghyswllt safon penodol yn golygu nad oes dyletswydd statudol ar gorff yng nghyswllt safon arall.

3 Canllawiau cyffredinol ar gynnwys y rheoliadau

Beth yw ystyr y term 'cyhoedd'?

3.1 Mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unrhyw bersonau nad ydynt eu hunain ar y pryd yn gweithredu swyddogaethau awdurdod cyhoeddus.

3.2 Mae'r term yn cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu gyfran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd.

3.3 Mae'n cynnwys unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae hefyd yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau ynghyd â chyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig.

3.4 Nid yw'r term 'cyhoedd' yn cynnwys y Goron[16], y Llywodraeth na'r Wladwriaeth.

3.5 Nid yw'n cynnwys personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus tra byddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny. Er enghraifft, nid yw'r term yn cynnwys personau sy'n cynrychioli awdurdodau cyhoeddus.[17]

Beth yw ystyr y term 'unigolyn'?

3.6 Mae'r rheoliadau yn nodi:

> "ystyr "unigolyn" ("individual") yw aelod o'r cyhoedd[18]."

3.7 Mae cyd-destun pob safon yn pennu pwy yn union sy'n dod o dan y term mewn amgylchiadau penodol.

Beth yw ystyr y term 'person'?

3.8 Mae Deddf Dehongli 1978 (Deddf 1978) yn nodi:

[16] Gall hyn gynnwys y lluoedd arfog, gweision sifil, gwas y Goron, neu asiantaeth y Goron.

[17] Mae 'awdurdod cyhoeddus' yn cynnwys unrhyw berson y mae ganddo swyddogaethau o natur gyhoeddus. Mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n dod o fewn ystyr "public authority" yn adran 6(3) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/42/section/6
(e.e. Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol).

[18] Adran 1(4), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi_20150996_mi.pdf

> “"person" includes a body of persons corporate or unincorporate[19].”

3.9 Felly, mae’r term yn cynnwys personau corfforaethol ac anghorfforedig. Mae’n cynnwys unrhyw endid y gall fod ganddo hawliau neu ddyletswyddau yn ôl y gyfraith.

3.10 Gall y term ‘person’ gynnwys endidau fel cyrff corfforaethol, cymdeithasau, cwmnïau, partneriaethau, ymddiriedolaethau, unigolion ac unrhyw gyfuniad o un neu fwy o'r rhain.

3.11 Nid yw’r term ‘person’ yn cynnwys y corff ei hun.

3.12 Mae gan y term ‘person’ ystyr ehangach na’r termau ‘unigolyn’ a’r ‘cyhoedd’. Yn ogystal â chynnwys y rhai hynny a ddaw o fewn ystyr y termau ‘unigolyn’ a ‘cyhoedd’, mae’r term ‘person’ hefyd yn cynnwys personau sy’n gweithredu yn rhinwedd swyddogaethau o gynrychioli’r Goron, y Llywodraeth, neu’r Wladwriaeth.

3.13 Mae hyn yn golygu bod y term ‘person’ hefyd yn cynnwys person (ac eithrio’r corff ei hun) sy’n gweithredu swyddogaethau awdurdod cyhoeddus. Er enghraifft, gall y term gynnwys aelod o staff awdurdod Parc Cenedlaethol, cyngor sir, bwrdd iechyd neu aelod o staff Llywodraeth Cymru.

3.14 Mae’r diagram canlynol yn cynrychioli sut mae’r termau uchod yn cysylltu â’i gilydd ar ei ffurf symlaf:



Beth yw ystyr y termau ‘aelod o staff’, ‘unigolyn sy’n gweithio i gorff’ a ‘cyflogai i gorff’?

3.15 Mae’r rheoliadau yn nodi:

[19] Atodlen 1, Deddf Dehongli 1978
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1978/30/pdfs/ukpga_19780030_en.pdf

> "ystyr "aelod o staff" ("member of staff") yw cyflogai i gorff neu unigolyn sy'n gweithio i gorff (a rhaid dehongli "staff" ("staff") yn unol â hynny)[20]."

3.16 Nid yw'r term "cyflogai i gorff" yn cael ei ddehongli ymhellach yn y rheoliadau. Er hynny, gellir edrych ar y dehongliad o *"employee"* a geir yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996 am gymorth, sy'n nodi:

> "(1) In this Act 'employee' means an individual who has entered into or works under (or, where the employment has ceased, worked under) a contract of employment.
>
> (2) In this Act 'contract of employment' means a contract of service or apprenticeship, whether express or implied, and (if it is express) whether oral or in writing[21]."

3.17 Yn ogystal, nid yw'r term 'unigolyn sy'n gweithio i gorff' yn cael ei ddehongli ymhellach yn y rheoliadau. Er hynny, gellir edrych ar y dehongliad o "*worker*" a geir yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996 am gymorth, sy'n nodi:

> "(3) In this Act 'worker' […] means an individual who has entered into or works under (or, where the employment has ceased, worked under) –
>
> (a) a contract of employment, or
>
> (b) any other contract, whether express or implied and (if it is express) whether oral or in writing, whereby the individual undertakes to do or perform personally any work or services for another party to the contract whose status is not by virtue of the contract that of a client or customer of any profession or business undertaking carried on by the individual;
>
> and any reference to a worker's contract shall be construed accordingly[22]."

3.18 Mae gan y term 'unigolyn sy'n gweithio i gorff' ystyr ehangach na'r term 'cyflogai i gorff'.

3.19 Mae'r term 'aelod o staff' yn cynnwys personau sy'n dod o fewn dehongliadau'r termau 'cyflogai i gorff' ac 'unigolyn sy'n gweithio i gorff'. Nid yw'r term yn cynnwys y rhai hynny sy'n wir hunan-gyflogedig.

[20] Adran 1(4), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi_20150996_mi.pdf

[21] Adran 230, Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/18/section/230

[22] Adran 230, Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/18/section/230

3.20 Gall person sydd wedi ei benodi i gorff gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, Gweinidogion Cymru, un o Weinidogion y Goron neu Ei Mawrhydi gael ei gynnwys o fewn ystyr y term 'aelod o staff'.

3.21 Mae cyfeiriad at 'aelod o staff', 'cyflogai i gorff' neu 'unigolyn sy'n gweithio i gorff' yn cynnwys, yn achos Gweinidogion Cymru, cyflogai i Lywodraeth Cymru neu unigolyn sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru.

Sut mae'r safonau yn effeithio ar aelodau etholedig a chyfetholedig cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir?

3.22 Mae'r ffordd y mae'r safonau yn effeithio ar aelod etholedig a chyfetholedig cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir ('cynghorydd') yn amrywio. Mae'r effaith yn ddibynnol ar y capasiti y mae'r cynghorydd yn gweithredu ynddo ar y pryd. Gall hynny effeithio ar y graddau y mae'n rhaid i'r cynghorydd weithredu yn unol â'r safonau.

3.23 Os yw cynghorydd yn darparu gwasanaeth[23] yn rhinwedd swyddogaeth sydd wedi'i ddirprwyo iddo dan gyfansoddiad ei gyngor, bydd rhaid i'r cynghorydd weithredu yn unol â'r safonau sydd wedi'u gosod ar y cyngor wrth iddo ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

3.24 Fel arall, ni fydd rhaid i'r cynghorydd weithredu yn unol â safonau'r cyngor fel arfer. Yr unig eithriad i hynny yw pan mae cynghorydd yn defnyddio adnoddau'r cyngor (tu hwnt i'r adnoddau a'i dâl cydnabyddiaeth arferol) i ddarparu gwasanaeth.

3.25 Fodd bynnag, gall cynghorydd ddod o fewn ystyr y term 'cyhoedd' fel eu cynrychiolydd. Gall hefyd fod yn 'berson' at ddibenion y safonau os bydd yn gweithredu ar wahân i'r cyngor ei hun. Mewn sefyllfa felly, gall fod gan gynghorydd yr hawl i dderbyn gwasanaethau gan y cyngor yn Gymraeg o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau.

3.26 Nid yw'r safonau gweithredu yn rhoi hawl i gynghorydd dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg gan gorff, gan nad ydynt yn 'aelod o staff' at ddibenion y safonau.

Sut mae'r safonau yn effeithio ar aelodau awdurdod Parc Cenedlaethol?

3.27 Os yw aelod sydd wedi'i benodi neu ei enwebu i awdurdod Parc Cenedlaethol yn darparu gwasanaeth yn rhinwedd swyddogaeth sydd wedi'i ddirprwyo iddo dan gyfansoddiad yr awdurdod hwnnw, bydd rhaid i'r aelod weithredu'n unol â'r safonau sydd wedi'u gosod ar yr awdurdod hwnnw wrth wneud hynny.

3.28 Fel arall, ni fydd rhaid i'r aelod weithredu'n unol â safonau'r awdurdod fel arfer. Yr unig eithriad i hynny yw pan mae aelod yn defnyddio adnoddau'r awdurdod (tu hwnt i'r adnoddau a'i dâl cydnabyddiaeth arferol) i ddarparu gwasanaeth.

[23] Er hwylustod yn y cod, mae cyfeiriadau at gorff neu drydydd parti yn cyflawni gweithgaredd neu'n darparu gwasanaeth yn cael eu cyfleu drwy nodi bod corff neu drydydd parti yn 'darparu gwasanaeth'. Yn yr un modd, mae cyfeiriadau at y term 'gwasanaeth' yn cyfeirio at weithgaredd neu wasanaeth.

3.29 Fodd bynnag, gall aelod ddod o fewn ystyr y term 'cyhoedd' oni bai ei fod yn gweithredu ar ran awdurdod cyhoeddus arall. Gall hefyd fod yn 'berson' at ddibenion y safonau os bydd yn gweithredu ar wahân i'r awdurdod ei hun. Mewn sefyllfa felly, gall fod gan aelod yr hawl i dderbyn gwasanaethau gan yr awdurdod yn Gymraeg o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau.

3.30 Nid yw'r safonau gweithredu yn rhoi hawl i aelod dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg gan gorff, gan nad ydynt yn 'aelod o staff' at ddibenion y safonau.

Pwy yw 'Gweinidogion Cymru'?

3.31 Mae'r term 'Gweinidogion Cymru' i'w ddehongli yn unol ag adran 45(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

> "In this Act and in any other enactment or instrument the First Minister and the Welsh Ministers appointed under section 48 are referred to collectively as the Welsh Ministers[24]."

3.32 Felly, mae'r safonau sydd wedi'u gosod ar Weinidogion Cymru (sef y 'corff' yn yr achos hwn) yn berthnasol i swyddogaethau'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

3.33 Mae'r safonau sydd wedi'u gosod ar Weinidogion Cymru hefyd yn berthnasol i Ddirprwy Weinidogion Cymru a staff Llywodraeth Cymru pan maent yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

3.34 Nid yw'r term yn cynnwys y Cwnsler Cyffredinol.

3.35 Nid oes rhaid i Weinidogion Cymru weithredu yn unol â'r safonau pan fyddant yn gweithredu yn eu capasiti fel Aelod Cynulliad yn unig.

3.36 Nid yw Gweinidogion Cymru fel personau unigol yn aelodau staff at ddibenion y safonau.

A yw'r safonau yn gymwys i ddarparwyr trydydd parti?

3.37 Ydyn. Mae adran 1(5) o'r rheoliadau yn nodi:

[24] Adran 45, Deddf Llywodraeth Cymru 2006
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/part/2

"Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff;

(b) yn unol â hynny, oni bai bod hysbysiad cydymffurfio yn darparu i'r gwrthwyneb, bydd corff wedi methu â chydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd y mae wedi trefnu iddo gael ei gyflawni, neu wasanaeth y mae wedi trefnu iddo gael ei ddarparu, gan drydydd parti os nad yw'r gweithgaredd hwnnw neu'r gwasanaeth hwnnw wedi ei gyflawni neu ei ddarparu yn unol â'r safon."

3.38 Felly, os bydd trydydd parti yn cyflawni gweithgaredd neu'n darparu gwasanaeth, a hynny:

- ar ran y corff sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau, ac
- o dan drefniadau a wneir rhwng y corff a'r trydydd parti

rhaid i'r corff sicrhau bod y trydydd parti yn cydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw.

3.39 Fel arall, os nad yw'r trydydd parti yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol wrth iddynt ddarparu'r gwasanaeth ar ran y corff, byddai'r corff yn atebol am fethu â chydymffurfio â'r safonau hynny. Gall hynny arwain at weithredu yn erbyn y corff o dan bwerau gorfodi'r Comisiynydd.

Oes rhaid i gorff sicrhau bod y trydydd parti yn cydymffurfio â'r holl safonau yn eu hysbysiad cydymffurfio?

3.40 Nac oes. Nid oes rhaid i gorff sicrhau bod darparwyr trydydd parti yn cydymffurfio â'r holl safonau sydd wedi'u gosod ar y corff. Yn hytrach, rhaid i'r corff sicrhau bod y darparwr trydydd parti yn cydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ganddo ar ran y corff yn unig.

Nid yw rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan y corff bellach. Pa fodelau o ddarpariaeth all fod yn berthnasol i'r safonau?

3.41 Mae nifer o fodelau gwahanol posibl ar gyfer darparu gwasanaeth gan gorff yn anuniongyrchol. Gall modelau o'r fath gynnwys y canlynol:

- allanoli gwasanaethau drwy gontract, lle mae'r darparwr yn derbyn tâl gan y corff
- darparu gwasanaethau drwy gonsesiwn, lle mae gan y darparwr hawl i godi tâl am y gwasanaethau

- darparu gwasanaethau drwy endid ar wahân, a berchenogir yn llwyr gan y corff
- darparu gwasanaethau drwy endid ar wahân, a berchenogir gan y corff ar y cyd â phersonau eraill
- darparu gwasanaethau drwy endid ar wahân, a berchenogir gan y corff ar y cyd â phartner masnachol neu drydydd sector.

3.42 Rhaid i'r trydydd parti ddarparu gwasanaeth **ar ran** y corff i'r safonau fod yn gymwys. Os nad yw'r corff bellach yn gyfrifol o gwbl am y gwasanaeth, nid yw'r safonau fel arfer yn berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw.

3.43 Cyfrifoldeb y corff yw ystyried y graddau y mae'r trydydd parti yn darparu gwasanaeth ar ran y corff. Gall corff wneud hynny drwy gynnal asesiad o unrhyw drefniadau sydd ganddo gyda thrydydd partïon.

3.44 Gall trefniadau gynnwys unrhyw drefniadau sy'n cael eu gwneud rhwng corff a thrydydd parti. Nid oes rhaid i drefniadau fod yn ysgrifenedig na bod â theitl penodol. Yr hyn sy'n bwysig yw effaith y trefniant a bod hynny'n golygu bod bwriad i'r trydydd parti ddarparu'r gwasanaeth ar ran y corff.

Beth os yw'r trefniadau i ddarparu'r gwasanaeth ar ran y corff wedi'u gwneud cyn y diwrnod gosod?

3.45 Mae'r safonau hefyd yn gymwys i wasanaeth a ddarperir gan drydydd parti os yw'r trefniadau a wneir rhyngddynt wedi'u gwneud cyn diwrnod gosod unrhyw safon berthnasol. Rhaid i gorff felly gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod unrhyw drefniadau a wneir cyn y diwrnod gosod yn golygu bod y corff yn cydymffurfio â gofynion y safonau o'r diwrnod gosod ymlaen.

3.46 Mae'n bosibl y bydd rhaid ystyried beth yw trefniant cyfredol y corff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. Gall hynny gynnwys ystyried y canlynol:

- addasu trefniant sydd eisoes wedi'i wneud rhwng y corff a'r trydydd parti neu'r corff
- gwneud trefniant newydd rhwng y corff a'r trydydd parti
- gwneud trefniant newydd gyda thrydydd parti newydd, neu
- sicrhau bod staff y corff yn cymryd cyfrifoldeb dros ddarparu'r gwasanaeth.

3.47 Os yw corff wedi gwneud y trefniant drwy gontract, mae'n bosibl bod y contract dan sylw'n caniatáu i gorff wneud newidiadau iddo o ganlyniad i ddod yn ddarostyngedig i ofynion cyfreithiol newydd. Mae dyletswydd corff i gydymffurfio gyda'r safonau yn ofyniad cyfreithiol ac felly o bosib yn caniatáu i unrhyw newidiadau angenrheidiol gael eu gwneud.

A yw'r safonau sydd wedi'u gosod ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn berthnasol i weithrediad ysgolion o fewn y sir hefyd?

3.48 Mae hysbysiad cydymffurfio cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn berthnasol i swyddogaethau'r cyngor yn unig. Nid yw felly'n berthnasol i swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion.

3.49 Byddai hysbysiad cydymffurfio cyngor ond yn berthnasol i weithgareddau ysgolion o fewn ardal y cyngor, i'r graddau mai'r cyngor, ac nid y corff llywodraethu, sy'n gyfrifol am y gwasanaeth dan sylw.

A yw'r safonau ond yn berthnasol i'r gwasanaethau y mae personau'n eu derbyn yng Nghymru?

3.50 Mae'r Mesur yn darparu bod y safonau yn gymwys o ran Cymru. Nid yw hynny o reidrwydd wedi'i gyfyngu i wasanaethau a ddarperir yn ddaearyddol yng Nghymru gan bod ystyr ehangach i "o ran Cymru" sy'n gallu golygu gwasanaethau a ddarperir o du allan i Gymru, cyn belled â bod ganddynt gysylltiad â Chymru. Os oes gan y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu y cysylltiad angenrheidiol â Chymru yna gall y safonau fod yn gymwys i'r gwasanaeth hwnnw. O ganlyniad, bydd y graddau y mae safonau yn gymwys i wasanaethau a ddarperir yng Nghymru yn unig yn dibynnu ar gyd-destun y gwasanaeth a ddarperir, y gweithgaredd a gyflawnir yn ogystal ag union eiriad y safon. Gall yr hysbysiad cydymffurfio hefyd gyfyngu ar y cymhwysiad.

Os yw safon yn nodi bod rhaid darparu gwasanaeth neu lunio deunydd 'yn Gymraeg', ydy hynny'n golygu bod rhaid iddo gael ei ddarparu yn Gymraeg yn unig a bod angen llunio deunydd yn Gymraeg yn gyntaf?

3.51 Nac ydy, ond nid yw'r safonau yn rhwystro hynny ychwaith. Mae gofynion y safonau yn gosod dyletswyddau ynghylch darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn unig. Nid ydynt yn gosod dyletswyddau mewn perthynas â darparu gwasanaethau mewn ieithoedd eraill ac felly mater i'r corff yw hynny.

3.52 Mae nodiadau esboniadol y rheoliadau yn nodi:

> "Pan fo safon a bennir yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd ysgrifenedig gael ei arddangos neu ei ddarparu yn Gymraeg, neu i wasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg, nid yw hyn yn golygu bod rhaid arddangos neu ddarparu'r deunydd hwnnw yn Gymraeg yn unig, na bod rhaid i'r gwasanaeth hwnnw gael ei ddarparu yn Gymraeg yn unig (oni bai bod hynny'n cael ei nodi'n benodol)."

3.53 Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 26 y rheoliadau yn nodi'n benodol mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaethau:

"At ddibenion y safonau—

(a) nid yw gofyniad i lunio unrhyw ddeunydd ysgrifenedig, i'w anfon, i'w gyhoeddi, i'w arddangos, i'w roi ar gael neu i'w ddyroddi yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid llunio'r deunydd, ei anfon, ei gyhoeddi, ei arddangos, ei roi ar gael neu ei ddyroddi, nac yn golygu y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni bai bod hynny'n cael ei nodi'n benodol yn y safon);

(b) nid yw gofyniad bod gwasanaeth i gael ei ddarparu yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid darparu'r gwasanaeth hwnnw (oni bai bod hynny'n cael ei ddatgan yn benodol yn y safon)."

3.54 Mae Atodlen 3, Rhan 3, Paragraff 13 y rheoliadau yn nodi'n benodol mewn perthynas â'r safonau gweithredu:

"At ddibenion y safonau, nid yw gofyniad i gyhoeddi, darparu neu arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid cyhoeddi, darparu neu arddangos deunydd yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon)."

3.55 Mae Atodlen 6, Rhan 6, Paragraff 25 y rheoliadau yn nodi'n benodol mewn perthynas â'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol:

"At ddibenion y safonau, nid yw gofyniad i gyhoeddi, darparu neu arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid cyhoeddi, darparu neu arddangos deunydd yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon)."

Os yw safon yn nodi bod rhaid darparu gwasanaeth 'yn Gymraeg', ydy hynny'n golygu bod corff yn gallu darparu'r gwasanaeth yn ddwyieithog?

3.56 Nid yw'r safonau'n atal cyrff rhag darparu gwasanaeth 'yn Gymraeg' drwy'i ddarparu yn ddwyieithog. Gall corff ddarparu gwasanaeth yn ddwyieithog drwy ddarparu'r gwasanaeth:

- yn y Gymraeg ac yn y Saesneg ar wahân (os yw safon benodol yn caniatáu hynny), neu wneud hynny
- fel bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd o fewn yr un gwasanaeth.

4 Safonau cyflenwi gwasanaethau [1-87]

4.1 Gohebiaeth a anfonir gan gorff [safonau 1-7]

Beth yw'r gofynion?

4.1.1. Mae safonau 1–7 yn ymwneud â'r modd y mae corff yn anfon gohebiaeth. Mae'r safonau'n ymdrin â:

- corff yn ateb gohebiaeth oddi wrth berson arall (safon 1)
- corff yn gohebu ag unigolyn (safon 2), â mwy nag un aelod o'r un aelwyd (safon 3), neu â sawl person (safonau 4 a 5), a
- materion cyffredinol ynghylch gohebu (safonau 6 a 7).

Safon 1

4.1.2. Os yw corff yn cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid i'r corff ateb yr ohebiaeth yn Gymraeg (os oes angen ateb). Nid oes rhaid i gorff ateb yn Gymraeg os yw person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.

4.1.3. Yn yr un modd, nid oes rhaid i'r corff ateb yr ohebiaeth yn Gymraeg os nad oes angen ateb o gwbl (mewn unrhyw iaith). Er enghraifft, mae'n bosibl nad oes rhaid ateb os yw'r ohebiaeth yn cyflwyno sylwadau yn unig neu os yw'r person wedi cadarnhau i'r corff nad oes angen iddo ymateb i'r ohebiaeth.

4.1.4. Rhaid i gorff ddelio â'r ohebiaeth drwy ymateb iddi yn ei chyfanrwydd yn Gymraeg (os yw person yn dymuno hynny a bod angen ateb). Mae'r safon yn berthnasol i'r holl ymatebion y mae corff yn eu hanfon sy'n delio â'r ohebiaeth dan sylw. Ni fyddai corff yn cydymffurfio pe byddai'n ymateb drwy gydnabod derbyn yr ohebiaeth yn Gymraeg ond yna'n peidio ag anfon gohebiaeth ddilynol sy'n delio â'r mater dan sylw yn Gymraeg.

4.1.5. Er mwyn gallu delio â'r ohebiaeth yn Gymraeg, mae'n bosibl y bydd rhaid i gorff ystyried deunydd Cymraeg atodol y mae person yn ei anfon hefyd (e.e. ffurflen, dogfen neu ddeunydd arall i'w defnyddio i ddelio â'r ohebiaeth). Gall hynny gynnwys ystyried deunydd uniaith Gymraeg.

Safon 2

4.1.6. Os yw corff yn gohebu ag unigolyn am y tro cyntaf, rhaid iddo ofyn wrth yr unigolyn a fyddai'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg. Os yw'r unigolyn yn ymateb i ddweud mai ei ddymuniad yw cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff, rhaid i'r corff gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, gan ohebu â'r unigolyn hwnnw, ac anfon unrhyw ffurflenni at yr unigolyn hwnnw, yn Gymraeg o hynny ymlaen.

4.1.7. Mae'r safon hon yn ymwneud â gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio'n benodol at unigolyn. Fel arfer, byddai'r safon hon yn berthnasol i ohebiaeth sy'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i phersonoli neu ei theilwra'n benodol ar gyfer yr unigolyn (y

tu hwnt i fanylion cyffredinol fel enw neu gyfeiriad). Rhaid i gorff gyfeirio at safon 3 os yw gohebiaeth wedi'i chyfeirio at ddau unigolyn o'r un aelwyd neu safon 4 os yw'r un ohebiaeth yn cael ei hanfon at nifer o bersonau.

4.1.8. Mae Atodlen 1, Rhan 3, paragraff 31 o'r rheoliadau yn nodi nad oes rhaid i gorff anfon fersiwn Gymraeg o rai ffurflenni yn unol â'r safon hon:

> "At ddibenion safon 2, nid yw'n ofynnol i gorff anfon fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni a restrir yn is-baragraff (3).
>
> (3) Y ffurflenni yw —
>
> (a) ffurflenni a ddefnyddir gan gorff i recriwtio cyflogeion (gweler safonau 137A, 138 a 139 mewn perthynas â recriwtio);
>
> (b) ffurflenni a ddefnyddir wrth wneud cais am gymorth grant gan gorff (gweler safonau 71 i 75 mewn perthynas â cheisiadau am grantiau);
>
> (c) ffurflenni a ddefnyddir pan gyflwynir tender i gontractio gyda chorff (gweler safonau 76 i 80 mewn perthynas â thendro am gontract)."

4.1.9. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg, byddai corff yn parhau i gydymffurfio os yw'n dewis anfon fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni hyn atynt.

4.1.10. Os yw unigolyn yn ymateb i ddweud nad yw'n dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff, nid oes rhaid i'r corff ohebu â'r unigolyn hwnnw, nac anfon unrhyw ffurflenni at yr unigolyn hwnnw, yn Gymraeg o hynny ymlaen. Os nad yw'r unigolyn yn ymateb i gynnig y corff, dylai corff beidio â chymryd hynny i olygu nad yw'r unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd safon 5 yn gymwys os nad yw'r corff yn gwybod os yw'r unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg.

Safon 3

4.1.11. Os yw corff yn anfon gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd am y tro cyntaf, rhaid iddo ofyn wrth y ddau unigolyn hynny a fyddent yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrth y corff yn Gymraeg. Er enghraifft, gall y math o ohebiaeth gynnwys gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at rieni plentyn, neu ddau unigolyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

4.1.12. Os yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud mai dymuniad y ddau yw i gael gohebiaeth (sydd wedi'i chyfeirio at y ddau ohonynt) gan y corff yn Gymraeg, rhaid i'r corff gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, gan ohebu â hwy yn Gymraeg o hynny ymlaen (wrth anfon gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at y ddau ohonynt).

4.1.13. Os yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud mai ei ddymuniad yw i gael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff, rhaid i'r corff gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw. Os yw corff yn anfon gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at y ddau unigolyn o hynny ymlaen, rhaid iddo hefyd ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth.

4.1.14. Os yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud nad ydynt yn dymuno cael gohebiaeth (sydd wedi'i chyfeirio at y ddau ohonynt) gan y corff yn Gymraeg, nid oes rhaid i'r corff ohebu â hwy yn Gymraeg o hynny ymlaen (wrth anfon gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at y ddau ohonynt). Os nad yw'r unigolion yn ymateb, rhaid i gorff beidio â chymryd hynny i olygu nad ydynt yn dymuno cael gohebiaeth (sydd wedi'i chyfeirio at y ddau ohonynt) yn Gymraeg. Bydd safon 5 yn gymwys os nad yw'r corff yn gwybod os yw'r unigolion yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg.

Safon 4

4.1.15. Os yw corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid iddo anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno. Rhaid i'r corff sicrhau hefyd bod y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn cael ei hanfon ar yr un pryd ag y mae'n anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

4.1.16. Mae'r safon hon yn berthnasol i achosion lle mae'r un ohebiaeth yn cael ei hanfon at sawl person. Gall hyn gynnwys pan fydd corff yn anfon yr un cylchlythyr, e-gylchlythyr, newyddlen, e-bost, neges testun neu lythyr at nifer o gartrefi neu bersonau.

4.1.17. Yn wahanol i safonau 2 a 3, sy'n ymdrin â gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at un neu ddau unigolyn penodol yn unig, mae safon 4 yn ymdrin â gohebiaeth safonol sy'n berthnasol i sawl person. Nid yw'r safon hon yn berthnasol i ohebiaeth sy'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i theilwra neu ei phersonoli yn unigol (y tu hwnt i fanylion cyffredinol fel eu henw neu gyfeiriad). Dylai corff drin y math yma o ohebiaeth ar wahân i'r math o ohebiaeth a gaiff ei hanfon yn unol â safonau 2 a 3.

4.1.18. Felly, os yw corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, nid yw ateb unigolyn ynghylch ei ddymuniad i gael gohebiaeth yn Gymraeg yn unol â safonau 2 a 3 yn effeithio ar ddyletswydd corff i anfon gohebiaeth at yr unigolyn hwnnw yn Gymraeg yn unol â safon 4.

Safon 5

4.1.19. Os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, rhaid iddo ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu â'r person hwnnw.

4.1.20. Golyga hynny fod rhaid i gorff anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at berson ar bob achlysur hyd nes ei fod yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg.

4.1.21. Gall corff 'wybod' a yw person yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg ai peidio drwy:

- ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd i'r corff yn unol â safon 2 neu 3
- defnyddio gwybodaeth ynghylch dewis iaith sydd eisoes wedi'i chasglu gan y corff
- person yn rhoi gwybod yn rhagweithiol ei fod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg, neu drwy

- brofiad y corff o fod yn ymwneud â pherson yn y gorffennol lle mae wedi mynegi ei ddymuniad.[25]

4.1.22. Er nad oes rhaid i gorff ofyn a chadw cofnod ynghylch dymuniad person i gael gohebiaeth yn Gymraeg (fel y mae safonau 2 a 3), gall corff wneud hynny er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â'r safon a sicrhau y caiff gohebiaeth ei hanfon yn Gymraeg i'r personau sy'n dymuno hynny.

4.1.23. Os yw corff yn dewis gofyn ynghylch dymuniad person i gael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, ac os nad yw'r person yn ymateb i gynnig y corff, dylai corff beidio â chymryd hynny i olygu ei fod yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrth y corff yn Gymraeg.

4.1.24. Dylid pwysleisio bod y safon hon yn gymwys i ohebiaeth y mae corff yn ei hanfon at 'berson(au)'. Mae hynny'n cynnwys gohebiaeth a gaiff ei hanfon at gwmnïau cyfyngedig, elusennau ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Nid yw'r gofynion felly wedi'u cyfyngu i ohebiaeth a anfonir at aelodau'r cyhoedd yn unig.

Safon 6

4.1.25. Os yw corff yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

4.1.26. Er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg o ohebiaeth wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin o leiaf yn yr un modd.

4.1.27. Darperir y dehongliad canlynol o'r term 'peidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' yn Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 29 o'r rheoliadau:

> "Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg (ac eithrio safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau), 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol) a 76 (gwahoddiad i dendro)), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
>
> (b) maint y deunydd;
>
> (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
>
> (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
>
> (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd."

[25] Dylai corff fod yn ymwybodol o ofynion deddfwriaeth diogelu data os yw'n dewis gweithredu yn unol ag un neu ragor o'r dulliau hyn.

4.1.28. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)
- cynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir), a
- phryd caiff y deunydd ei anfon gan y corff a'i dderbyn gan y person.

Safon 7

4.1.29. Rhaid i gorff ddatgan sut y byddent yn trin gohebiaeth yn Gymraeg. Rhaid i gorff gynnwys y datganiad hwn mewn:

- gohebiaeth
- cyhoeddiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb atynt neu i anfon gohebiaeth atynt; a
- hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb atynt neu i anfon gohebiaeth atynt.

4.1.30. Rhaid i'r datganiad nodi:

- ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg
- y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac
- na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

4.1.31. Nid oes rhaid i'r datganiad fod air am air â geiriad y safon. Fodd bynnag, disgwylir i'r datganiad hwnnw fod yn ddigon clir ac eglur fel bod personau yn llwyr ymwybodol o ymrwymiad ac ymroddiad y corff i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth dderbyn ac ymateb i ohebiaeth Gymraeg gan bersonau.

4.1.32. Gall corff arddangos logo Iaith Gwaith y Comisiynydd ochr yn ochr ag unrhyw ddatganiad ysgrifenedig i gyfleu ymhellach bod y corff yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg ac y byddent yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.

4.1.33. Ni fyddai arddangos y logo Iaith Gwaith yn gyfystyr â chyfleu na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Disgwylir felly bod corff yn cyfleu hynny drwy ddatgan hynny'n benodol yn ysgrifenedig.

4.1.34. Mae'r logo Iaith Gwaith ar gael i'w lawrlwytho am ddim oddi ar wefan y Comisiynydd. Mae'r logo yn ymddangos fel a ganlyn:

4.1.35. Dyma enghraifft o ddatganiad y gall corff ddefnyddio at ddibenion y safon:

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.

You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.

4.1.36. Ni ddisgwylir y byddai gohebu yn Gymraeg wedi arwain at oedi os yw corff yn ymateb yn Gymraeg i'r person:

- o fewn eu cyfnod(au) targed sefydliadol ar gyfer ymateb i ohebiaeth (e.e. targed sefydliadol i gydnabod ac ymateb i'r ohebiaeth gydag ymateb interim/llawn o fewn cyfnod(au) penodol), ac
- o fewn yr un cyfnod ag ybyddai'n ei gymryd i ymateb person yn Saesneg.

Beth yw ystyr y term 'gohebiaeth'?

4.1.37. Mae'r term yn cynnwys unrhyw gyfathrebiad neu gysylltiad ysgrifenedig a gyfnewidir rhwng dau neu ragor o bartïon. Gall gohebiaeth fod ar ffurf llythyr, e-bost, neges testun, ffacs, cyfleuster sgwrsio byw ar-lein[26], ffurflen[27] neu gylchlythyr.

4.1.38. Mae'r term yn cynnwys gohebiaeth ysgrifenedig ar ffurf electronig yn ogystal ag ar ffurf papur e.e. drwy e-bost, PDF neu ddogfen sy'n cael ei chynhyrchu drwy brosesydd geiriau fel Microsoft Word.

4.1.39. Mae'r term hefyd yn cynnwys unrhyw ohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu yn awtomatig gan system neu beiriant, megis biliau, atgoffwyr neu ymatebion awtomataidd drwy e-bost.

4.1.40. Nid yw'r term yn golygu gohebiaeth y mae angen i berson ymateb iddi yn unig. Gall hefyd gynnwys gohebiaeth sy'n cael ei hanfon at berson er mwyn rhannu gwybodaeth yn unig.

4.1.41. Nid yw safonau 1 i 7 yn gymwys i ohebiaeth a anfonir drwy'r cyfryngau cymdeithasol[28].

Beth sy'n rhaid bod yn Gymraeg wrth anfon gohebiaeth drwy e-bost?

4.1.42. Os oes rhaid i gorff sicrhau bod gohebiaeth drwy e-bost yn cael ei hanfon yn Gymraeg yn unol â'r safonau, gall hynny gynnwys sicrhau bod:

- corff yr e-bost yn Gymraeg
- negeseuon e-bost awtomatig yn Gymraeg
- ymwadiadau a llofnodion yr e-bost yn Gymraeg
- llinell pwnc yr e-bost yn Gymraeg, a bod

[26] Cymhwysiad sydd wedi ei gynllunio'n benodol i ddarparu cymorth ar-lein di-oed i ddefnyddwyr gwefan.

[27] Dylid cyfeirio at safonau 50–51 pan fo corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni.

[28] Gweler safonau 58 a 59 ynghylch y gofynion mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol.

- yr addasiadau y mae corff yn eu gwneud i linell pwnc person arall yn Gymraeg (e.e. defnyddio byrfoddau Cymraeg 'Atb:' wrth ateb e-bost neu 'Yml:' wrth anfon e-bost ymlaen).

A yw'r safonau hyn yn berthnasol i ohebiaeth sy'n cael ei hanfon yn fewnol rhwng staff corff yn unig?

4.1.43. Nac ydyn. Os yw gohebiaeth yn cael ei hanfon yn fewnol rhwng staff corff yn unig, ni fyddai'r safonau hyn yn berthnasol i'r ohebiaeth honno.

4.1.44. Mae'r safonau hyn ond yn berthnasol os yw'r corff yn anfon gohebiaeth i berson arall sydd ar wahân i'r corff. Os yw aelod o staff yn anfon gohebiaeth at aelod arall o'r un corff yn unig, nid oes rhaid i'r aelod o staff anfon yr ohebiaeth honno yn Gymraeg yn unol â'r safonau hyn.

4.1.45. Fodd bynnag, os caiff yr ohebiaeth honno ei hanfon at berson arall y tu allan i'r corff hefyd, rhaid i'r corff sicrhau eu bod yn anfon yr ohebiaeth honno yn Gymraeg at y person hwnnw yn unol â gofynion y safonau.

4.1.46. Hefyd, rhaid i staff anfon gohebiaeth mewnol yn Gymraeg os oes rhaid gwneud hynny'n unol â'r safonau gweithredu. Dylid cyfeirio at y safonau gweithredu ar gyfer y mathau penodol o ohebiaeth mewnol a ddaw o fewn cwmpas y safonau (e.e. safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff).

Beth yw ystyr y term '[g]ohebu am y tro cyntaf'?

4.1.47. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 27 o'r rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau 2, 3 [...] mae corff yn gohebu ag unigolyn [...] am y tro cyntaf pan fydd yn gohebu [...] am y tro cyntaf ar ôl y dyddiad y mae hysbysiad cydymffurfio wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon."

4.1.48. Mae'r term 'gohebu am y tro cyntaf' felly'n golygu'r tro cyntaf y mae corff yn gohebu ag unigolyn o'r diwrnod gosod ymlaen.

Sut gall corff wybod a yw'n gohebu am y tro cyntaf ai peidio, ac felly, pryd i ofyn ynghylch eu dymuniad i gael gohebiaeth yn Gymraeg?

4.1.49. Mae'n rhaid i gorff gynnal cofnod o ddymuniadau unigolion i gael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg yn unol â safonau 2 a 3. Gall corff wirio'r cofnod hwnnw er mwyn adnabod pa un ai yw wedi gohebu â'r unigolyn dan sylw ers y diwrnod gosod neu a yw'r corff yn gohebu â'r unigolyn am y tro cyntaf.

4.1.50. Os oes cofnod yn bodoli, a bod y cofnod hwnnw wedi'i ddiweddaru ers i ddiwrnod gosod y safon ddod i rym, mae'n debygol nad yw'r corff yn gohebu â'r unigolyn am y tro cyntaf a bod y corff eisoes wedi gohebu â'r unigolyn hwnnw ers i'r diwrnod gosod ddod i rym.

4.1.51. Os nad oes cofnod yn bodoli neu os nad yw cofnod wedi'i ddiweddaru ers i ddiwrnod gosod y safon ddod i rym, mae'n debygol nad yw'r corff wedi cysylltu â'r unigolyn hwnnw ers i'r diwrnod gosod ddod i rym, ac felly, bod rhaid gofyn ynghylch eu dymuniad i gael gohebiaeth yn Gymraeg.

Beth os yw corff yn ymwybodol o ddymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg cyn y diwrnod gosod?

4.1.52. Ni fyddai sefydlu dymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg, drwy ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd cyn y diwrnod gosod, yn cydymffurfio â gofynion safonau 2 a 3 . Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall corff ddefnyddio gwybodaeth felly er mwyn cydymffurfio â gofynion safon 5.

4.1.53. Er mwyn cydymffurfio â safonau 2 a 3, rhaid gofyn ynghylch dymuniad yr unigolyn o'r diwrnod gosod ymlaen.

4.1.54. Os oes gan gorff wybodaeth hanesyddol am ddymuniad unigolyn, rhaid i gorff ganfod neu gadarnhau dymuniad yr unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg eto o'r diwrnod gosod ymlaen.

Sut dylai corff ofyn wrth unigolion os ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg yn unol â safonau 2 a 3?

4.1.55. Gall y ffordd y mae corff yn gofyn wrth unigolion a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrth y corff amrywio yn ddibynnol ar y math o ohebiaeth dan sylw. Er enghraifft, lle mae corff yn anfon gohebiaeth y mae disgwyl i'r unigolyn ymateb iddi, gall fod yn briodol i'r corff gynnwys cwestiwn penodol o fewn corff yr ohebiaeth.

4.1.56. Mewn sefyllfa arall lle mae corff yn anfon gohebiaeth nad yw o reidrwydd yn gofyn am ymateb, gall fod yn briodol i'r corff gynnwys cwestiwn i ofyn yn benodol i'r unigolyn gysylltu i roi gwybod beth yw eu dymuniad.

Sut dylai corff gadw cofnod o ddymuniad unigolion ynghylch a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrth gorff yn Gymraeg, yn unol â safonau 2 a 3?

4.1.57. Disgwylir bod gan y corff drefniadau digonol mewn lle sy'n caniatáu iddo wybod ai dyma'r tro cyntaf y mae'n gohebu â'r unigolyn (neu unigolion) ac, os nad, a yw'r unigolyn hwnnw (neu'r unigolion hynny) yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg ai peidio.

4.1.58. Disgwylir bod y cofnod hwnnw ar gael i holl aelodau staff corff (neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran y corff) sy'n gohebu ag unigolion.

4.1.59. Gall corff gadw cofnod o ddymuniad unigolyn drwy'r dulliau canlynol:

- system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid sy'n gweithredu, ac ar gael, ar draws y corff
- math o gronfa ddata arall sy'n gweithredu, ac ar gael, ar draws y corff
- nodyn ar ffeil neu gofnod personol yr unigolyn y gellir ei drosglwyddo, neu

- gronfeydd data adrannol sy'n sicrhau bod gwybodaeth ynghylch dymuniadau unigolion yn cael ei diweddaru ac ar gael ar bob cronfa data ar draws y corff drwy gyfnewid gwybodaeth berthnasol.

4.1.60. Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth diogelu data,[29] gall unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan unigolyn (neu unigolion) ynghylch ei ddymuniad i gael gohebiaeth yn Gymraeg gael ei rhannu a'i chofnodi yn sefydliadol, er mwyn i'r corff anfon yr holl ohebiaeth at yr unigolyn (neu unigolion) yn Gymraeg o hynny ymlaen.

4.1.61. Er enghraifft, os bydd unigolyn yn cadarnhau wrth adran benodol corff ei ddymuniad i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg o hynny ymlaen, gall corff sicrhau, cyhyd â'i fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, fod unrhyw adrannau eraill y corff yn ymwybodol o ddymuniad yr unigolyn, fel y bydd modd i'r adrannau hynny anfon gohebiaeth yn Gymraeg i'r unigolyn dan sylw o hynny ymlaen.

A yw deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i gyrff gasglu, storio a defnyddio data personol am ddymuniad unigolion i gael gohebiaeth yn Gymraeg?

4.1.62. Ydy. Nid yw deddfwriaeth diogelu data yn rhwystro corff rhag gallu cydymffurfio gyda gofynion safonau 2 neu 3.

4.1.63. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am ddymuniad unigolyn i gael gohebiaeth oddi wrth gorff yn Gymraeg yn gyfystyr â 'data personol'. Yn nhermau diogelu data, byddai casglu, storio a gwneud defnydd o'r data ynghylch dymuniad unigolyn gyfystyr â 'phrosesu' data. Bydd rhaid i bob corff felly gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data pryd bynnag mae'n prosesu'r data hwnnw.

4.1.64. O dan y GDPR, bydd rhaid i gyrff sicrhau bod eu gweithgareddau prosesu yn cwrdd ag o leiaf un o chwech amod Erthygl 6(1) y GDPR ar gyfer prosesu.

4.1.65. I gorff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, mae cydymffurfiaeth â'r safonau yn ofyniad cyfreithiol. Bydd angen i'r corff felly gasglu a storio data ynghylch dymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg er mwyn cwrdd â'r gofyniad cyfreithiol. O dan y GDPR, fe ddylai pob corff allu dibynnu ar amod 'c' yn Erthygl 6(1)[30] i gasglu a storio'r data hwn.

4.1.66. Ynghyd â chael amod dilys ar gyfer prosesu, bydd rhaid i bob corff hefyd ystyried a yw prosesu'r data ynghylch dymuniad unigolyn yn deg. Bydd rhaid dweud wrth unigolion pam fod y corff yn casglu data ynghylch eu dymuniad, a sut mae'r data am gael ei ddefnyddio. Dylid cynnwys gwybodaeth yn cadarnhau a fydd y data yn cael ei rannu'n fewnol neu'n allanol, ac fe ddylai hyn ddigwydd ar adeg casglu'r data. Mae rheolau ychwanegol o dan y GDPR ynglŷn â pha wybodaeth sydd angen ei darparu i unigolion, yn ogystal â sut bydd eu data yn cael ei ddefnyddio.

[29] Mae unrhyw gyfeiriad at 'Deddfwriaeth Diogelu Data' yn y cod hwn yn golygu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ("GDPR") (EU) 2016/679] a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (Data Protection Act 2018) ac unrhyw gyfraith neu reoliad cymwys sy'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd fel y diwygir, adolygir neu newidir y deddfiad hwnnw.

[30] 'Processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject.'

4.1.67. Os yw corff yn darparu gwybodaeth ddigonol wrth gasglu'r data ynghylch dymuniad unigolyn, a dim ond yn defnyddio'r data yn unol â disgwyliadau'r unigolyn, fe ddylai casglu a storio data o'r fath gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Oes modd rhannu data ynghylch dymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg yn fewnol rhwng gwahanol adrannau?

4.1.68. Oes. Cyn belled â bod data ar ddymuniad unigolyn wedi'i gasglu'n briodol, yna mae'n bosibl ei ddefnyddio i sicrhau bod yr unigolyn yn gallu cael gohebiaeth yn y Gymraeg yn unol â'i ddymuniad.

4.1.69. Byddai dymuniad unigolyn wedi'i gasglu'n briodol os yw corff yn ei gwneud yn glir i'r unigolyn wrth ofyn am ei ddymuniad y bydd y data hwnnw yn cael ei rannu gyda gwahanol adrannau.

4.1.70. Gan dybio bod y data ynghylch dymuniad unigolyn wedi ei gasglu'n briodol, bydd hi'n bosibl i'w ddefnyddio i sicrhau bod yr unigolyn yn cael gohebiaeth yn Gymraeg yn unol â'i ddymuniad. Bydd rhaid i bob corff benderfynu a yw am ddatblygu un cofnod sefydliadol ynteu gofnodion fesul adrannau.

4.1.71. Mae rhannu data personol rhwng gwahanol adrannau yn ei hun yn fodd o brosesu, felly mae angen cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae'r safonau yn berthnasol i'r holl sefydliad, felly bydd rhai cyrff yn dewis defnyddio un dymuniad ar draws y sefydliad. Os yw'r corff yn penderfynu dilyn y trywydd yma, bydd rhaid iddo wneud hyn yn hollol glir i unigolion wrth gasglu'r data gwreiddiol.

4.1.72. Bydd angen i gyrff benderfynu ar eu ffyrdd hwy o weithredu wrth rannu data ynghylch dymuniad unigolyn rhwng adrannau. Ystyrir bod angen i gyrff ei gwneud hi mor rhwydd â phosib i unigolion roi eu dymuniad, ac i'r dewis hwnnw gael ei barchu. Mae'n debygol y bydd darparu gwybodaeth glir ar brosesu i unigolion sy'n egluro sut y bydd eu data'n cael ei ddefnyddio yn elfen allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a'r ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r holl ddata ynghylch dymuniad unigolyn yn seiliedig yn y pen draw ar ddewis a wneir gan yr unigolyn. Os yw corff yn rhannu cofnod o ddymuniad yr unigolyn rhwng adrannau gwahanol, bydd rhaid i'r adrannau unigol hynny sicrhau eu bod yn defnyddio'r data hwnnw at y diben y cafodd ei gasglu'n y lle cyntaf, yn hytrach nag at unrhyw ddiben newydd na fyddai'r unigolyn yn ei ddisgwyl.

Beth os yw dymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg yn amrywio mewn gwahanol sefyllfaoedd?

4.1.73. Mae'n bosibl y gall dymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg amrywio mewn sefyllfaoedd gwahanol. Gall dymuniad unigolyn fod yn ddibynnol ar ba wasanaeth neu adran o'r corff sy'n anfon yr ohebiaeth neu bwnc yr ohebiaeth.

4.1.74. Er enghraifft, gall unigolyn ddymuno derbyn ymatebion cyffredinol gan awdurdod lleol yn Gymraeg ond peidio â chael gohebiaeth yn Gymraeg mewn perthynas â chais cynllunio. Gallai unigolyn ddymuno derbyn e-byst yn Gymraeg ond peidio â

derbyn llythyrau safonol yn Gymraeg. Mae'n bosibl nad yw dymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn Gymraeg bob amser yn gyson ym mhob sefyllfa.

4.1.75. Y gofyniad yn unol â safonau 2 a 3 yw i gorff ofyn i unigolyn a yw'n dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r safonau yn rhwystro corff rhag gofyn cwestiwn ynghylch pa gyd-destunau y byddai'n dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg. Byddai corff yn cydymffurfio â gofynion y safonau drwy ddarparu gohebiaeth yn Gymraeg i unigolyn (neu unigolion) mewn rhai cyd-destunau yn unig os ydynt wedi nodi dymuniad o'r fath.

Oes rhaid sicrhau bod corff yn defnyddio fersiynau Cymraeg o gyfeiriadau post wrth anfon fersiynau Cymraeg o ohebiaeth?

4.1.76. Disgwylir bod corff yn cynnwys fersiynau Cymraeg o gyfeiriadau post wrth anfon fersiynau Cymraeg o ohebiaeth (os oes fersiwn Gymraeg o gyfeiriad post sy'n wahanol i fersiwn Saesneg e.e. Caerdydd/Cardiff). Gall hyn gynnwys defnyddio'r fersiwn Gymraeg o gyfeiriad post ar amlen neu ar frig fersiwn Gymraeg o lythyr.

4.1.77. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Gall y Comisiynydd gynghori cyrff ar ffurfiau safonol enwau aneddiadau (sef pentrefi, trefi a dinasoedd) yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi'r argymhellion hyn mewn cronfa ddata ar-lein a gellir llwytho'r rhestrau i lawr o dan drwydded agored: Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.[31]

4.1.78. Mae'r Comisiynydd yn dilyn canllawiau safoni penodol wrth lunio'i argymhellion: Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru[32]. Mae'r canllawiau hyn yn benodol ar gyfer enwau aneddiadau. Nid ydynt o reidrwydd yn berthnasol i enwau tai na nodweddion tirweddol eraill. Fodd bynnag, ceir ynddynt lawer o egwyddorion gwerthfawr y gellid eu cymhwyso wrth drin yr enwau hyn.

4.1.79. Cyn belled â bod dim deddfiad arall yn golygu bod rhaid defnyddio ffurf arall ar enw Cymraeg, gall corff ddefnyddio'r gwasanaeth ymgynghorol hwn er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio ffurfiau Cymraeg safonol o enwau lleoedd wrth gynnwys yr enwau hynny ar fersiynau Cymraeg o ohebiaeth.

4.2 Galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff [safonau 8-22]

Beth yw'r gofynion?

4.2.1. Mae'r safonau hyn yn ymdrin â:

- galwadau ffôn i brif rif ffôn y corff ac i unrhyw linellau cymorth neu ganolfannau galwadau (safon 8—safon 17)
- galwadau ffôn i adrannau, ac i aelodau o staff corff (safon 18—safon 20)
- galwadau ffôn a wneir gan gorff (safon 21), a

[31] Gweler Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar wefan y Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Chwilio.aspx

[32] Gweler Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru ar wefan y Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Cyd_destun.aspx

- chorff yn delio â galwadau ffôn drwy system wedi ei hawtomeiddio (safon 22).

Safon 8

4.2.2. Rhaid i gorff gyfarch person yn Gymraeg pan fo'r person hwnnw'n cysylltu â'r corff ar un o'i rifau ffôn perthnasol[33].

4.2.3. Gall y term 'cyfarch' gynnwys ymadroddion sy'n cydnabod ac yn croesawu'r person sy'n cysylltu, cyn i'r corff ddechrau delio gyda'r alwad. Er enghraifft, gall corff gyfarch person drwy ddweud 'Bore Da/Prynhawn Da/Noswaith Dda', gan ddilyn hynny gyda fersiwn Gymraeg o enw'r corff (os oes un yn bodoli). Nid yw'r term 'cyfarch' yn cynnwys delio â'r alwad ei hun.

4.2.4. Gall corff gyfarch personau yn Gymraeg drwy neges sydd wedi'i recordio o flaen llaw ar system sydd wedi'i hawtomeiddio neu drwy aelod o staff yn cyfarch y person hwnnw yn Gymraeg pan fo'r aelod hwnnw'n ateb yr alwad.

4.2.5. Mae gofynion y safon hon yn berthnasol i'r cyfarchiad cyntaf yn unig. Bydd gweddill iaith yr alwad yn ddibynnol ar ddymuniad y person yn unol â safon 10 neu safon 11 (yn ddibynnol ar ba safon sydd wedi ei gosod ar y corff).

4.2.6. Gofynion safon 20 sy'n berthnasol i gyfarchion a wneir i berson sy'n cysylltu ar rif ffôn llinell uniongyrchol adran corff neu rif ffôn llinell uniongyrchol aelod staff corff.

Safon 9

4.2.7. Os yw person yn cysylltu â'r corff ar un o'u rhifau ffôn perthnasol, rhaid i'r corff roi gwybod i'r person hwnnw bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael.

4.2.8. Disgwylir i gorff fod yn rhagweithiol wrth roi gwybod i bersonau am y gwasanaeth ffôn Cymraeg. Disgwylir i hyn ddigwydd ar y cyfle cyntaf posibl.

4.2.9. Nid yw cyfarch person yn Gymraeg ar ei ben ei hun yn gyfystyr â rhoi gwybod bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael. Disgwylir i gorff gymryd camau pellach na hynny er mwyn ei gwneud yn glir i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

4.2.10. Gall enghraifft o gorff yn 'rhoi gwybod' bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael gynnwys:

- rhoi dewis i bersonau gael gwasanaeth ffôn Cymraeg (neu wasanaeth Saesneg) drwy bwyso rhif penodol ar y ffôn
- sicrhau bod aelodau staff sy'n ateb yr alwad yn rhoi gwybod i'r person yn rhagweithiol wrth sgwrsio â'r person hwnnw, a
- sicrhau bod y corff yn rhoi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael (neu y bydd yn parhau ar gael) wrth i aelod o staff drosglwyddo'r alwad i aelod o staff arall sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg.

4.2.11. Yn ddibynnol ar natur y corff a'r defnydd o'r iaith gan y corff, gall corff gydymffurfio â safon 9 drwy ddechrau sgwrs yn Gymraeg yn gyntaf er mwyn amlygu yn naturiol bod gwasanaeth Cymraeg ar gael dros y ffôn, heb fod angen datgan hynny yn benodol i'r person. Er enghraifft, ni fyddai disgwyl i gorff nodi bod gwasanaeth

[33] Oni nodir fel arall, mae cyfeiriad at 'rifau ffôn perthnasol', yng nghyswllt safonau 8–17, yn golygu prif rif ffôn y corff (neu un o'u prif rifau ffôn), neu unrhyw un o'u rhifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau

Cymraeg ar gael os yw'r alwad eisoes yn cael ei chynnal yn Gymraeg a bod yr alwad yn cael ei throsglwyddo'n naturiol i rywun sy'n gallu delio (ac yn cychwyn delio) â'r alwad yn Gymraeg fel mater o drefn arferol.

4.2.12. Nid yw'r safon yn nodi bod rhaid i gorff roi gwybod i'r person *yn Gymraeg*. Fodd bynnag, disgwylir i gorff ystyried ei gwneud yn Gymraeg os ydynt yn gallu gwneud hynny a bod y person yn debygol o ddymuno cael gwybod yn Gymraeg.

Safon 10

4.2.13. Wrth i berson gysylltu â chorff ar un o'u rhifau ffôn perthnasol, rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny. Os oes angen trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff er mwyn delio â'r alwad, rhaid i'r aelod o staff hwnnw ddelio â'r alwad yn Gymraeg.

4.2.14. Rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd unwaith y mae'n ymwybodol bod y person yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn.[34]

4.2.15. Byddai person yn debygol o ddymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn os yw'n dechrau sgwrs gyda'r corff yn Gymraeg yn gyntaf. Os yw person yn dechrau sgwrsio'n gyntaf yn Saesneg, ni ddylai corff gymryd hynny i olygu nad yw'r person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth ffôn yn Gymraeg.

4.2.16. Os nad yw dymuniad y person i gael gwasanaeth Cymraeg eisoes yn glir (e.e. os nad yw'n dechrau'r sgwrs yn Gymraeg neu os nad yw'n gofyn am wasanaeth Cymraeg cyn i'r corff wneud hynny), disgwylir i gorff sefydlu'r dymuniad hwnnw'n fwy rhagweithiol, drwy ofyn yn benodol ynghylch dymuniad y person. Disgwylir i gorff sefydlu dymuniad y person i dderbyn gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn ar y cyfle cyntaf posibl.

Safon 11

4.2.17. Os yw person yn cysylltu â'r corff ar un o'u rhifau ffôn perthnasol, rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg unwaith y mae'n gwybod bod y person yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn, gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r pwnc penodol yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol[34].

4.2.18. Byddai person yn debygol o ddymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn os yw'n dechrau sgwrs gyda'r corff yn Gymraeg yn gyntaf. Os yw person yn dechrau sgwrsio'n gyntaf yn Saesneg, rhaid i gorff beidio â chymryd hynny i olygu nad yw'r person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth ffôn yn Gymraeg.

4.2.19. Os nad yw dymuniad y person i gael gwasanaeth Cymraeg eisoes yn glir (e.e. os nad yw'n dechrau'r sgwrs yn Gymraeg neu os nad yw'n gofyn am wasanaeth Cymraeg cyn i'r corff wneud hynny), disgwylir i gorff sefydlu'r dymuniad hwnnw'n fwy rhagweithiol, drwy ofyn yn benodol ynghylch dymuniad y person. Disgwylir i gorff sefydlu dymuniad y person i dderbyn gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn ar y cyfle cyntaf posibl.

[34] Fodd bynnag, dylid nodi bod rhaid i gorff gyfarch personau yn Gymraeg dros y ffôn yn unol â safon 8 cyn sefydlu a yw'r person yn dymuno delio â'r alwad yn Gymraeg.

4.2.20. Yn wahanol i safon 10, os nad oes aelod o staff ar gael sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg ar y pwnc penodol dan sylw, gall corff drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg, ond sy'n gallu darparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

4.2.21. Dylid pwysleisio bod rhaid i gorff sicrhau nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu'r gwasanaeth ar y pwnc penodol yn Gymraeg, cyn trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg. Er mwyn hwyluso hyn, gall corff ddewis cael cofnod o aelodau staff sy'n gallu delio â galwadau yn Gymraeg (e.e. cyfeiriadur staff fesul adran, gwasanaeth neu bwnc penodol).

4.2.22. Nid yw'r ymadrodd 'pwnc penodol' yn cynnwys cyswllt neu ymholiad cyffredinol. Disgwylir bod corff yn darparu gwasanaeth Cymraeg wrth ymdrin ag ymholiadau cyffredinol, hyd at bwynt lle mae angen i gorff drosglwyddo galwad i aelod di-Gymraeg sy'n gallu delio â phwnc sydd angen lefel o arbenigedd neu wybodaeth benodol er mwyn gallu delio ag ef. Gall enghraifft o'r fath gynnwys cais cynllunio penodol neu achos gwasanaethau cymdeithasol penodol lle mai'r aelod o staff di-Gymraeg hwnnw'n unig sydd â'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i ddelio â'r alwad.

Safon 12

4.2.23. Rhaid i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu ei rifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau.

4.2.24. Mae'r term 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' yng nghyswllt y safon hon yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- golwg yr hysbyseb (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
- maint yr hysbyseb
- lleoliad ac amlygrwydd yr hysbyseb mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff yr hysbyseb ei chyhoeddi, ei darparu neu ei harddangos
- fformat cyhoeddi unrhyw hysbyseb
- iaith yr hysbyseb
- trefn iaith yr hysbyseb
- safon ac ansawdd yr hysbyseb
- eglurder a chywirdeb yr hysbyseb (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys yr hysbyseb (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

4.2.25. Gall hyn olygu bod corff yn sicrhau, ymysg materion eraill, bod unrhyw hysbyseb sy'n hysbysebu'r rhifau hynny yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg.

4.2.26. Os nad yw rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol (er enghraifft, os nad yw safon 13 wedi'i gosod), gall y term olygu, wrth hysbysebu'r rhifau hynny, peidio â thrin rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg yn llai ffafriol na rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. Er enghraifft, gall hyn gynnwys sicrhau bod rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg o leiaf yr un mor

amlwg i bersonau â'r rhif ffôn Saesneg cyfatebol. Gall hyn gynnwys sicrhau bod rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei hysbysebu ar fersiynau Saesneg o ddeunydd yn ogystal â'r fersiynau Cymraeg cyfatebol (e.e. hysbysebu'r rhif ffôn ar fersiynau Saesneg a Chymraeg o dudalen gwefan).

Safon 13

4.2.27. Os yw corff yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar un o'i rifau ffôn perthnasol, rhaid iddo sicrhau bod rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg hwnnw yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. Mae hyn yn golygu na chaniateir rhif ffôn ar wahân ar gyfer cynnig gwasanaeth Cymraeg (sy'n cyfateb i wasanaeth Saesneg) dros y ffôn.

Safon 14

4.2.28. Os yw corff yn cyhoeddi eu rhifau ffôn perthnasol, rhaid iddo nodi (yn Gymraeg) ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.

4.2.29. Rhaid i'r testun ymddangos ar unrhyw ddeunydd sy'n cyhoeddi'r rhifau ffôn dan sylw. Gallai deunydd o'r fath gynnwys:

- gwefannau
- cyhoeddiadau
- ffurflenni
- deunydd arddangos
- deunydd cyhoeddusrwydd
- deunydd hysbysebu, ac
- arwyddion.

4.2.30. Nid oes rhaid i gorff gynnwys datganiad sydd air am air â geiriad y safon er mwyn amlygu bod y corff yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, disgwylir i'r datganiad hwnnw fod yn ddigon clir ac eglur fel y byddai personau yn llwyr ymwybodol o ymrwymiad ac ymroddiad y corff i groesawu galwadau yn Gymraeg.

4.2.31. Gall corff arddangos logo Iaith Gwaith y Comisiynydd fel rhan o ddatganiad i gyfleu bod y corff yn croesawu galwadau yn Gymraeg.

4.2.32. Mae'r datganiad canlynol yn enghraifft o'r hyn y gall corff ei ddefnyddio at ddibenion y safon:

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg.

We welcome calls in Welsh.

Safon 15

4.2.33. Rhaid i gorff sicrhau nad yw dangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn yn gosod mesuriadau a fyddai'n trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.

4.2.34. Gall corff sicrhau nad yw'n gwneud hynny drwy osod mesuriadau ar gyfer galwadau Cymraeg er mwyn iddynt fod o leiaf yr un safon â'r gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

4.2.35. Gall 'dangosyddion perfformiad' gynnwys dangosyddion sy'n ymwneud â'r isod:

- **Datrysiad galwad cyntaf**—% y galwadau sy'n cael eu datrys heb orfod trosglwyddo'r alwad
- **Canran y galwadau wedi'u gwahardd**—% y galwyr sydd wedi deialu a chlywed y tôn prysur
- **Amser cyfartalog mewn ciw**—Amser cyfartalog y mae'n rhaid i alwr aros mewn ciw cyn i rywun ymateb
- **Lefel gwasanaeth**—% y galwadau a atebir o fewn amser penodol
- **Galwadau a ymadawir**—% y galwyr sy'n terfynu'r alwad cyn i rywun ateb y ffôn, a
- **Hyd galwad**—Amser cyfartalog y mae galwr ar y ffôn, gan gynnwys yr amser y maent yn gorfod aros ar y llinell.

4.2.36. Er enghraifft, disgwylir i gorff beidio â gosod dangosyddion perfformiad a fyddai'n caniatáu i berson orfod aros yn hirach ar y ffôn wrth geisio gwasanaeth Cymraeg o'i gymharu â'r amser y caniateir i berson aros wrth geisio gwasanaeth cyfatebol Saesneg.

Safon 16

4.2.37. Rhaid i'r prif wasanaeth(au) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw bod modd gadael neges yn Gymraeg a rhaid i'r neges honno fod yn Gymraeg. Gall 'prif wasanaeth ateb galwadau ffôn' gynnwys peiriannau ateb galwadau ffôn.

4.2.38. Er mwyn amlygu bod modd gadael neges yn Gymraeg, disgwylir i unrhyw ddatganiad fod yn ddigon clir ac eglur fel y byddai personau yn llwyr ymwybodol bod modd gadael neges yn Gymraeg ar brif wasanaeth(au) ateb galwadau ffôn y corff. Er enghraifft, gellid nodi "Mae croeso i chi adael neges yn Gymraeg ar ôl y tôn."

Safon 17

4.2.39. Pan nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar un o rifau ffôn perthnasol y corff, rhaid iddo roi gwybod i'r person sy'n galw pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gall sefyllfa lle nad yw gwasanaeth Cymraeg ar gael gynnwys:

- pan fo'r swyddfa ar gau ac felly nad oes gwasanaeth ffôn ar gael o gwbl, neu
- pan nad oes aelod staff Cymraeg ar gael i ddelio â'r alwad (yn ôl gofynion safon 11).

4.2.40. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, rhaid i gorff roi gwybod pryd y bydd y gwasanaeth Cymraeg ar gael. Er enghraifft, gall corff wneud hynny drwy egluro beth yw amseroedd agor craidd y swyddfa neu egluro ar ba amseroedd neu ddiwrnodau y bydd y gwasanaeth Cymraeg ar gael nesaf.

4.2.41. Gall 'rhoi gwybod' gynnwys gwneud hynny drwy:

- gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio, neu
- aelod o staff yn rhoi gwybod i'r galwr ar lafar dros y ffôn.

4.2.42. Mae pa mor berthnasol yw'r safon hon yn amrywio o achos i achos yn ddibynnol ar argaeledd gwasanaeth ffôn Cymraeg (e.e. yn unol â safonau 10 neu 11) a natur y gwasanaethau ffôn sy'n cael eu cynnig gan gorff.

4.2.43. Mewn sefyllfa pan nad oes rhaid i gorff ddarparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 11 (h.y. pan nad oes aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol yn Gymraeg), rhaid i gorff roi gwybod pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

4.2.44. Os oes aelod o staff Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol yn Gymraeg ond nad ydynt yn digwydd bod ar gael ar adeg yr alwad (e.e. ddim yn gweithio ar y diwrnod hwnnw neu bod yr aelod yn delio â galwad arall), rhaid iddo roi gwybod pryd bydd yr aelod hwnnw (neu aelod arall a all ddelio â'r alwad yn Gymraeg) ar gael nesaf. Disgwylir iddo wneud hynny *cyn* trosglwyddo galwad i aelod o staff nad yw'n gallu siarad Cymraeg. Drwy wneud hynny, gall corff roi'r dewis i'r galwr a yw'n dymuno cael ei drosglwyddo i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg neu ddisgwyl am yr aelod nesaf o staff sy'n medru'r Gymraeg sydd ar gael.

Safon 18

4.2.45. Mae gofynion safon 18 yn cyfateb i ofynion safon 10, ond ei bod yn berthnasol i rifau ffôn llinell uniongyrchol adrannau ac aelodau staff, yn hytrach na phrif rifau ffôn, rhifau llinell gymorth a rhifau canolfan alwadau.

Safon 19

4.2.46. Mae gofynion safon 19 yn cyfateb i ofynion safon 11, ond ei bod yn berthnasol i rifau ffôn llinell uniongyrchol adrannau ac aelodau staff, yn hytrach na phrif rifau ffôn, rhifau llinell gymorth a rhifau canolfan alwadau.

Safon 20

4.2.47. Os yw person yn cysylltu â chorff ar rif llinell uniongyrchol (boed yn rhif llinell uniongyrchol adran neu'n rhif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid i'r corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person hwnnw.

4.2.48. Mae'r term 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- pryd a sut y caiff y cyfarchiad ei wneud
- iaith y cyfarchiad
- trefn iaith y cyfarchiad
- safon ac ansawdd y cyfarchiad
- eglurder a chywirdeb y cyfarchiad (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw gyfarchiad), a
- chynnwys y cyfarchiad (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

4.2.49. Gall hyn olygu bod corff, ymysg materion eraill, yn cyfarch personau ar y rhifau ffôn perthnasol yn Gymraeg os yw'n cyfarch person yn Saesneg hefyd.

4.2.50. Os oes rhaid i gorff gydymffurfio â safonau 8 ac 20 gyda'i gilydd, bydd rhaid i holl aelodau staff corff gyfarch personau yn Gymraeg ar unrhyw rif ffôn y corff ac ym mhob achlysur.

Safon 21

4.2.51. Pan fydd corff yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf, rhaid iddo ofyn wrth yr unigolyn a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrtho yn Gymraeg. Os mai dyna yw dymuniad yr unigolyn, rhaid iddo gynnal galwadau ffôn gyda'r unigolyn hwnnw o hynny ymlaen yn Gymraeg.

4.2.52. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 27 o'r rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau [...] 21, mae corff yn [...] ffonio unigolyn am y tro cyntaf pan fydd yn [...] ffonio'r person am y tro cyntaf ar ôl y dyddiad y mae hysbysiad cydymffurfio wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon."

4.2.53. Mae'r term 'ffonio unigolyn am y tro cyntaf' felly'n golygu'r tro cyntaf y mae corff yn ffonio unigolyn o'r diwrnod gosod ymlaen. Mae hyn yn golygu bod rhaid sefydlu dymuniad yr unigolyn i gael galwadau ffôn oddi wrth y corff yn Gymraeg ar ôl y diwrnod gosod.

Safon 22

4.2.54. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd ganddo yn darparu'r gwasanaeth awtomataidd cyfan yn Gymraeg.

4.2.55. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 28 o'r rheoliadau yn nodi:

> "Yn safon 22, ystyr system ffôn "wedi ei hawtomeiddio" yw system sy'n ateb galwadau ffôn ac yn arwain personau drwy drefn benodedig gyda neges wedi ei recordio sy'n gofyn, er enghraifft, i berson bwyso rhifau gwahanol er mwyn dewis opsiynau gwahanol."

4.2.56. Gall enghreifftiau eraill gynnwys systemau sy'n gofyn i'r galwr ddewis opsiynau drwy siarad.

Beth os yw corff yn ymwybodol o ddymuniad unigolyn cyn y diwrnod gosod?

4.2.57. Ni ellir defnyddio gwybodaeth a gasglwyd cyn y diwrnod gosod at ddibenion y safon hon.

4.2.58. Mae safon 21 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn wrth unigolyn a ydynt yn dymuno cael galwadau ffôn oddi wrtho yn Gymraeg, o'r diwrnod gosod ymlaen. Mewn sefyllfaoedd pan fo gan gorff wybodaeth hanesyddol am ddymuniad unigolyn, rhaid canfod dymuniad yr unigolyn i gael galwadau ffôn yn Gymraeg o'r newydd.

Oes rhaid cynnal yr alwad gyntaf a wneir i unigolyn yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 21?

4.2.59. Nac oes. Nid oes rhaid i gorff gynnal yr alwad gyntaf a wneir i unigolyn yn Gymraeg. Y gofyniad yw cynnal galwadau ffôn yn Gymraeg ym mhob galwad ffôn y mae corff yn ei gwneud i'r unigolyn ar ôl i'r unigolyn nodi ei fod yn dymuno cael galwadau ffôn oddi wrth y corff yn Gymraeg.

Sut dylai corff gadw cofnod o ddymuniad unigolyn ynghylch a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrth y corff yn Gymraeg, yn unol â safon 21?

4.2.60. Disgwylir bod gan y corff drefniadau digonol mewn lle sy'n caniatáu iddo wybod ai dyma'r tro cyntaf y mae'n ffonio'r unigolyn ac, os nad, a yw'r unigolyn hwnnw yn dymuno cael galwadau ffôn yn Gymraeg ai peidio.

4.2.61. Disgwylir bod y corff yn gallu defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn gweithredu ar y safon. Er enghraifft, drwy ofyn wrthynt am eu dymuniad (os mai dyma'r tro cyntaf iddo ffonio'r unigolyn) neu drwy gynnal yr alwad ffôn yn unol â'r dymuniad hwnnw (os oes cyswllt blaenorol wedi bod a bod y dymuniad eisoes wedi'i sefydlu).

4.2.62. Disgwylir bod y cofnod hwnnw ar gael i holl aelodau staff corff (neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran y corff) sy'n ffonio unigolion, fel bod modd iddynt ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

4.2.63. Gall corff gadw cofnod o ddymuniad unigolyn drwy'r dulliau canlynol:

- system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid sy'n gweithredu, ac ar gael, ar draws y corff
- math o gronfa ddata arall sy'n gweithredu, ac ar gael, ar draws y corff
- nodyn ar ffeil neu gofnod personol yr unigolyn y gellir ei drosglwyddo, neu
- gronfeydd data adrannol sy'n sicrhau bod gwybodaeth ynghylch dymuniadau unigolion yn cael ei diweddaru ac ar gael ar bob un cronfa ddata ar draws y corff drwy gyfnewid gwybodaeth berthnasol.

4.2.64. Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth diogelu data, gall unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan unigolyn ynghylch eu dymuniad i gael galwadau ffôn yn Gymraeg gael ei rhannu a'i chofnodi yn sefydliadol, er mwyn i'r corff wneud yr holl alwadau yn Gymraeg o hynny ymlaen ar bob achlysur.

4.2.65. Er enghraifft, os bydd unigolyn yn cadarnhau wrth adran benodol corff ei ddymuniad i dderbyn galwadau ffôn yn Gymraeg o hynny ymlaen, gall corff sicrhau, cyhyd â'i fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, fod unrhyw adrannau eraill y corff yn ymwybodol o ddymuniad yr unigolyn, fel y bydd modd i'r adrannau hynny wneud y galwadau ffôn yn Gymraeg i'r unigolyn dan sylw o hynny ymlaen.

A yw deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i gyrff gasglu, storio a defnyddio data personol am ddymuniad iaith unigolion i dderbyn galwadau ffôn yn Gymraeg?

4.2.66. Ydy. Nid yw cyfraith diogelu data yn rhwystro corff rhag gallu cydymffurfio gyda gofynion safon 21.

4.2.67. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am ddymuniad unigolyn i gael galwadau ffôn oddi wrth gorff yn Gymraeg yn gyfystyr â 'data personol'. Yn nhermau diogelu data, byddai casglu, storio a gwneud defnydd o'r data ynghylch dymuniad unigolyn gyfystyr â 'phrosesu' data. Bydd rhaid i bob corff felly gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data pryd bynnag mae'n prosesu'r data hwnnw.

4.2.68. O dan y GDPR, bydd rhaid i gyrff sicrhau bod eu gweithgareddau prosesu yn cwrdd ag o leiaf un o chwech amod Erthygl 6(1) y GDPR ar gyfer prosesu.

4.2.69. I gorff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, mae cydymffurfiaeth â'r safonau yn ofyniad cyfreithiol. Bydd angen i'r corff felly gasglu a storio data ynghylch dymuniad unigolyn i gael galwadau ffôn yn Gymraeg er mwyn cwrdd â'r gofyniad cyfreithiol. O dan y GDPR, fe ddylai pob corff allu dibynnu ar amod c' yn Erthygl 6(1)[35] i gasglu a storio'r data hwn.

4.2.70. Ynghyd â chael amod dilys ar gyfer prosesu, bydd rhaid i bob corff hefyd ystyried os yw prosesu'r data ynghylch dymuniad unigolyn yn deg. Bydd rhaid dweud wrth unigolion pam fod y corff yn casglu data ynghylch eu dymuniad, a sut mae'r data am gael ei ddefnyddio. Dylid cynnwys gwybodaeth yn cadarnhau a fydd y data yn cael ei rannu'n fewnol neu'n allanol, ac fe ddylai hyn ddigwydd ar adeg casglu'r data. Mae rheolau ychwanegol o dan y GDPR ynglŷn â pha wybodaeth sydd angen ei darparu i unigolion, yn ogystal â sut bydd eu data yn cael ei ddefnyddio.

4.2.71. Os yw corff yn darparu gwybodaeth ddigonol wrth gasglu'r data ynghylch dymuniad unigolyn, a dim ond yn defnyddio'r data yn unol â disgwyliadau'r unigolyn, fe ddylai casglu a storio data o'r fath gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

4.3 Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [safonau 23-29B]

Beth yw'r gofynion?

4.3.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chyfarfodydd y mae corff yn eu cynnal nad ydynt yn rhai sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, sef:

- cyfarfodydd rhwng corff ac un person gwahoddedig arall (23-26B), a
- chyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un person gwahoddedig (27-29B).

Safonau 23-24B a 27-27D

4.3.2. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn i berson(au) yn rhagweithiol ynghylch eu dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac, os yw'r person(au) yn dymuno hynny, rhaid iddo hysbysu'r person(au) y bydd yn darparu'n unol â'r dymuniad hwnnw. Disgwylir i gorff ganiatáu amser digonol ar ôl

[35] 'Processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject.'

gofyn am ddymuniad person er mwyn gallu gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer y cyfarfod ei hun.

4.3.3. Os mai dymuniad y person(au) yw defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i gorff fynd ati wedyn i un ai:

- cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu (safonau 23 a 27CH), neu
- alluogi person(au) ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu yn y cyfarfod, os nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu (safonau 24A, 24B, 27A, 27B, 27C, 27D).

4.3.4. At ddibenion safonau 23–24B, mewn sefyllfa pan fo'r corff yn cynnal cyfarfod gyda mwy nag un cynrychiolydd o'r un sefydliad, dylid eu hystyried yn bersonau unigol yn hytrach na fel un person. Dylid felly cyfeirio at safonau 27–29B ar gyfer sefyllfa fel hyn.

4.3.5. Mewn perthynas â safonau 27A–27C, bydd rhaid i gorff ystyried a gweithio allan y ganran o'r gwahoddedigion sydd wedi rhoi gwybod i'r corff eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os yw'r ganran yn cyrraedd y trothwy yn y safon, rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn y cyfarfod.

4.3.6. Ni ddylai'r corff ystyried na chynnwys dymuniadau staff y corff ei hun wrth gyfrifo'r canrannau hynny. Y gofyniad yw i gyfrifo ac ymateb i ganran dymuniadau'r gwahoddedigion allanol yn unig.

4.3.7. Mewn perthynas â safonau 27CH–27D, os yw pawb a gafodd wahoddiad wedi rhoi gwybod i'r corff eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid iddo ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn y cyfarfod hwnnw.

Safonau 25-26B a 28-29B

4.3.8. Mae safonau 25–26B a safonau 28–29B yn gofyn bod corff yn cynnal cyfarfod yn Gymraeg (neu'n darparu gwasanaeth cyfieithu) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â 'llesiant' un neu ragor o unigolion.

4.3.9. Gyda safonau 25–26B a safonau 28–29B, mae gofyniad ychwanegol i gorff ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ogystal â gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfod, os oes angen. Gall hynny olygu bod angen mwy nag un cyfieithydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Pa gyfarfodydd sy'n gymwys i'r safonau hyn?

4.3.10. Mae'r safonau hyn yn gymwys i gyfarfodydd:

- nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac
- sydd yn cael eu cynnal gan y corff.

4.3.11. Nid yw'r safonau hyn yn gymwys os yw'r cyfarfod:

- yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu
- os nad yw'r corff yn gyfrifol am gynnal y cyfarfod.

4.3.12. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chyfarfodydd gyda pherson(au) 'gwahoddedig' yn unig. Mae hyn yn golygu bod y safonau hyn yn berthnasol i'r graddau bod y cyfarfod yn un lle mai'r corff sydd wedi gwahodd person(au) penodol iddo ac ond ar agor i'r person neu'r personau penodol hynny. Dylid cyfeirio at safonau 30–34 am ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol.

4.3.13. Nid yw'r safonau hyn yn gyfyngedig i gyfarfodydd a gynhelir yn adeiladau'r corff yn unig. Er enghraifft, os yw corff wedi gwahodd person i gyfarfod a bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yng nghartref y person hwnnw, byddai'r safon yn parhau i fod yn berthnasol.

A yw'r safonau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd mewnol sydd ond yn cael eu cynnal rhwng staff y corff?

4.3.14. Nac ydyn. Os yw cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng staff y corff yn unig, ni fyddai'r safonau hyn yn berthnasol i'r cyfarfod hwnnw.

4.3.15. Fodd bynnag, os yw corff wedi gwahodd 'person' arall i'r cyfarfod hefyd (e.e. staff sefydliad arall), byddai'r safonau hyn yn berthnasol i'r cyfarfod hwnnw fel arfer.

4.3.16. Mae'r safonau gweithredu yn cyfeirio fathau penodol o gyfarfodydd mewnol sydd angen eu cynnal yn Gymraeg.

Beth yw ystyr cyfarfodydd sy'n 'ymwneud â llesiant unigolyn'?

4.3.17. Ceir dehongliad cyfreithiol o '[l]lesiant' yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol 2014[36].

4.3.18. Mae adran 2 o'r Ddeddf honno yn dehongli'r term 'llesiant' mewn perthynas â rhestr o ganlyniadau ar gyfer unigolion. Mae'r dehongliad yn nodi:

[36] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_mi.pdf

"(2) Ystyr "llesiant", o ran person, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol—

(a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;

(b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;

(c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;

(d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;

(e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;

(f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;

(g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;

(h) addasrwydd llety preswyl.

(3) O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

(a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;

(b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989..

(4) O ran oedolyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

(a) rheolaeth ar fywyd pob dydd;

(b) cymryd rhan mewn gwaith."

4.3.19. O ganlyniad, gall cyfarfod sy'n ymwneud â llesiant unigolyn (neu unigolion) gynnwys cyfarfod sy'n ymwneud ag un neu ragor o'r meysydd uchod. Yn gyffredinol, er mwyn i gyfarfod gael ei ystyried fel un sy'n 'ymwneud â llesiant' unigolyn, rhaid i bwnc y cyfarfod, sef yr hyn a drafodir yn y cyfarfod, fod yn gysylltiedig â llesiant yr unigolyn (neu unigolion) dan sylw a wahoddwyd i'r cyfarfod.

4.3.20. Gall enghraifft o'r fath gynnwys unigolyn yn cael ei wahodd i gyfarfod gyda chorff i asesu y graddau y mae'r unigolyn angen derbyn gofal yn y cartref.

4.4 Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [safonau 30-34]

Beth yw'r gofynion?

4.4.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chyfarfodydd y mae corff yn eu trefnu sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Safon 30

4.4.2. Os yw corff yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i'r corff ddatgan bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Rhaid i gorff ddatgan hynny ar unrhyw wahoddiad i'r cyfarfod ac unrhyw ddeunydd sy'n

hysbysebu'r cyfarfod. Gall hynny gynnwys hysbysiadau, ffurflenni, dogfennau, gohebiaeth neu unrhyw ddeunydd arall sy'n hysbysebu'r cyfarfod.

4.4.3. Yn ogystal â datgan bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, gall y datganiad gynnwys manylion o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y cyfarfod i ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. gwasanaeth cyfieithu neu fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

4.4.4. Mae'r gofyniad yn berthnasol i **bob** cyfarfod a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd. Disgwylir i gorff hysbysu personau yn rhagweithiol fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, er mwyn ennyn hyder personau i ddefnyddio'r iaith.

Safon 31

4.4.5. Os yw corff yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid iddo anfon y gwahoddiadau yn Gymraeg.

4.4.6. Mae'r term 'gwahoddiadau' yng nghyswllt y safon hon yn cynnwys unrhyw wahoddiadau sy'n cael eu hanfon:

- sy'n gwahodd y cyhoedd i'r cyfarfod, neu
- sy'n gwahodd person(au) i siarad mewn cyfarfod.

4.4.7. Gall 'gwahoddiadau' gynnwys y rhai hynny a anfonir yn ysgrifenedig (boed ar bapur, yn electronig neu ar unrhyw ffurf arall).

Safon 32

4.4.8. Pan fo personau wedi eu gwahodd i siarad mewn cyfarfod, rhaid i'r corff ofyn i'r personau hynny a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

4.4.9. Os yw un neu ragor o'r personau yn hysbysu'r corff eu bod yn dymuno gwneud hynny, rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad yw'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

4.4.10. Os yw cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu, megis cyfarfod lle mae corff yn gwybod bod yr holl fynychwyr yn deall y Gymraeg, nid oes rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

4.4.11. Mae'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn unol â'r safon hon ar wahân i'r gofyniad i wneud hynny'n unol â safon 33.

4.4.12. Golyga hynny felly nad yw'r safon hon yn ymwneud â dymuniadau personau sydd wedi'u gwahodd yn gyffredinol i'r cyfarfod. Yn hytrach, mae'n ymwneud â dymuniad personau sy'n cael eu gwahodd i siarad yn y cyfarfod yn unig. Gall y math o bersonau hynny gynnwys:

- siaradwyr gwadd o sefydliadau allanol
- cynrychiolwyr o sefydliadau allanol
- personau sy'n gwneud cyflwyniad yn ystod y cyfarfod i'r gynulleidfa, neu
- aelodau'r cyhoedd y caniateir iddynt gyfrannu ar lafar yn y cyfarfod.

Safon 33

4.4.13. Rhaid i gorff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer pob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Hefyd, rhaid i gorff hysbysu'r rheiny sy'n bresennol yn y cyfarfod ar lafar yn Gymraeg:

- bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a
- bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar gael.

4.4.14. Fel arfer, cadeirydd y cyfarfod neu'r sawl sy'n arwain neu'n hwyluso'r cyfarfod fyddai'n gwneud yr hysbysiad hwn.

4.4.15. Disgwylir i gorff wneud yr hysbysiad hwnnw ar ddechrau'r cyfarfod, fel bod y personau sy'n bresennol yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael mor fuan â phosibl.

4.4.16. Gall corff hefyd ail adrodd yr hysbysiad hwn yn ystod y cyfarfod er mwyn atgoffa'r sawl sy'n bresennol bod modd cyfrannu yn Gymraeg yn y cyfarfod.

4.4.17. Gall y corff wneud hynny drwy roi gwybod:

- bod modd iddynt gyfrannu i'r cyfarfod yn Gymraeg
- bod y corff yn annog cyfraniadau yn Gymraeg, a
- bod modd ymateb yn Gymraeg i sylwadau a chwestiynau a gaiff eu gwneud yn Saesneg yn ogystal ag i'r rhai a wneir yn Gymraeg.

Safon 34

4.4.18. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig y mae'n ei arddangos mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Rhaid i gorff hefyd beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

4.4.19. Mae'r term '[p]eidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg' yng nghyswllt y safon hon yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg o ran:

- golwg y testun (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
- maint y testun
- lleoliad ac amlygrwydd y testun mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff y testun ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- fformat cyhoeddi unrhyw destun
- trefn iaith y testun
- safon ac ansawdd y testun
- eglurder a chywirdeb y testun (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)
- cynnwys y testun (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

4.4.20. Gall y safon hon fod yn berthnasol i ddeunydd fel sleidiau cyflwyniadau, hysbysfyrddau, baneri a phosteri a gaiff eu harddangos yn y cyfarfod. Gall 'arddangos' yn y cyswllt hwn gynnwys deunydd a arddangosir ar **unrhyw ffurf**, gan gynnwys ar bapur, ar wal, ar sgrin neu ar gyfarpar electronig arall.

Pa fath o gyfarfodydd sy'n berthnasol i'r safonau hyn o'u cymharu â safonau ar gyfer cyfarfodydd eraill?

4.4.21. Mae'r safonau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd y mae corff yn eu trefnu sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol eu mynychu. Gall hynny gynnwys cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd fynychu i arsylwi yn unig neu'r rhai lle mae modd iddynt gyfrannu.

4.4.22. Gall y term gynnwys cyfarfodydd lle mae gwahoddiad cyffredinol yn cael ei wneud i'r cyhoedd, neu gyfran o'r cyhoedd, eu mynychu. Gall enghraifft o gyfarfod o'r fath gynnwys cyfarfod cyhoeddus ynghylch datblygiad tai arfaethedig neu agor ysgol newydd. Gall hefyd gynnwys cyfarfod llawn cyngor sir.

4.4.23. Nid yw'r term yn cynnwys cyfarfodydd sydd ond ar agor i wahoddedigion penodol. Dylid cyfeirio at safonau 23–29B ar gyfer cyfarfodydd pan fo personau wedi'u gwahodd iddynt a'u bod ond ar agor i'r personau hynny.

4.5 Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff [safonau 35-36]

Beth yw'r gofynion?

4.5.1. Os yw corff yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid iddo sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad hwnnw ac wrth hybu'r digwyddiad hwnnw.

Safon 35

4.5.2. Rhaid i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad cyhoeddus.

4.5.3. Mae 'hybu'r digwyddiad' yn cynnwys hysbysebu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad yn ogystal â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y digwyddiad dan sylw.

4.5.4. Mae'r term 'sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' wrth hybu'r digwyddiad yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- y ffordd y caiff y digwyddiad ei hysbysebu neu ei hyrwyddo
- y ffordd y mae corff yn codi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad
- golwg unrhyw ddeunydd perthnasol (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
- maint unrhyw ddeunydd perthnasol
- lleoliad ac amlygrwydd unrhyw ddeunydd perthnasol mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff y deunydd perthnasol ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd perthnasol
- iaith unrhyw ddeunydd perthnasol

- trefn iaith unrhyw ddeunydd perthnasol
- safon ac ansawdd unrhyw ddeunydd perthnasol
- eglurder a chywirdeb unrhyw ddeunydd perthnasol (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys unrhyw ddeunydd perthnasol (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

4.5.5. Gall hyn olygu bod corff yn sicrhau, ymysg materion eraill, fod unrhyw ddeunydd sy'n hybu'r digwyddiad yn cael ei lunio a'i gyhoeddi yn Gymraeg.

4.5.6. Mae gofynion y safon hon yn mynd ymhellach na sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â deunydd sydd i'w lunio ar gyfer hybu digwyddiad. Rhaid i gorff sicrhau hynny o ran unrhyw agwedd ar ei weithgareddau hybu wrth gydymffurfio â'r safon hon.

4.5.7. Er enghraifft, os yw corff yn ymgymryd ag ymgyrch farchnata i hybu digwyddiad cyhoeddus penodol, rhaid i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob agwedd ar yr ymgyrch honno.

Safon 36

4.5.8. Rhaid i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad.

4.5.9. Mae'r safon hon yn cynnig enghreifftiau penodol o gyd-destunau pan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad:

> "[...] er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo."

4.5.10. Mewn perthynas â'r enghreifftiau penodol hyn, gall corff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, wrth arddangos arwyddion a gwneud cyhoeddiadau sain yn y digwyddiad, drwy gydymffurfio â gofynion y safonau isod:

- safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff (safonau 61–63), a'r
- safon ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff (safon 87).

4.5.11. Mae'r term 'sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' yn y digwyddiad yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- golwg unrhyw ddeunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
- maint unrhyw ddeunydd
- lleoliad ac amlygrwydd unrhyw ddeunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff unrhyw ddeunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd
- iaith unrhyw ddeunydd
- trefn iaith unrhyw ddeunydd

- safon ac ansawdd unrhyw ddeunydd
- eglurder a chywirdeb unrhyw ddeunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys unrhyw ddeunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

4.5.12. Gall hyn olygu bod corff yn sicrhau, ymysg materion eraill, fod unrhyw ddeunydd sydd i'w lunio ar gyfer y digwyddiad yn cael ei lunio a'i gyhoeddi yn Gymraeg.

4.5.13. Fodd bynnag, mae gofynion y safon hon yn mynd ymhellach na sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â deunydd sydd i'w lunio ar gyfer digwyddiad. Rhaid i gorff ystyried pob agwedd ar ei ymwneud â digwyddiad wrth gydymffurfio â'r safon hon.

4.5.14. Disgwylir i gorff sicrhau nad oes unrhyw un o'r gwasanaethau neu weithgareddau Cymraeg a gynigir yn y digwyddiad yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r gwasanaethau neu'r gweithgareddau Saesneg cyfatebol. Er mwyn gwneud hynny, disgwylir i gorff ystyried yr holl wasanaethau y mae'r corff yn eu cynnig yn y digwyddiad.

4.5.15. Gall hyn gynnwys corff yn sicrhau mynediad at wasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb gan aelod o staff yn y digwyddiad, darparu deunydd ysgrifenedig Cymraeg yn ystod y digwyddiad yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaethau a'r deunyddiau hynny yr un mor hygyrch i'w derbyn â'r rhai Saesneg cyfatebol.

Beth yw ystyr y term 'digwyddiad cyhoeddus'?

4.5.16. Mae'r term 'digwyddiad cyhoeddus' yn golygu unrhyw ddigwyddiad sy'n agored i'r cyhoedd y mae corff yn ei drefnu neu'n ariannu o leiaf 50% ohono.

4.5.17. Gall digwyddiad cyhoeddus gynnwys:

- digwyddiad drwy docyn yn unig yn ogystal â digwyddiad sy'n agored i'r cyhoedd fynychu heb docyn
- digwyddiad cyhoeddus sy'n agored i gyfran o'r cyhoedd yn unig e.e. digwyddiad a drefnir ar gyfer sefydliadau gwirfoddol ac elusennau
- diwrnod agored sy'n agored i'r cyhoedd
- cynhadledd sy'n agored i'r cyhoedd
- gŵyl ddiwylliannol neu gymdeithasol sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiad adloniant neu gerddorol sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiad hamdden neu chwaraeon sy'n agored i'r cyhoedd
- arddangosfa sy'n agored i'r cyhoedd, neu
- ffair swyddi sy'n agored i'r cyhoedd.

A all corff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad?

4.5.18. Gall, mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, disgwylir i'r corff geisio sicrhau bod modd i wasanaethau gael eu cynnig yn uniongyrchol yn Gymraeg yn gyntaf (heb wasanaeth cyfieithu).

4.5.19. Pan na fo'n bosibl cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn uniongyrchol (er enghraifft am nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael), gall corff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu at y diben hwnnw mewn rhai cyd-destunau.

4.5.20. Bydd y graddau y gall corff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu hefyd yn dibynnu ar natur a strwythur y digwyddiad a'r gwasanaethau a gynigir yn y digwyddiad hwnnw. Er enghraifft, gellid defnyddio gwasanaethau cyfieithu mewn sefyllfa pan fo galw am gyfranogiad gan y rheiny sy'n bresennol neu o ran cynnig gwasanaeth sesiwn cwestiwn ac ateb.

4.5.21. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai'n briodol darparu gwasanaeth cyfieithu mewn rhai sefyllfaoedd e.e. am resymau ymarferol neu iechyd a diogelwch. Mewn sefyllfaoedd felly, disgwylir i gorff ddarparu'r gwasanaethau yn Gymraeg yn uniongyrchol (heb wasanaeth cyfieithu).

4.6 Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [safon 37]

Beth yw'r gofynion?

4.6.1. Rhaid i gorff lunio unrhyw ddeunydd hysbysebu neu ddeunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg. Os bydd y corff yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid iddynt beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

4.6.2. Dylid nodi bod gofynion y safon hon yn berthnasol hefyd i'r deunydd canlynol:

- y deunydd hysbysebu a'r clipiau fideo a sain ar wefan (ac nid safonau 52 i 56),
- unrhyw ddeunydd hysbysebu ar ap (ac nid safon 57), a
- chlipiau fideo a sain a ddarperir drwy'r cyfryngau cymdeithasol (ac nid safonau 58 a 59).

Beth yw ystyr y term '[p]eidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg' yng nghyd-destun y safon hon?

4.6.3. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 29 y rheoliadau yn nodi:

"Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg [...] mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

(a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);

(b) maint y deunydd;

(c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;

(ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;

(d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd."

4.6.4. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun); a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

Ydi clip fideo sy'n cynnwys isdeitlau neu droslais Cymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

4.6.5. Mae hyn yn dibynnu ar natur a chynnwys y clip dan sylw. Nodir enghraifft o ddwy sefyllfa bosibl yma.

Clip fideo sy'n cynnwys troslais, lle mae geiriau yn cael eu hadrodd dros luniau

4.6.6. Mewn clip fel hwn, mae'r geiriau yn cael eu siarad gan berson tra mae lluniau o rhywbeth arall i'w gweld (hynny yw, nid yw'r person i'w weld).

4.6.7. Os yw'r clip ar ochr Gymraeg y wefan yn:

- defnyddio isdeitlau Cymraeg pan fyddai person arall yn gallu gwneud cyfraniad cyfatebol yn Gymraeg
- defnyddio isdeitlau Cymraeg ar fideo lle byddai modd cynnwys troslais Cymraeg
- defnyddio isdeitlau Cymraeg ar gyfraniad Saesneg ar y clip—os nad oes cyfraniad Cymraeg ar y clip Saesneg cyfatebol wedi ei is-deitlo,

gallai fod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Clip fideo sy'n dangos person y gellir ei weld yn siarad

4.6.8. Mewn clip fel hwn, mae person yn cael ei weld yn siarad ac yn mynegi sylwadau/barn am eu profiadau personol.

4.6.9. Os yw'r clip ar ochr Gymraeg y wefan yn:

- cynnwys is-deitlau Cymraeg yn hytrach na throslais Cymraeg
- defnyddio troslais Saesneg yn hytrach na throslais Cymraeg,

gallai fod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth yw ystyr y term '[l]lunio' yng nghyswllt y safon hon?

4.6.10. Mae'r safon hon yn berthnasol i unrhyw ddeunydd hysbysebu neu ddeunydd cyhoeddusrwydd a gaiff ei lunio gan gorff.

4.6.11. Nid yw'n cynnwys deunydd sy'n cael ei lunio gan berson arall, hyd yn oed os yw hynny yn cael ei gynnwys o fewn deunydd hysbysebu neu ddeunydd cyhoeddusrwydd a lunnir gan gorff, oni bai eu bod wedi is-gontractio'r dasg o lunio deunydd i gorff arall, ac yn y sefyllfa honno byddai'r safon yn dal yn gymwys.

Beth yw ystyr y term 'deunydd cyhoeddusrwydd' a 'deunydd hysbysebu'?

4.6.12. Gall 'deunydd cyhoeddusrwydd' a 'deunydd hysbysebu' gynnwys:

- pamffledi, llyfrynnau, taflenni, posteri, cylchgronau, bwrdd biliau, ffilmiau, sloganau, fideos a chlipiau sain (boed yn fyw neu wedi'u recordio) sy'n hybu, rhoi cyhoeddusrwydd, neu'n egluro elfen o waith y corff
- deunyddiau a gaiff eu llunio ar gyfer arddangosfeydd, cynadleddau neu seminarau am waith y corff
- hysbysebion a wneir drwy gyfrwng negeseuon electronig, systemau cyfarch cyhoeddus, posteri neu hysbysfyrddau a'r wasg, a
- deunydd sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd hyrwyddo a gwasanaethau gwybodaeth.

4.7 Corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus [safonau 38-39]

Beth yw'r gofynion?

4.7.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chorff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus.

4.7.2. Mae'r term 'arddangos deunydd yn gyhoeddus' yn golygu bod deunydd yn cael ei arddangos i'r cyhoedd i'w weld ac/neu i'w ddarllen. Felly, os yw deunydd yn cael ei arddangos i aelodau o staff y corff yn unig er enghraifft, ni fyddai'r safonau hyn yn berthnasol, gan nad ydynt yn cael eu hystyried o fewn ystyr y term 'cyhoedd'[37].

4.7.3. Fel arfer, mae gan y term 'arddangos' yng nghyswllt y safon hon yr ystyr bod y deunydd dan sylw yn cael ei roi mewn safle fel y gellir ei weld. Nid yw'r term 'arddangos' fel arfer yn gyfystyr â rhannu dogfen mewn cyfarfod (e.e. rhannu papurau trafod mewn cyfarfod).

[37] Dylid cyfeirio at ddehongliad o'r term 'cyhoedd' yn adran 3 y cod hwn

4.7.4. Gall deunydd perthnasol gynnwys sleidiau cyflwyniadau, hysbysfyrddau, baneri a phosteri. Mae 'arddangos' yn y cyswllt hwn yn cynnwys deunydd a arddangosir ar unrhyw ffurf megis ar bapur, ar wal, ar sgrin neu ar gyfarpar electronig arall. Mae'n berthnasol i unrhyw ddeunydd a arddangosir gan y corff, gan gynnwys deunydd a luniwyd gan bersonau eraill ond sy'n cael ei arddangos gan y corff.

Safon 38

4.7.5. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw ddeunydd y mae'n ei arddangos yn gyhoeddus yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Os oes fersiwn Saesneg o'r deunydd hwnnw yn cael ei arddangos, rhaid i'r corff beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 39

4.7.6. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw ddeunydd y mae'n ei arddangos mewn arddangosfa gyhoeddus sydd wedi'i threfnu ganddo yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Os oes fersiwn Saesneg o'r deunydd hwnnw yn cael ei arddangos, rhaid i'r corff beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

4.7.7. Os yw corff yn arddangos deunydd mewn arddangosfa gyhoeddus sydd wedi'i threfnu gan gorff arall, nid oes rhaid i'r corff arddangos deunydd yn Gymraeg yn yr arddangosfa honno fel arfer. Fodd bynnag, bydd rhaid i gorff wneud hynny os yw safon 38 hefyd wedi'i gosod ar y corff.

Beth yw ystyr y term "[p]eidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg" yng nghyd-destun y safonau hyn?

4.7.8. Mae'r term 'peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg' yng nghyswllt y safonau hyn yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
- maint y deunydd
- lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd
- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

4.8 Corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau [safonau 40-49]

Beth yw'r gofynion?

4.8.1. Mae'r safonau hyn yn nodi bod rhaid i gorff sicrhau bod dogfennau penodol ar gael yn Gymraeg. Mae'r safonau hefyd yn nodi bod rhaid peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfen yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg a bod datgan yn glir ar fersiwn Saesneg bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael.

Safon 40

4.8.2. Os yw corff yn llunio unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd, rhaid iddo sicrhau bod y ddogfen yn cael ei llunio yn Gymraeg.

4.8.3. Gall dogfennau perthnasol gynnwys cardiau, derbynebau, anfonebau, codau gweithredu, cyhoeddiadau ystadegol, dogfennau ymgynghorol, nodiadau canllaw, mapiau a phosteri.

Safon 41

4.8.4. Os yw corff yn llunio'r dogfennau canlynol, rhaid iddo sicrhau eu bod yn cael eu llunio yn Gymraeg:

- agendau, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet, ac
- agendau, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.

4.8.5. Er enghraifft, gall hynny gynnwys dogfennau perthnasol sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n ymwneud â bwrdd gweithredol Cyngor, cyfarfod pwyllgor neu unrhyw fath arall o gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd.

4.8.6. Yng nghyswllt Gweinidogion Cymru, gall hyn gynnwys deunydd perthnasol sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet Llywodraeth Cymru.

4.8.7. Gall 'agendau' gynnwys:

- gwybodaeth am leoliad ac amser y cyfarfod
- teitlau'r eitemau neu faterion i'w trafod
- manylion am aelodau'r bwrdd neu gabinet neu'r rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod
- pwynt cyswllt perthnasol, a
- blaenraglen waith y cyfarfod.

4.8.8. Gall 'cofnodion' gynnwys:

- cofnodion ysgrifenedig llawn neu gofnodion drafft o'r cyfarfodydd perthnasol
- cofnod byrrach o'r penderfyniadau (megis taflenni penderfyniad) a
- pwyntiau gweithredu'r cyfarfod.

4.8.9. Gall 'papurau eraill' gynnwys:

- adroddiadau'r eitemau

- atodiadau
- papurau neu ddogfennau ategol i'w trafod neu i'w nodi
- rhybudd cyfarfod, neu
- bapurau â gwybodaeth yn ymwneud â datgan buddiant.

Safon 42

4.8.10. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw drwydded neu dystysgrif y mae'n ei llunio, yn cael ei llunio yn Gymraeg.

4.8.11. Fel arfer, mae 'trwydded' yn ddogfen swyddogol sy'n awdurdodi gwneud rhywbeth. Gall y term gynnwys hawlen hefyd.

4.8.12. Er enghraifft, gall trwydded gynnwys trwyddedau parcio, gwerthu alcohol, darparu lluniaeth hwyr y nos neu drwyddedau tai i landlordiaid neu asiantau. Gall tystysgrif gynnwys tystysgrifau yn dilyn cwrs neu hyfforddiant, tystysgrif eithrio o dreth cyngor neu dystysgrif gwobrau neu seremonïau.

Safon 43

4.8.13. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn y mae'n ei llunio neu ei lunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, yn cael ei llunio neu ei lunio yn Gymraeg. Er enghraifft, gall hyn gynnwys:

- cerdyn aelodaeth llyfrgell neu ganolfan hamdden
- cerdyn busnes
- llyfryn gwybodaeth am waith y corff, neu
- daflen neu bamffled sy'n rhoi gwybod am wasanaeth a ddarperir gan adran yn y corff.

Safon 44

4.8.14. Os yw corff yn llunio unrhyw rai o'r dogfennau canlynol, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid iddo eu llunio yn Gymraeg:

- polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol
- canllawiau a chodau ymarfer, a
- phapurau ymgynghori.

Safon 45

4.8.15. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw reolau y mae'n eu cyhoeddi sy'n 'gymwys i'r cyhoedd', yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg.

4.8.16. Byddai rheolau yn 'gymwys i'r cyhoedd' os ydynt yn rheolau y mae'n rhaid i'r cyhoedd gydymffurfio â hwy. Gall rheolau o'r fath gynnwys rheolau parcio mewn meysydd parcio neu delerau ac amodau yn ymwneud â gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

4.8.17. Fodd bynnag, mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 33 o'r rheoliadau yn nodi:

> "Nid yw safon 45 yn gymwys i reolau a bennir mewn deddfiad neu mewn deddfiad drafft a lunnir gan gorff."

4.8.18. Felly, nid oes rhaid i gorff gyfieithu rheolau y mae'n eu cynnwys mewn deddfiad neu mewn deddfiad drafft i'r Gymraeg.

Safon 46

4.8.19. Os yw corff yn rhyddhau datganiad i'r wasg, rhaid iddo ryddhau fersiwn Gymraeg o'r datganiad hwnnw, a rhaid iddo wneud hynny ar yr un pryd ag y caiff fersiwn Saesneg o'r datganiad ei ryddhau.

4.8.20. Byddai corff yn rhyddhau datganiad i'r wasg pan fydd yn cyhoeddi datganiad ar gyfer y wasg. Er enghraifft, gall hyn gynnwys gosod datganiad ar ei wefan (e.e. yn yr adran newyddion) neu drwy anfon datganiad yn uniongyrchol at y wasg.

4.8.21. O ran ymatebion i geisiadau penodol gan y wasg am ddatganiad, disgwylir i gorff weithredu'n unol â'r safonau perthnasol sydd wedi eu gosod arno mewn perthynas â gohebu (gweler safonau 1–7).

4.8.22. Os caiff yr ymateb i gais penodol am ddatganiad wedyn ei gyhoeddi yn ehangach i'r cyhoedd (e.e. drwy'i gyhoeddi ar ei wefan), rhaid i'r corff sicrhau bod y datganiad yn cydymffurfio â gofynion y safon hon.

Safon 47

4.8.23. Os yw corff yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, ac os nad oes safon arall eisoes yn gosod dyletswydd i gorff lunio'r ddogfen yn Gymraeg (e.e. os nad oes rhaid i gorff lunio dogfen yn Gymraeg yn unol â safonau 40–46), rhaid iddo asesu:

- a yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu
- a yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'i disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.

4.8.24. Yn dilyn hynny, rhaid i'r corff lunio'r ddogfen yn Gymraeg (neu beidio) yn unol â chanlyniad yr asesiad hwnnw.

4.8.25. Gall yr asesiad hwnnw gynnwys ystyried y materion canlynol:

- A yw pwnc y ddogfen yn ymwneud â mater sy'n berthnasol i nifer fawr o bersonau?
- A yw pwnc y ddogfen yn ymwneud â mater sy'n effeithio ar, neu o bwys i, nifer fawr o bersonau?
- A yw pwnc y ddogfen yn ymdrin â materion ynghylch yr iaith Gymraeg (e.e. addysg cyfrwng Cymraeg)?
- A yw pwnc y ddogfen yn ymwneud â maes sydd o ddiddordeb arbennig o ran y Gymraeg (e.e. addysg / tai / gofal iechyd / celfyddydau / economi)?
- A yw'r ddogfen yn un fydd yn cael ei harddangos yn gyhoeddus?
- A yw pwnc y ddogfen yn debygol o fod o ddiddordeb cyffredinol i bersonau sy'n siarad Cymraeg?
- A ydych yn gwybod bod canran neu nifer fawr o'r gynulleidfa a ragwelir yn siaradwyr Cymraeg?
- A oes mwy nag un person wedi gofyn bod y ddogfen ar gael yn Gymraeg?
- A yw'r ddogfen yn un sy'n debygol o ennyn ymateb a sylw cyhoeddus (e.e. ar y cyfryngau cymdeithasol)?
- A yw'r ddogfen yn un y mae gofyn i bersonau ymateb iddi?

- A yw'r gynulleidfa darged yn cynnwys personau (fel grwpiau a sefydliadau) y mae'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig iddynt neu sy'n gweithredu yn Gymraeg?
- A yw'r gynulleidfa darged o fewn ardal sydd â chanran neu nifer fawr o siaradwyr Cymraeg?

Safon 48

4.8.26. Os yw corff yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg o'r ddogfen honno.

4.8.27. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 29 y rheoliadau yn nodi:

> "Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg (ac eithrio safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau), 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol) a 76 (gwahoddiad i dendro)), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
>
> (b) maint y deunydd
>
> (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus
>
> (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
>
> (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd."

4.8.28. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

Safon 49

4.8.29. Os yw corff yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid iddo sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

4.8.30. Gall corff gynnwys datganiad megis y canlynol ar ddogfen er mwyn cydymffurfio â'r safon:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

4.8.31. Gall datgan 'yn glir' gynnwys sicrhau bod y datganiad yn hawdd ei weld ar y ddogfen. Gall hynny gynnwys sicrhau bod y datganiad yn cael ei gynnwys ar flaen y ddogfen.

4.8.32. Gall corff benderfynu hwyluso mynediad at y ddogfen Gymraeg dan sylw, drwy gynnwys dolen uniongyrchol at y ddogfen Gymraeg neu drwy gynnwys gwybodaeth ar sut i ddod o hyd i'r ddogfen Gymraeg fel rhan o'r datganiad.

Beth yw ystyr y term 'at ddefnydd y cyhoedd'?

4.8.33. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 30 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddiben safonau 40, 41, 44, 47 a 50, nid yw'r cyfeiriadau at ddogfennau neu ddeunydd arall sydd ar gael i'r cyhoedd, neu sy'n cael eu llunio at ddefnydd y cyhoedd, yn cynnwys dogfennau neu ddeunyddiau nad yw ond ar gael i'r cyhoedd yn rhinwedd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36).

4.8.34. Byddai dogfen 'at ddefnydd y cyhoedd' os ydyw ar gael iddynt ei defnyddio heb wneud cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn unig.

A oes unrhyw eithriadau pellach i'r safonau hyn?

4.8.35. Oes. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 32 y rheoliadau yn nodi:

> "Nid yw safonau 40, 47, 48 a 49 yn gymwys i ddeddfiad a wneir gan gorff neu i ddeddfiad drafft a lunnir gan gorff."

4.8.36. Nodir ymhellach ym mharagraff 25 a 45 y rheoliadau:

> "Nid yw'n ofynnol i gorff lunio, arddangos nac anfon deunydd yn Gymraeg i'r graddau y mae deddfiad arall wedi pennu geiriad dogfen, arwydd neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw
>
> At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan un o'r canlynol—
>
> (a) Deddf Seneddol; neu
>
> (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru."

4.8.37. Mae'r eithriad hwn yn cydnabod yr egwyddor os yw deddfiad yn pennu geiriad, mae'n rhaid i'r geiriad yna gael ei ddefnyddio p'un ai yw'r geiriad yn Gymraeg yn unig, yn Saesneg yn unig neu yn Gymraeg a'n Saesneg. Nid yw'r rheoliadau yn effeithio ar yr egwyddor honno.

4.9 Corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni [safonau 50-51]

Beth yw'r gofynion?

4.9.1. Rhaid i gorff sicrhau bod ffurflenni y mae'n eu llunio at ddefnydd y cyhoedd ar gael yn Gymraeg. Rhaid hefyd peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfen yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg, ynghyd â datgan yn glir ar fersiwn Saesneg bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael.

Safon 50

4.9.2. Rhaid i gorff sicrhau bod pob ffurflen y mae'n ei llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys unrhyw ffurflenni ysgrifenedig, boed yn electronig neu ar ffurf papur.

Safon 50A

4.9.3. Os yw corff yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid iddo ddatgan yn glir ar y fersiwn Saesneg bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

4.9.4. Gall corff gynnwys datganiad megis y canlynol ar ffurflen er mwyn cydymffurfio â'r safon:

Cymraeg

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

This form is also available in Welsh.

4.9.5. Gall datgan 'yn glir' gynnwys sicrhau bod y datganiad yn hawdd ei weld ar y ffurflen. Gall hynny gynnwys sicrhau bod y datganiad yn cael ei gynnwys ar flaen y ffurflen.

4.9.6. Gall corff benderfynu hwyluso mynediad at y ffurflen Gymraeg dan sylw, drwy gynnwys dolen uniongyrchol at y ffurflen Gymraeg neu drwy gynnwys gwybodaeth ar sut i ddod o hyd i'r ffurflen Gymraeg fel rhan o'r datganiad.

Safon 50B

4.9.7. Os yw corff yn llunio fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Rhaid iddo beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen.

4.9.8. Mae'r safon ei hun yn cynnwys enghreifftiau penodol:

> "[...] er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen."

4.9.9. Ymhellach i hynny, mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 29 y rheoliadau yn nodi:

> "Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg (ac eithrio safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau), 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol) a 76 (gwahoddiad i dendro)), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
>
> (b) maint y deunydd;
>
> (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
>
> (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
>
> (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd."

4.9.10. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

Safon 51

4.9.11. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw wybodaeth y mae'n ei mewnosod ar fersiwn Gymraeg yn Gymraeg.

4.9.12. Mae'r term 'mewnosod' yn cynnwys corff yn cwblhau'r ffurflen (neu ran ohoni) yn lle'r person ei hun.

4.9.13. Mae'r safon ei hun yn cynnwys enghreifftiau penodol o rai cyd-destunau lle gall corff fod yn mewnosod gwybodaeth ar ffurflen:

> "[...] er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen.

4.9.14. Gall y math o wybodaeth y byddai corff yn ei mewnosod ar ffurflen gynnwys manylion personol person megis enw, cyfeiriad, teitl, statws priodasol, teitl swydd ac ati.

4.9.15. Ar ffurflen electronig, gall hynny gynnwys y wybodaeth sy'n cael ei mewnosod yn awtomatig ar ffurflen wedi i berson gwblhau rhan arall o'r ffurflen. Er enghraifft, gall hynny gynnwys bod fersiwn Gymraeg o gyfeiriad post yn cael ei mewnosod ar ôl i berson fewnosod ei god post ar y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen. Gall hefyd gynnwys sicrhau bod unrhyw opsiynau i'w dewis ohonynt mewn cwymplenni ar gael yn Gymraeg.

Beth yw ystyr y term 'at ddefnydd y cyhoedd'?

4.9.16. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 30 y rheoliadau yn nodi'r canlynol:

> "At ddiben safonau 40, 41, 44, 47 a 50, nid yw'r cyfeiriadau at ddogfennau neu ddeunydd arall sydd ar gael i'r cyhoedd, neu sy'n cael eu llunio at ddefnydd y cyhoedd, yn cynnwys dogfennau neu ddeunyddiau nad yw ond ar gael i'r cyhoedd yn rhinwedd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36)."

4.9.17. Byddai ffurflen 'at ddefnydd y cyhoedd' os ydyw ar gael iddynt ei defnyddio heb wneud cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn unig.

A oes unrhyw eithriadau pellach i'r safonau hyn?

4.9.18. Oes. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraffau 25 a 45 y rheoliadau yn nodi:

> "Nid yw'n ofynnol i gorff lunio, arddangos nac anfon deunydd yn Gymraeg i'r graddau y mae deddfiad arall wedi pennu geiriad dogfen, arwydd neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw.
>
> At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan un o'r canlynol —
>
> (a) Deddf Seneddol; neu
>
> (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru."

4.9.19. Mae'r eithriad hwn yn cydnabod yr egwyddor os yw deddfiad yn pennu geiriad, mae'n rhaid i'r geiriad yna gael ei ddefnyddio p'un ai yw'r geiriad yn Gymraeg yn unig, yn Saesneg yn unig neu yn Gymraeg a'n Saesneg. Nid yw'r rheoliadau yn effeithio ar yr egwyddor honno. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 31 y rheoliadau yn nodi ymhellach:

"(1) Nid yw safonau 50, 50A a 50B yn gymwys i'r ffurflenni a restrir yn is-baragraff (3)...

(3) Y ffurflenni yw —

(a) ffurflenni a ddefnyddir gan gorff i recriwtio cyflogeion (gweler safonau 137A, 138 a 139 mewn perthynas â recriwtio);

(b) ffurflenni a ddefnyddir wrth wneud cais am gymorth grant gan gorff (gweler safonau 71 i 75 mewn perthynas â cheisiadau am grantiau);

(c) ffurflenni a ddefnyddir pan gyflwynir tendr i gontractio gyda chorff (gweler safonau 76 i 80 mewn perthynas â thendro am gontract)."

4.10 Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [safonau 52-57]

Beth yw'r gofynion?

4.10.1. Rhaid i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny.

Safon 52

4.10.2. Rhaid i gorff sicrhau bod:

- testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg
- pob tudalen Gymraeg ar ei wefan yn gweithredu'n llawn, ac
- na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny.

4.10.3. Rhaid i gorff sicrhau hynny o ran pob tudalen ar eu gwefan. Mae hyn yn cynnwys y tudalennau a nodir yn safonau 53 a 54, sef y dudalen hafan, unrhyw dudalennau newydd ac unrhyw dudalennau a gaiff eu diwygio ar y wefan.

Safon 53

4.10.4. Rhaid i gorff sicrhau bod:

- testun hafan ei wefan ar gael yn Gymraeg
- unrhyw destun Cymraeg ar hafan ei wefan (neu pan fo'n berthnasol, hafan Gymraeg y wefan) yn gweithredu'n llawn, ac
- na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r hafan.

4.10.5. Mae 'tudalen hafan' yn golygu'r dudalen ar wefan sydd fel arfer yn gweithredu fel y brif dudalen neu'r dudalen gartref (ac yn ymddangos ar ôl y dudalen sblash). Mae'r hafan fel arfer yn gweithredu fel tudalen llywio ac yn cynnwys dolenni at y gwahanol adrannau a geir ar yr wefan.

Safon 54

4.10.6. Os yw corff yn cyhoeddi tudalen newydd ar ei wefan, neu'n diwygio tudalen sydd ar y wefan, rhaid iddo sicrhau bod:

- testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,
- bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
- na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny.

4.10.7. Byddai tudalen gwefan yn un 'newydd' os yw'r corff yn cyhoeddi'r dudalen honno am y tro cyntaf ar ôl diwrnod gosod y safon.

4.10.8. Byddai tudalen yn cael ei 'diwygio' os yw corff yn gwneud newidiadau i'r dudalen honno. Gall hyn gynnwys sefyllfaoedd lle mae corff yn diweddaru, yn dileu, yn ychwanegu neu'n cywiro cynnwys ar y dudalen honno.

Safon 55

4.10.9. Os oes gan gorff dudalen Gymraeg ar ei wefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid iddo nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg. Rhaid iddo hefyd ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

4.10.10. Nid oes rhaid i gorff nodi datganiad sydd air am air â'r uchod ar bob tudalen Saesneg perthnasol. Gall corff ei gwneud yn glir bod tudalen Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg drwy gynnwys botwm ar y dudalen Saesneg sy'n llywio'r defnyddiwr at y dudalen Gymraeg gyfatebol.

4.10.11. Er enghraifft, gall corff gynnwys botwm "Cymraeg" mewn safle amlwg (ar frig y dudalen) ar dudalen Saesneg a fyddai'n cynnwys dolen at y dudalen Gymraeg gyfatebol. Ni fyddai arddangos baner (e.e. baner Cymru) yn cyfleu yn ddigonol bod tudalen Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 56

4.10.12. Rhaid i gorff sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg.

4.10.13. Nid oes rhaid i gorff sicrhau hynny ar gyfer tudalennau Saesneg os yw corff yn sicrhau hynny ar gyfer ei dudalennau Cymraeg cyfatebol. Fodd bynnag, os yw tudalen yn gweithredu fel y dudalen Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd (e.e. hafan dwyieithog ar wefan), rhaid i gorff sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni yn Gymraeg ar y dudalen honno.

4.10.14. Bydd natur rhyngwynebau a dewislenni yn newid fesul gwefan ond rhain fydd y rhannau o'r wefan y bydd defnyddiwr yn ei ddefnyddio i gyfathrebu a rhyngweithio â hi.

4.10.15. Gall dewislenni gynnwys rhestr o ddewisiadau, eitemau, neu orchmynion i ddefnyddiwr ddewis ohonynt (e.e. cwymplen sy'n agor i lawr i ddangos rhestr o ddewisiadau posibl).

Safon 57

4.10.16. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw ap y mae'n ei gyhoeddi yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar yr ap hwnnw.

4.10.17. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 35 y rheoliadau yn nodi:

> "(1) At ddiben safon 57, ystyr "ap" yw cymhwysiad meddalwedd sydd wedi ei gynllunio i gyflawni tasg benodol ar ddyfais electronig.
>
> (2) Nid yw safon 57 yn gymwys i unrhyw ddeunydd hysbysebu ar ap (gweler safon 37 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff)."

4.10.18. Gall ap o'r fath gynnwys rhai sy'n galluogi personau i dalu rhent neu gwyno ar ddyfais electronig.

Beth yw ystyr y term 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'?

4.10.19. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 36 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddiben safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau) a safonau 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), neu
>
> (b) pan gyhoeddir deunydd ar y wefan, yr ap neu'r cyfryngau cymdeithasol
>
> ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â deunydd Saesneg, nac ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio."

4.10.20. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- lleoliad ac amlygrwydd y deunydd
- pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi
- fformat cyhoeddi'r deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

4.10.21. Nid yw'r term yn golygu bod rhaid i gorff sicrhau bod deunydd Cymraeg yn ymddangos ar yr un dudalen neu ap â'r deunydd Saesneg. Golyga hyn y gall corff gynnwys deunydd Cymraeg ar fersiwn Gymraeg o dudalen neu ap a chynnwys deunydd Saesneg ar fersiwn Saesneg o dudalen neu ap, i'r graddau nad yw hynny'n golygu bod y corff yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, nid oes dim yn rhwystro corff rhag gallu cynnwys deunydd Cymraeg a Saesneg ar yr un dudalen neu ap chwaith megis ar dudalen neu ap dwyieithog ochr yn ochr â'i gilydd.

4.10.22. Fodd bynnag, gall wneud Saesneg yr iaith ddiofyn i ap neu wefan olygu bod corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn osgoi hynny, gall corff gynnig dewis iaith i'r defnyddiwr yn y man cyntaf er mwyn caniatáu i ddeunydd wedi hynny ymddangos yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

4.10.23. Nid oes rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio. Mae hyn yn golygu os yw person yn chwilio am ddeunydd, er enghraifft drwy'r chwilotwr 'Google', a bod person yn dod o hyd i dudalen Saesneg cyn dod o hyd i'r dudalen cyfatebol Cymraeg, ni fyddai hynny o reidrwydd yn golygu bod y corff yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r un Saesneg.

4.10.24. Fodd bynnag, disgwylir i gorff gymryd camau i sicrhau ei bod o leiaf yr un mor hawdd i ddod o hyd i ddeunydd Cymraeg a Saesneg sydd ar ei wefan.

Ydy gofynion safonau 52-56 yn golygu bod angen i'r holl gynnwys sydd ar wefan fod yn Gymraeg?

4.10.25. Nac ydyn, ddim o reidrwydd. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 34 y rheoliadau yn nodi:

> "Nid yw safonau 52 i 56 (gwefannau) yn gymwys i—
>
> (a) dogfennau y darperir dolen iddynt ar wefan, deunydd hysbysebu ar wefan, na chlipiau fideo a sain ar wefan (gweler safonau 40 i 49 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau, a safon 37 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff);
>
> (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau (ac eithrio'r corff) ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar wefan corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau, neu ar fforwm drafod)"

4.10.26. Os yw corff yn darparu dolenni at adnoddau eraill oddi ar dudalen ei wefan, disgwylir iddynt fod yn gyson â iaith y dudalen honno er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er enghraifft, disgwylir i ddolen a ddarperir ar dudalen Gymraeg o'r wefan arwain at fersiwn Gymraeg o'r adnodd, os oes fersiwn Gymraeg ar gael. Fodd bynnag, nid oes rhaid i gorff gyfieithu'r adnodd i'r Gymraeg oni bai bod safon arall yn ei gwneud yn ofynnol i wneud hynny.

4.10.27. Felly, os yw corff yn darparu dolen i ddogfen ar ei wefan, safonau 40 i 49 fydd yn berthnasol i'r ddogfen honno ac nid y safonau hyn. Er hynny, gall corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod dolen yn mynd at fersiwn Gymraeg o ddogfen, os oes fersiwn Gymraeg yn bodoli yn unol â gofynion safonau 40 i 49.

4.10.28. Yn yr un modd, os yw corff yn darparu deunyddiau hysbysebu megis clipiau fideo a sain ar ei wefan, safon 37 fydd yn berthnasol i'r deunyddiau hynny ac nid y safonau hyn. Er hynny, gall corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod fersiynau Cymraeg o'r deunyddiau yn cael eu darparu, os oes fersiynau Cymraeg yn bodoli yn unol â gofynion safon 37.

4.10.29. Os yw person (y tu allan i'r corff) yn cyflwyno gwybodaeth ar dudalen ryngweithiol sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan corff, nid oes rhaid i'r corff gyfieithu'r wybodaeth honno i'r Gymraeg. Gall hynny gynnwys gwybodaeth a gaiff ei chyflwyno:

- mewn ystafelloedd sgwrsio
- ar adran ar gyfer sylwadau, neu
- fforwm drafod.

Beth yw ystyr y term 'gweithredu'n llawn'?

4.10.30. Mae'r term yn golygu bod corff yn sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o dudalen neu ap yn gweithredu o leiaf yn yr un modd neu gystal â'r fersiwn Saesneg a hynny heb unrhyw gyfyngiadau neu wallau.

4.10.31. Gall hyn gynnwys sicrhau:

- bod cynnwys y fersiynau Cymraeg yn cael ei ddiweddaru ac nad yw'r cynnwys wedi'i oedi o'i gymharu â'r fersiynau Saesneg o'r cynnwys
- bod swyddogaethau chwilio yn gweithio yn llawn yn Gymraeg
- bod swyddogaethau technolegol yn gweithio yn llawn yn Gymraeg (e.e. testun-i-leferydd)
- bod y fersiynau Cymraeg yn cynnwys yr un wybodaeth ag a geir ar fersiynau Saesneg unrhyw dudalen neu ap
- nad yw dolenni wedi torri, ac
- nad oes nam yn ymddangos ar y tudalennau Cymraeg.

4.11 Defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol [safonau 58-59]

Beth yw'r gofynion?

4.11.1. Mae'r safonau canlynol yn ymwneud â defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol. Gall hynny gynnwys y ffordd y mae corff yn ymddangos, yn cyhoeddi deunydd, yn anfon ac ymateb i negeseuon ac yn cyfathrebu gyda phersonau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Safon 58

4.11.2. Rhaid i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Safon 59

4.11.3. Rhaid i gorff ateb person yn Gymraeg (os oes angen ateb) os yw'r person wedi cysylltu ag ef drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg. Gall hynny gynnwys ymateb i gysylltiadau a wneir â chorff drwy neges breifat neu gysylltiadau a wneir yn gyhoeddus (e.e. pan fo person yn cysylltu â'r corff drwy ymateb i neges y mae'r corff wedi'i gyhoeddi ar ei gyfrif).

Sut mae'r safonau'n berthnasol i'r 'cyfryngau cymdeithasol'?

4.11.4. Mae'r term 'cyfryngau cymdeithasol' yn cynnwys gwefannau a rhaglenni sy'n galluogi defnyddwyr i greu a rhannu cynnwys neu i gymryd rhan mewn rhwydweithio cymdeithasol ar y we. Gall enghreifftiau gynnwys Facebook, Twitter, LinkedIn, Instagram ac YouTube.

4.11.5. Mae'r safonau'n berthnasol i holl ddefnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys y defnydd a wneir ohono drwy gyfrif corfforaethol neu drwy gyfrifon staff ac adrannau unigol (os ydynt yn gweithredu ar ran neu yn enw'r corff).

4.11.6. Er hynny, i'r graddau nad yw gwneud hynny'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gall corff weithredu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o gyfrifon pe byddai'n dymuno yn hytrach na gweithredu cyfrif dwyieithog.

4.11.7. Os yw corff yn penderfynu gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid iddo godi ymwybyddiaeth o'r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol yn unol â safonau 81 ac 82. Gall hyn gynnwys corff yn darparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol.

Beth yw ystyr y term 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'?

4.11.8. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 36 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddiben safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau) a safonau 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), neu
>
> (b) pan gyhoeddir deunydd ar y wefan, yr ap neu'r cyfryngau cymdeithasol;
>
> ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â deunydd Saesneg, nac ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio."

4.11.9. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- iaith y deunydd

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- lleoliad ac amlygrwydd y deunydd
- pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi
- fformat cyhoeddi'r deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

4.11.10. Ymhellach i hynny, mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 38 y rheoliadau yn nodi:

> "Nid yw safonau 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol) yn gymwys i—
>
> (a) dogfennau y darperir dolen iddynt drwy'r cyfryngau cymdeithasol, nac i glipiau fideo a sain a ddarperir drwy'r cyfryngau cymdeithasol (gweler safonau 40 i 49 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau, a safon 37 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff);
>
> (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau (ac eithrio'r corff) ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau).

4.11.11. Os yw corff yn darparu dolenni at adnoddau eraill drwy'r cyfryngau cymdeithasol, disgwylir iddynt fod yn gyson â iaith y neges honno neu'r cyfrif hwnnw er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er enghraifft, disgwylir i ddolen a ddarperir mewn neges Gymraeg arwain at fersiwn Gymraeg o'r adnodd, os oes fersiwn Gymraeg ar gael. Fodd bynnag, nid oes rhaid i gorff gyfieithu'r adnodd i'r Gymraeg oni bai bod safon arall yn nodi bod rhaid gwneud hynny.

4.11.12. Felly, os yw corff yn darparu dolen i ddogfen drwy'r cyfryngau cymdeithasol, safonau 40 i 49 fydd yn berthnasol i'r ddogfen honno ac nid y safonau hyn. Er hynny, gall corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod dolen yn mynd at fersiwn Gymraeg o ddogfen, os oes fersiwn Gymraeg yn bodoli yn unol â gofynion safonau 40 i 49.

4.11.13. Yn yr un modd, os yw corff yn darparu clipiau fideo a sain drwy'r cyfryngau cymdeithasol, safon 37 fydd yn berthnasol i'r clipiau hynny ac nid y safonau hyn. Er hynny, gall corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod fersiynau Cymraeg o'r clipiau fideo a sain yn cael eu darparu, os oes fersiynau Cymraeg yn bodoli yn unol â gofynion safon 37.

A yw'r safonau yn berthnasol i negeseuon gan bersonau eraill sy'n ymddangos ar gyfrifon corff?

4.11.14. Nac ydyn. Nid oes rhaid i'r corff gyfieithu negeseuon a gyflwynir gan bersonau eraill ar eu cyfrifon. Gall negeseuon o'r fath gynnwys gwybodaeth a gyflwynir:

- mewn ystafelloedd sgwrsio

- ar adran ar gyfer sylwadau, neu
- fforwm drafod.

4.11.15. Yn ogystal, nid oes rhaid i gorff gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw wybodaeth gan bersonau eraill y mae'r corff yn ei rhannu'n ehangach ar eu cyfrifon eu hunain. Er enghraifft, nid oes rhaid i gorff gyfieithu negeseuon Saesneg y mae'n eu hail drydar ar Twitter neu yn eu rhannu ar Facebook.

4.11.16. Fodd bynnag, os yw corff yn rhannu gwybodaeth gan bersonau eraill ar eu cyfrifon (megis ail drydar negeseuon), gall rhannu fersiwn Saesneg o'r wybodaeth honno, lle mae fersiwn Gymraeg ar gael, olygu eu bod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A yw'r safonau'n berthnasol i gynnwys statig a chynnwys dros dro a gyhoeddir ar gyfrifon corff ar y cyfryngau cymdeithasol?

4.11.17. Ydyn. Mae'r safonau hyn berthnasol i unrhyw gynnwys a gyhoeddir gan gorff ar eu cyfrifon.

4.11.18. Gall hyn gynnwys sicrhau bod deunydd parhaol sy'n ymddangos ar ei gyfrifon ar gael yn Gymraeg. Er enghraifft, drwy sicrhau bod testun y bywgraffiad ('bio') ar gyfrif Twitter ac Instagram neu'r testun ynghylch y cyfrif yn yr adran 'Gwybodaeth' ar Facebook ar gael yn Gymraeg.

4.11.19. Gall hyn hefyd gynnwys sicrhau bod deunydd dros dro sy'n ymddangos ar eu cyfrifon ar gael yn Gymraeg. Er enghraifft, gall gynnwys negeseuon a gyhoeddir drwy Instagram Story neu Facebook Story lle bydd y negeseuon hynny yn diflannu ar ôl cyfnod penodol o amser.

4.11.20. Byddai unrhyw glipiau fideo a sain a ddarperir yn berthnasol i safon 37 (gweler paragraff 4.11.13 uchod).

Mae rhan Gymraeg o negeseuon dwyieithog yn cael ei chuddio weithiau. Sut mae sicrhau nad yw hynny'n golygu bod y corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

4.11.21. Mewn rhai achosion, gall testun mewn negeseuon ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol ymddangos mewn ffenestri sy'n gyfyngedig o ran maint. Gall hyn olygu nad oes modd i berson weld rhan olaf neges nes ei fod yn clicio dolen ychwanegol.

4.11.22. Gall corff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau nad yw'n anoddach gweld fersiwn Gymraeg o neges o'i gymharu â fersiwn Saesneg o'r un neges. Er enghraifft, gall corff sicrhau nad oes rhaid cymryd camau pellach, megis sgrolio lawr sgrin am yn hirach, neu glicio dolen ychwanegol, i ddod o hyd i'r fersiwn Gymraeg. Gall corff ddewis gosod negeseuon Cymraeg uwchben neu i'r chwith o negeseuon Saesneg er mwyn osgoi hynny.

A yw 'tagiau' a 'hashnodau' yn berthnasol i'r safonau hyn?

4.11.23. Ydyn, gallant fod yn ystyriaeth er mwyn sicrhau nad yw corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

4.11.24. Os yw corff yn tagio neu'n sôn am berson arall ('mention') mewn neges, gall sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod fersiwn Gymraeg y neges honno yn tagio neu'n sôn am gyfrif Cymraeg y person hwnnw (os oes un ar gael). Er enghraifft, os yw corff yn trydar yn Gymraeg am berson arall ac yn sôn am y person hwnnw drwy dagio enw defnyddiwr y person o fewn y neges, gall sicrhau ei fod yn tagio enw cyfrif Cymraeg y person hwnnw yn hytrach na'i gyfrif Saesneg cyfatebol (os yw'n gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân).

4.11.25. Os yw corff yn creu hashnodau ar gyfer neges, gall sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ddefnyddio hashnodau Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer negeseuon Cymraeg.

4.11.26. Os yw corff yn defnyddio hashnodau a grëwyd gan bersonau eraill mewn neges, gall sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ddefnyddio fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o'r hashnodau hynny (lle mae rhai yn bodoli) ar gyfer negeseuon Cymraeg.

Mae negeseuon gwahanol yn ymddangos ar gyfrifon corff yn ddibynnol ar y gynulleidfa. Sut mae sicrhau bod y corff yn cydymffurfio â'r gofynion yn y sefyllfa hon?

4.11.27. Mae rhai platfformau cyfryngau cymdeithasol yn galluogi cyrff i deilwra negeseuon fel bod gwahanol negeseuon yn ymddangos ar gyfrifon gwahanol bersonau. Gall hynny fod yn seiliedig ar ba iaith y mae'r person wedi'i gosod fel iaith y rhyngwyneb ar y platfform hwnnw (e.e. drwy gorff yn defnyddio'r teclyn 'post in multiple languages' ar Facebook).

4.11.28. Yn y sefyllfa hon, gall corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod negeseuon sy'n ymddangos ar gyfrif personau yn ymddangos yn Gymraeg, waeth beth fo iaith rhyngwyneb y person hwnnw.

Oes rhaid i gorff sicrhau bod eu henwau defnyddiwr ac enw eu cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg?

4.11.29. Gall corff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol drwy sicrhau bod eu henwau defnyddiwr ('handle') ac enwau eu cyfrifon ('display name') ar gael yn Gymraeg.

4.11.30. Gall hynny ddigwydd drwy ddefnyddio un o'r canlynol:

- enw defnyddiwr ac enw cyfrif Cymraeg yn unig ar gyfrif dwyieithog
- enw defnyddiwr ac enw cyfrif dwyieithog ar gyfrif dwyieithog; neu drwy

- weithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân fel y nodir ym mharagraff 4.11.7 gydag enw defnyddiwr ac enw cyfrif Cymraeg neu ddwyieithog.

4.12 Peiriannau hunanwasanaeth [safon 60]

Beth yw'r gofynion?

4.12.1. Rhaid i gorff sicrhau bod pob peiriant hunanwasanaeth sydd ganddo yn gweithio'n llawn yn Gymraeg. Hefyd, rhaid i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.

Beth yw ystyr 'peiriant hunanwasanaeth'?

4.12.2. Mae 'peiriant hunanwasanaeth' yn cynnwys unrhyw beiriant sydd ar gael i bersonau wasanaethu eu hunain.

4.12.3. Mae ystyr llythrennol arferol 'peiriant' yn cyfeirio at ddyfais, teclyn neu offeryn a ddefnyddir i gyflawni rhyw dasg. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 39 y rheoliadau hefyd yn cyfeirio at beiriannau hunanwasanaeth fel rhai sy'n gallu cynnwys deunydd sy'n 'ymddangos ar sgrin'. Felly, gall peiriannau hunanwasanaeth fod yn rhai sy'n cynnwys sgriniau, megis peiriannau talu am docyn parcio, peiriannau mewngofnodi neu allgofnodi mewn llyfrgell ar gyfer eitemau a fenthycir, peiriannau mewngofnodi apwyntiadau, llungopiwyr mewn llyfrgelloedd a pheiriannau bwyd a diod.

4.12.4. Hefyd, gall rhai peiriannau hunanwasanaeth nad ydynt yn cynnwys sgriniau ddod o dan gwmpas y safon hon. Gall enghreifftiau o beiriannau o'r fath gynnwys tywysydd sain hunanwasanaeth i'w ddefnyddio mewn llyfrgell neu amgueddfa neu beiriant sy'n rhoi cyfarwyddiadau sain.

Beth yw ystyr y term 'peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg' yng nghyd-destun y safon hon?

4.12.5. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 39 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddiben safon 60 (peiriannau hunanwasanaeth), mae cyfeiriad at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar sgrin yr un pryd â deunydd Saesneg."

4.12.6. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- iaith y deunydd
- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- lleoliad ac amlygrwydd y deunydd

- pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi
- fformat cyhoeddi'r deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)
- cynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

4.12.7. Nid yw'r term yn golygu bod rhaid i gorff sicrhau bod deunydd Cymraeg yn ymddangos ar sgrin yr un pryd â'r deunydd Saesneg. Gall hyn olygu:

- y gall corff arddangos deunydd Cymraeg ar sgrin wahanol i'r sgrin sy'n arddangos y deunydd Saesneg, i'r graddau nad yw hynny'n golygu bod y corff yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu
- nad oes rhwystr i gorff arddangos deunydd Cymraeg a Saesneg ar yr un sgrin os yw'n dymuno (h.y. yn ddwyieithog).

4.12.8. Fodd bynnag, byddai gosod peiriannau hunanwasanaeth gyda'r Saesneg fel yr iaith ddiofyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hynny'n golygu mai dim ond ar ôl i ddefnyddiwr ddewis iaith y gall deunydd Cymraeg a Saesneg ymddangos ar sgriniau ar wahân.

4.12.9. Yn ymarferol felly, mae tair prif ffordd o sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran defnyddio peiriant hunanwasanaeth, sef:

- drwy gynnig dewis, wrth i rywun ddechrau defnyddio'r peiriant, pa iaith y dymunant ei defnyddio
- wrth i'r peiriant weithredu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, heb fod angen newid na dewis iaith, neu
- drwy osod y Gymraeg fel iaith ddiofyn y peiriant, gan alluogi personau i newid i'r Saesneg os dymunant.

Beth yw ystyr y term 'gweithio'n llawn yn Gymraeg'?

4.12.10. Mae'r term yn golygu bod corff yn sicrhau bod unrhyw beiriant hunanwasanaeth yn gweithio yn yr un modd neu gystal yn Gymraeg ag y mae yn Saesneg a hynny heb unrhyw gyfyngiadau neu wallau.

4.12.11. Gall hyn gynnwys sicrhau:

- bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei diweddaru ac nad yw'n cymryd yn hirach na'r fersiwn Saesneg
- bod systemau chwilio yn gweithio yn llawn yn Gymraeg
- bod y dechnoleg yn gweithio yn llawn yn Gymraeg (e.e. testun-i-leferydd)
- bod y fersiynau Cymraeg yn cynnwys yr un wybodaeth ag a geir ar fersiynau Saesneg
- nad yw dolenni wedi torri
- nad oes namau yn ymddangos ar y fersiynau Cymraeg.

Beth os yw'r peiriant yn cynhyrchu dogfennau? Pa safonau sy'n berthnasol?

4.12.12. Bydd rhai peiriannau hunanwasanaeth yn cynhyrchu dogfennau, er enghraifft tocyn parcio, tocyn i ddigwyddiad, neu ffurflenni neu daflenni gwybodaeth. Y safonau ynghylch dogfennau sy'n berthnasol i'r dogfennau hyn.

Beth os oes arwyddion ar y peiriant? Pa safonau sy'n berthnasol?

4.12.13. Bydd arwyddion yn gysylltiedig â rhai peiriannau hunanwasanaeth, er enghraifft yn tynnu sylw at y peiriant neu'n cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer ei ddefnyddio. Y safonau ynghylch arwyddion sy'n berthnasol i'r arwyddion hyn.

4.13 Arwyddion a arddangosir gan gorff [safonau 61-63]

Beth yw'r gofynion?

4.13.1. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw destun ar arwyddion newydd a osodir ganddynt, neu ar arwyddion a gaiff eu hadnewyddu ganddynt, yn Gymraeg. Rhaid iddynt hefyd sicrhau na chaiff y testun Cymraeg ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion hynny. Mae'r safonau hefyd yn gosod gofynion ynghylch cywirdeb a safle'r Gymraeg ar arwyddion.

4.13.2. Nid yw'r safonau hyn fel arfer yn berthnasol i arwydd o fewn y gweithle, lle nad yw'r arwydd hwnnw i'w weld gan bersonau y tu allan i'r corff. Dylid cyfeirio at y safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff (safonau 141-143) ar gyfer arwyddion felly.

4.13.3. Byddai corff yn 'gosod arwydd newydd' fel arfer pan fydd yn ei roi mewn safle lle na fu arwydd o'r fath o'r blaen. Byddai corff yn 'adnewyddu arwydd' os yw'n gwneud unrhyw newid i'r arwydd hwnnw.

4.13.4. Mae'r safon hefyd yn berthnasol pan fo corff yn gosod arwydd mewn safle neu leoliad newydd.

4.13.5. Mewn perthynas ag arwyddion electronig, byddai arwydd newydd yn cael ei osod bob tro y mae testun yn ymddangos o'r newydd ar arwydd electronig.

Safon 61

4.13.6. Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid iddo sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn Gymraeg. Gall corff unai arddangos y testun Cymraeg ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân. Rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwydd dan sylw.

4.13.7. Mae'r term 'peidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg' yng nghyswllt y safon hon yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- golwg y testun (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)

- maint y testun
- lleoliad ac amlygrwydd y testun mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff y testun ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- fformat cyhoeddi unrhyw destun
- safon ac ansawdd y testun
- eglurder a chywirdeb y testun (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)
- cynnwys y testun (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

Safon 62

4.13.8. Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid iddo sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

4.13.9. Os yw corff yn rhoi'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg cyfatebol ar yr un arwydd, byddai'r testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff ei osod ar y chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol, a hynny ar sail yr arfer safonol o ddarllen o'r chwith i'r dde ac o frig testun i'w waelod.

4.13.10. Os yw corff yn gosod arwydd ar ffordd drwy beintio'r arwydd hwnnw ar y ffordd (e.e. Araf/Slow) a lle bo'r testun Cymraeg a Saesneg cyfatebol gyda'i gilydd (ac nid ar wahân), byddai'r testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff ei osod ar y chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol.

4.13.11. Os yw corff yn rhoi'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg cyfatebol ar arwyddion ar wahân, byddai testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff yr arwydd â'r testun Cymraeg ei osod:

- ar y chwith neu uwchben yr arwydd â'r testun Saesneg cyfatebol, ac
- o flaen yr arwydd â'r testun Saesneg cyfatebol.

4.13.12. Er enghraifft, byddai gosod arwydd Cymraeg o flaen arwydd Saesneg ar ochr ffordd yn debygol o arwain at berson yn cyrraedd a darllen arwydd Cymraeg gyntaf fel arfer, a hynny ar sail yr arfer o ddarllen arwyddion unigol yn eu trefn.

Safon 63

4.13.13. Rhaid i gorff sicrhau bod testun Cymraeg ar ei arwyddion (boed y rheiny yn arwyddion a gafodd eu gosod cyn neu ar ôl y diwrnod gosod) yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Gall hynny ymwneud â:

- chynnwys yr arwydd
- sillafiad y testun
- cystrawen y testun, neu'r
- geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir.

Beth yw 'arwydd dros dro'?

4.13.14. Mae'r safonau hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw arwyddion dros dro a gaiff eu gosod neu'u hadnewyddu. Pan fo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon 61 felly, rhaid i unrhyw arwydd dros dro a gaiff ei osod o'r newydd neu'i adnewyddu gael ei arddangos yn Gymraeg. Pan fo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon 62, rhaid gosod y Gymraeg yn gyntaf ar yr arwydd hwnnw hefyd.

4.13.15. Mae 'arwydd dros dro' yn cynnwys unrhyw arwydd na fwriedir iddo aros yn barhaol yn y man lle caiff ei osod. Gall enghreifftiau o'r fath gynnwys:

- arwydd a osodir i roi gwybod am waith ffordd neu rybuddio am ddamwain
- arwydd sy'n rhoi gwybod nad yw peiriant yn gweithio, neu
- arwydd ffordd sy'n cael ei osod i roi cyfarwyddiadau i leoliad digwyddiad a gynhelir am gyfnod penodol.

Os nad oes enw Cymraeg wedi'i gofnodi ar gyfer stryd yn unol â Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925, a yw'r safonau hyn yn golygu bod rhaid cyfieithu enw'r stryd i'r Gymraeg er mwyn ei arddangos yn Gymraeg ar arwydd?

4.13.16. Nac ydy. Nid yw'r safonau hyn yn gosod dyletswydd ar gorff i gyfieithu enw stryd i'r Gymraeg er mwyn ei arddangos yn Gymraeg ar arwydd.

4.13.17. Fodd bynnag, os oes enw Cymraeg neu ddwyieithog o stryd wedi'i bennu a'i gofnodi yn unol â Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925[38], rhaid i gorff (awdurdod lleol yn y cyd-destun hwn) sicrhau bod yr enw Cymraeg yn cael ei arddangos ar yr arwydd pan fo'r arwydd yn cyfeirio at y stryd honno. Rhaid sicrhau bod yr enw Saesneg yn cael ei arddangos hefyd (os oes enw Saesneg wedi'i bennu a'i gofnodi) yn unol â gofynion y Ddeddf honno.

4.13.18. Er nad yw'r safonau hyn yn gosod dyletswydd penodol ar gorff i bennu enw Cymraeg neu ddwyieithog ar stryd er mwyn gallu ei arddangos yn Gymraeg ar arwydd, mae hawl statudol gan gynghorau sir a bwrdeistref sirol i wneud y canlynol yn unol â'r Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925:

- newid enw stryd i'r Gymraeg os nad oedd enw wedi cael ei roi ar y stryd o'r blaen
- rhoi enw newydd Cymraeg ar stryd os nad oedd enw wedi cael ei roi ar y stryd o'r blaen; a
- gwrthwynebu cais gan ymgeisydd sy'n awgrymu enw newydd i stryd nad yw'n Gymraeg.

4.13.19. Mae gan gynghorau sir a bwrdeistref sirol yr hawl i newid enwau strydoedd (dwyieithog neu Saesneg) y maen nhw'n gyfrifol am eu henwi i rai uniaith Gymraeg. Fodd bynnag, os yw'n gwneud hynny, bydd rhaid eu cofnodi'n uniaith

[38] Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Geo5/15-16/71

Gymraeg gyda'r asiantaethau perthnasol a sicrhau bod unrhyw arwyddion yn arddangos yr enw'n uniaith Gymraeg ar ôl i'r enw gael ei gofrestru.

4.13.20. Felly, gall corff ddefnyddio'r darpariaethau hyn yn unol â'r Ddeddf Iechyd Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod modd iddo, yn y pen draw, arddangos enw stryd yn Gymraeg ar arwydd (os nad oes enw Cymraeg ar stryd eisoes yn bodoli).

Beth am enwau priod eraill sy'n cael eu harddangos ar arwydd? Oes rhaid sicrhau bod yr enwau hynny yn cael eu harddangos yn Gymraeg?

4.13.21. Oes. Rhaid i gorff arddangos yr enw priod yn Gymraeg os yw'n arddangos testun Cymraeg sy'n cyfeirio at yr enw hwnnw, i'r graddau:

- bod enw Cymraeg yn bodoli ac wedi'i sefydlu ar gyfer yr hyn y bwriedir cyfeirio ato ar yr arwydd
- nad oes deddfiad arall yn atal corff rhag defnyddio enw priod Cymraeg ar arwydd, ac
- nad oes deddfiad yn atal corff rhag defnyddio'r enw priod sydd wedi'i sillafu yn y modd y bwriedir ei arddangos ar yr arwydd.

4.13.22. Gall hyn gynnwys arddangos enwau ar:

- aneddiadau (pentrefi, trefi a dinasoedd)
- strydoedd ac ystadau
- adeiladau neu nodweddion adeiledig eraill (e.e. pont)
- sefydliadau
- ardaloedd (e.e. ardaloedd môr neu ardaloedd cadwraeth)
- nodweddion tirweddol (e.e. ynysoedd, mynyddoedd, bryniau, pentiroedd, creigiau, traethau, coedwigoedd neu afonydd), neu
- enwau lleoedd eraill.

4.13.23. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Gall y Comisiynydd gynghori cyrff ar ffurfiau safonol enwau aneddiadau (sef pentrefi, trefi a dinasoedd) yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi'r argymhellion hyn mewn cronfa ddata chwiliadwy ar-lein a gellid llwytho'r rhestrau i lawr o dan drwydded agored: Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.[39]

4.13.24. Mae'r Comisiynydd yn dilyn canllawiau safoni penodol wrth lunio'i argymhellion: Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru.[40] Mae'r Canllawiau hyn yn benodol ar gyfer enwau aneddiadau. Nid ydynt o reidrwydd yn berthnasol i enwau tai na nodweddion tirweddol eraill. Fodd bynnag, ceir ynddynt lawer o egwyddorion gwerthfawr y gellid eu cymhwyso wrth drin yr enwau hyn neu wrth fathu enwau ar ddatblygiadau newydd, er enghraifft.

[39] Gweler Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar wefan y Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Chwilio.aspx

[40] Gweler Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru ar wefan y Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Cyd_destun.aspx

4.13.25. Cyn belled â bod dim deddfiad arall yn gofyn bod rhaid defnyddio ffurf arall ar enw Cymraeg ar arwydd, gall corff ddefnyddio'r gwasanaeth ymgynghorol hwn er mwyn sicrhau ei fod yn defnyddio ffurfiau Cymraeg safonol ar arwyddion.

A oes unrhyw eithriadau?

4.13.26. Oes. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraffau 25 a 45 y rheoliadau yn nodi:

> "Nid yw'n ofynnol i gorff lunio, arddangos nac anfon deunydd yn Gymraeg i'r graddau y mae deddfiad arall wedi pennu geiriad dogfen, arwydd neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw.
>
> At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan un o'r canlynol—
>
> (a) Deddf Seneddol; neu
>
> (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru."

4.13.27. Mae'r eithriad hwn yn cydnabod yr egwyddor os yw deddfiad yn pennu geiriad, mae'n rhaid i'r geiriad yna gael ei ddefnyddio p'un ai yw'r geiriad yn Gymraeg n unig, yn Saesneg yn unig neu yn Gymraeg a'n Saesneg. Nid yw'r rheoliadau yn effeithio ar yr egwyddor honno.

A yw hunaniaeth gorfforaethol corff sy'n ymddangos ar arwyddion yn berthnasol i safonau 61–63?

4.13.28. Ydy. Lle mae hunaniaeth gorfforaethol corff yn ymddangos ar arwydd, rhaid cydymffurfio (yn ddarostyngedig i'r hysbysiad cydymffurfio) â safon 83 yn ogystal â safonau 61–63. Nid yw hynny yn golygu fodd bynnag bod angen i destun Cymraeg ar hunaniaeth gorfforaethol gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

4.14 Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [safonau 64-68]

Beth yw'r gofynion?

4.14.1. Mae'r safonau canlynol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg, ar gael yn Gymraeg hefyd.

4.14.2. Mae'r safonau hefyd yn gosod gofynion ynghylch arddangos arwydd a gwisgo bathodynnau ar dderbynfeydd er mwyn ei gwneud yn glir bod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa a bod staff ar gael sy'n medru darparu gwasanaeth Cymraeg.

Safon 64

4.14.3. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg, ar gael yn Gymraeg hefyd.

4.14.4. Rhaid iddo hefyd sicrhau na chaiff person sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.

4.14.5. Gall hyn olygu, ymysg pethau eraill, sicrhau na chaiff y person ei drin yn llai ffafriol o ran:

- y cynnig rhagweithiol a roddir i'r person
- hygyrchedd y gwasanaeth a roddir i'r person
- argaeledd y gwasanaeth a roddir i'r person
- y camau y mae'n rhaid i'r person eu cymryd i dderbyn y gwasanaeth
- safon, ansawdd a chysondeb y gwasanaeth a roddir i'r person
- y mathau o wasanaethau derbynfa a roddir i'r person
- lleoliad ac amlygrwydd y gwasanaeth a roddir i'r person
- pryd a sut y caiff y gwasanaeth ei gynnig, ei ddarparu neu ei roi ar gael i'r person.

4.14.6. Wrth sicrhau bod gwasanaeth derbynfa ar gael yn Gymraeg, mae cyfrifoldeb ar gorff i gynnig gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn rhagweithiol yn hytrach na disgwyl i ymwelydd wneud cais amdano. Disgwylir hefyd bod y gwasanaeth Cymraeg ar gael yn ddi-rwystr ac nad oes rhaid troi at y Saesneg er mwyn derbyn y gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg.

Safon 65

4.14.7. Os yw corff yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i berson ymlaen llaw a fydd yn golygu y bydd y person hwnnw'n dod i dderbynfa'r corff, rhaid iddo ofyn i'r person a yw'n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg.

4.14.8. Nid oes rhaid i'r corff ofyn i'r person a yw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg os yw'r corff eisoes yn gwybod hynny. Er enghraifft, gall corff wybod am ddymuniad y person eisoes os:

- yw'r person wedi rhoi gwybod yn rhagweithiol ei fod yn dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg ai peidio, neu os
- oes gan y corff brofiad o fod yn ymwneud â pherson yn y gorffennol lle mae wedi mynegi ei ddymuniad.[41]

Safon 65A

4.14.9. Rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg i berson os yw'r corff wedi trefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw i berson, a:

- bod y person wedi ei hysbysu ymlaen llaw ei fod yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, neu
- bod y corff eisoes yn gwybod bod y person yn dymuno cael y gwasanaeth yn Gymraeg.

[41] Dylai corff fod yn ymwybodol o ofynion cyfraith diogelu data os yw'n dewis gweithredu yn unol ag un neu ragor o'r dulliau hyn.

4.14.10. Er enghraifft, byddai'r safon hon yn berthnasol mewn sefyllfa pan fo corff yn trefnu cyfarfod gyda pherson a fyddai'n golygu bod y person yn dod i dderbynfa'r corff yn gyntaf.

Safon 66

4.14.11. Os nad oes gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg ar gael gan y corff, rhaid iddo sicrhau bod gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael dros ffôn yn ei dderbynfa. Gall hynny gynnwys rhoi gwasanaeth dros ffôn traddodiadol neu dros fideo gynadledda.

Safon 67

4.14.12. Rhaid i gorff arddangos arwydd yn ei dderbynfa sy'n datgan bod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn ei dderbynfa. Rhaid i gorff arddangos yr arwydd hwnnw yn Gymraeg.

4.14.13. Nid oes rhaid i gorff gynnwys datganiad sy'n cyfleu'r uchod air am air â geiriad y safon. Fodd bynnag, disgwylir i'r datganiad hwnnw fod yn ddigon clir ac eglur fel bod personau yn llwyr ymwybodol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn nerbynfa'r corff. Gellid arddangos arwydd gyda geiriad megis "Mae croeso i chi siarad Cymraeg yma" neu "Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa" er mwyn cydymffurfio â'r safon.

4.14.14. Hefyd, gellir arddangos logo Iaith Gwaith y Comisiynydd i gyfleu bod y corff yn croesawu personau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. Mae gan y Comisiynydd boster sy'n cynnwys y logo y gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan y Comisiynydd am ddim[42].

Safon 68

4.14.15. Rhaid i gorff sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.

4.14.16. Rhaid i'r bathodyn ei gwneud yn eglur bod yr aelod staff sy'n ei wisgo yn gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg. Mae bathodynnau Iaith Gwaith y Comisiynydd yn enghraifft o fathodyn y gall aelodau staff y dderbynfa ei wisgo er mwyn cydymffurfio â'r safon. Hefyd, gall bathodyn gynnwys bathodyn ar gortyn gwddf neu un sydd wedi'i wnïo ar ddillad gwaith.

[42] Poster Iaith Gwaith Comisiynydd y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Adroddiadau/Cyhoeddiadau/Pages/ManylionCyhoeddiad.aspx?PublicationId=726261d0-fe3a-440f-80ac-35e738a2c7a1&PublicationSearchTerm=poster&Year=2013

Beth yw 'derbynfa'?

4.14.17. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 40 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau 64 i 68 (derbyn ymwelwyr)—
>
> (a) ystyr "derbynfa" yw ardal yn swyddfeydd a lleoliadau gwasanaeth corff lle y mae staff ar gael at ddiben croesawu personau;
>
> (b) ystyr "gwasanaeth derbynfa" yw gwasanaeth croesawu personau i swyddfeydd neu leoliadau gwasanaeth y corff gan staff sydd ar gael at y diben hwnnw;
>
> (c) mae "lleoliadau gwasanaeth" yn cynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, canolfannau celfyddydau, canolfannau cyngor a chanolfannau galw heibio."

4.14.18. Felly, gall unrhyw ardal yn swyddfeydd neu leoliadau gwasanaeth corff lle mae staff ar gael at ddiben croesawu personau, ddod o dan y dehongliad o 'dderbynfa'. Nid yw felly yn gyfyngedig i dderbynfa yn yr ystyr draddodiadol ar ffurf desg ym mlaen yr adeilad. Yn yr un modd, gall unrhyw aelod o staff gynnig gwasanaeth derbynfa, ac nid dim ond staff sydd ar gael at y diben hwnnw yn unig.

4.14.19. Ystyrir bod 'croesawu personau' yn golygu mwy na chyfarch a chanfod dewis iaith person yn unig. Disgwylir i bersonau sy'n ymweld â'r dderbynfa allu derbyn gwasanaeth derbynfa fel y bo modd iddynt gynnal sgwrs a chael ymatebion i ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddi-rwystr ac heb orfod troi at y Saesneg.

4.15 Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [safonau 69-70]

Beth yw'r gofynion?

4.15.1. Mae'r safonau canlynol yn ymwneud â chorff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.

Safon 69

4.15.2. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw hysbysiad swyddogol y mae'n ei gyhoeddi neu ei arddangos yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg . Rhaid i gorff hefyd sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn cael ei thrin yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.

4.15.3. Mae'r term '[p]eidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohono' yng nghyswllt y safon hon yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- golwg yr hysbysiad (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
- maint yr hysbysiad
- lleoliad ac amlygrwydd yr hysbysiad mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos

- fformat cyhoeddi unrhyw hysbysiad
- trefn iaith yr hysbysiad
- safon ac ansawdd yr hysbysiad
- eglurder a chywirdeb yr hysbysiad (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys yr hysbysiad (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

Safon 70

4.15.4. Os yw corff yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal a'r testun Saesneg, rhaid iddo sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

4.15.5. Byddai testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff ei osod ar y chwith neu uwchben y testun Saesneg cyfatebol, a hynny ar sail yr arfer safonol o ddarllen o'r chwith i'r dde ac o frig testun i'w waelod.

Beth yw 'hysbysiad swyddogol'?

4.15.6. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraffau 41 a 45 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau 7, 69 a 70 ystyr "hysbysiad swyddogol" yw unrhyw hysbysiad y mae corff yn ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgareddau cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff, ond nid yw'n cynnwys hysbysiadau swyddogol a ragnodir gan ddeddfiad.
>
> At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan un o'r canlynol—
>
> (a Deddf Seneddol; neu
>
> (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru."

4.15.7. Gall hysbysiad swyddogol gynnwys hysbysiad sy'n rhoi gwybod i bersonau:

- am amseroedd agor swyddfa corff neu newid mewn amseroedd agor swyddfa corff
- bod cwrs neu seminar yn cael ei gynnal neu ei chynnal neu'n dod i ben
- bod gwasanaeth newydd megis trefn ailgylchu newydd yn cychwyn, a
- bod prisiau gwasanaeth megis tâl aelodaeth neu gostau parcio yn cynyddu.

Beth yw ystyr y term '...a ragnodir gan ddeddfiad'?

4.15.8. Mae'r term yn cyfeirio at hysbysiadau swyddogol sydd hefyd yn hysbysiadau statudol. Er enghraifft, hysbysiadau ceisiadau cynllunio neu weithfeydd sy'n cael eu cyhoeddi yn y wasg sy'n rhoi gwybod am weithgareddau neu newidiadau i

weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff. Golyga hynny nad yw'r mathau hyn o hysbysiadau'n dod o dan ofynion safon 70.

4.16 Corff yn dyfarnu grantiau [safonau 71-75]

Beth yw'r gofynion?

4.16.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chorff yn dyfarnu grantiau i bersonau ac yn gosod gofynion ynghylch y broses honno.

4.16.2. Mae'r term 'ymgeisydd' yng nghyswllt y safonau hyn yn cynnwys unrhyw berson sy'n ymgeisio am y grant dan sylw.

Safon 71

4.16.3. Rhaid i gorff gyhoeddi unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â cheisiadau am grant yn Gymraeg a pheidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. Gall hyn gynnwys:

- y ffurflen gais
- ffurflen datgan diddordeb
- nodiadau cyfarwyddyd
- dogfennau sy'n cynnwys telerau ac amodau'r grant, neu
- ddogfennau sy'n cynnwys cwestiynau cyffredin neu wybodaeth am y broses ymgeisio.

4.16.4. Mae'r term '[p]eidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohonynt' yng nghyswllt y safon hon yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- golwg y ddogfen (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun)
- maint y ddogfen
- lleoliad ac amlygrwydd y ddogfen mewn unrhyw fan cyhoeddus
- pryd a sut y caiff y ddogfen ei chyhoeddi, ei darparu neu ei harddangos
- fformat cyhoeddi unrhyw ddogfen
- trefn iaith y ddogfen
- safon ac ansawdd y ddogfen
- eglurder a chywirdeb y ddogfen (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)
- cynnwys y ddogfen (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

Safon 72

4.16.5. Os yw corff yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid iddo ddatgan yn y gwahoddiad bod modd i ymgeisydd gyflwyno cais yn Gymraeg ac na chaiff cais o'r fath ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

4.16.6. Nid oes rhaid i gorff gynnwys datganiad sy'n cyfleu'r uchod air am air â geiriad y safon. Fodd bynnag, disgwylir i'r datganiad hwnnw fod yn ddigon clir ac eglur fel bod personau yn llwyr ymwybodol o ymrwymiad ac ymroddiad y corff i dderbyn

ceisiadau yn Gymraeg ac i beidio a thrin ceisiadau felly yn llai ffafriol na cheisiadau a dderbynnir yn Saesneg.

Safon 72A

4.16.7. Rhaid i gorff beidio â thrin cais am grant a gyflwynwyd yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a gyflwynwyd yn Saesneg. Mae'r safon ei hun yn cynnwys enghreifftiau penodol o rai cyd-destunau sy'n berthnasol i'r safon:

> "[...] gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau."

4.16.8. Rhaid felly bod y dyddiad cau yr un fath ar gyfer ceisiadau Cymraeg a Saesneg ac nad oes oedi o ran rhoi gwybod am benderfyniad cais a wnaed yn Gymraeg o'i gymharu ag amseriad rhoi gwybod am benderfyniad cais a wnaed yn Saesneg.

4.16.9. Mae'r term '[p]eidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg' yng nghyswllt y safon hon hefyd yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y sylw a'r ystyriaeth y mae'r corff yn eu rhoi i'r cais.

Safon 73

4.16.10. Os yw corff yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod rhaid i'r corff gyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'u hasesiad o'r cais, rhaid iddo gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid iddo gynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Safon 74

4.16.11. Os yw corff yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod rhaid i'r corff gyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'i asesiad o'r cais, rhaid iddo gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfweliad. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweliad (oni bai bod y corff yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Safon 75

4.16.12. Os yw corff yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw ei benderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid iddo roi gwybod i'r ymgeisydd yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.

4.16.13. Rhaid i gorff wneud hynny mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wneir ar unrhyw gam o'r broses mewn perthynas â chais am grant. Nid yw gofynion y safon hon yn gyfyngedig i'r penderfyniad terfynol a wneir ar ddiwedd y broses yn unig. Gall gynnwys penderfyniad a wneir megis:

- bod y cais yn ddilys neu'n annilys
- bod yr ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus
- bod y cais wedi llwyddo neu wedi methu â chyrraedd rhestr fer, neu
- unrhyw benderfyniad arall a wneir yn ystod y broses.

4.16.14. Mae gofynion y safon hon yn cwmpasu unrhyw ddull y bydd corff yn ei ddefnyddio i roi gwybod i ymgeisydd beth yw ei benderfyniad. Gall hyn gynnwys rhoi gwybod i ymgeiswyr ar lafar, wyneb-yn-wyneb neu'n ysgrifenedig.

Beth yw 'grant'?

4.16.15. Fel arfer, mae 'grant' yn drosglwyddiad parhaol o arian i berson nad oes rhaid ei dalu'n ôl neu ei ddychwelyd.

4.16.16. Mae'r term 'grant' yn cynnwys unrhyw gymorth y mae corff yn ei roi i berson at brosiect neu ddiben penodol. Gan amlaf, dim ond rhan o gyfanswm costau y mae grant yn talu amdano. Maent fel arfer yn cael eu defnyddio yn unol â thelerau ac amodau penodol.

4.16.17. Gall y term gynnwys cymorth ariannol neu fudd-dal ond nid yw'n cynnwys swm o arian sy'n cael ei roi i berson drwy broses gaffael.

A oes trothwy neu isafswm ar gyfer y grant cyn bod y safonau'n gymwys?

4.16.18. Nac oes. Nid yw'r rheoliadau yn darparu trothwy nac isafswm ar gyfer y grant y mae'r cais yn ymdrin ag ef. Mae'r safonau'n berthnasol i'r holl geisiadau am grant y mae corff yn eu cyhoeddi.

4.17 Corff yn dyfarnu contractau [safonau 76-80]

Beth yw'r gofynion?

4.17.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chorff yn dyfarnu contractau i bersonau ac yn gosod gofynion ynghylch y broses honno.

Safon 76

4.17.2. Rhaid i gorff gyhoeddi unrhyw wahoddiadau i dendro yn Gymraeg a pheidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r tendrau hynny yn llai ffafriol na thendrau a gyflwynir yn Saesneg.

4.17.3. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 42 y rheoliadau yn rhoi arweiniad pellach ynghylch y safon hon, ac yn datgan:

> "At ddibenion safon 76 (gwahoddiad i dendro)—
>
> (1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.
>
> (2) Mae cyfeiriad at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
>
> (b) maint y deunydd;
>
> (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
>
> (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
>
> (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd;
>
> ond ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy beidio â chyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd."

4.17.4. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

Safon 77

4.17.5. Rhaid i gorff ddatgan mewn gwahoddiad i dendro bod modd i dendrwr gyflwyno tendr yn Gymraeg ac na chaiff tendr o'r fath ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. Dylid nodi y gall hyn gynnwys gwahoddiad i dendro yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

4.17.6. Nid oes rhaid i gorff gynnwys datganiad sy'n cyfleu'r uchod air am air â geiriad y safon. Fodd bynnag, disgwylir i'r datganiad hwnnw fod yn ddigon clir ac eglur fel bod personau yn llwyr ymwybodol o ymrwymiad ac ymroddiad y corff i dderbyn tendrau yn Gymraeg ac i beidio â thrin tendrau felly yn llai ffafriol na thendrau a dderbynnir yn Saesneg.

Safon 77A

4.17.7. Rhaid i gorff beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynwyd yn Saesneg. Mae'r safon ei hun yn cynnwys enghreifftiau penodol o rai cyd-destunau sy'n berthnasol i'r safon:

> "[...] gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau."

4.17.8. Rhaid bod y dyddiad cau yr un fath ar gyfer tendrau Cymraeg a Saesneg ac nad oes oedi yn amseriad rhoi gwybod am benderfyniad tendr a wnaed yn Gymraeg o'i gymharu ag amseriad rhoi gwybod am benderfyniad tendr a wnaed yn Saesneg.

4.17.9. Mae'r term '[p]eidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg' yng nghyswllt y safon hon hefyd yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y sylw a'r ystyriaeth y mae'r corff yn eu rhoi i'r tendr hwnnw.

Safon 78

4.17.10. Os yw corff yn cynnal cyfweliad fel rhan o'r asesiad o dendr, rhaid iddo gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg os gwnaed y tendr yn Gymraeg. Os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, rhaid iddo gynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Safon 79

4.17.11. Os yw corff yn cynnal cyfweliad fel rhan o'r asesiad o dendr, rhaid iddo gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfweliad os gwnaed y tendr yn Gymraeg. Os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, rhaid iddo ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i alluogi tendrwr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, os nad oes modd gwneud hynny heb wasanaeth cyfieithu am nad yw pob aelod sy'n bresennol yn y cyfweliad yn medru'r Gymraeg.

Safon 80

4.17.12. Rhaid i gorff roi gwybod i dendrwr a gyflwynodd dendr yn Gymraeg beth yw eu penderfyniad yn Gymraeg.

4.17.13. Rhaid i gorff wneud hynny mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wneir ar unrhyw gam o'r broses mewn perthynas â thendr. Nid yw gofynion y safon hon yn gyfyngedig i'r penderfyniad terfynol a wneir ar ddiwedd y broses yn unig. Gall gynnwys penderfyniad a wneir megis:

- bod y cais yn ddilys neu'n annilys
- bod yr ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus
- bod y cais wedi llwyddo neu wedi methu â chyrraedd rhestr fer, neu
- unrhyw benderfyniad arall a wneir yn ystod y broses.

4.17.14. Mae gofynion y safon hon yn cwmpasu unrhyw ddull y bydd corff yn ei ddefnyddio i roi gwybod i dendrwr beth yw eu penderfyniad. Gall hyn gynnwys rhoi gwybod i dendrwr ar lafar, wyneb-yn-wyneb neu'n ysgrifenedig.

Beth yw ystyr 'gwahoddiad i dendro'?

4.17.15. Mae'r term 'gwahoddiad i dendro' yn cynnwys pob dogfen yn y pecyn sy'n gwahodd ymgeiswyr i dendro am gontract. Mae hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- dolen at y dogfennau caffael
- y dogfennau caffael eu hunain
- amserlen y broses dendro a gwybodaeth gyswllt berthnasol, a
- gwybodaeth ynghylch y meini prawf y bydd y corff dyfarnu'n eu defnyddio.

4.17.16. Mae 'dogfennau caffael' yn cynnwys unrhyw ddogfen sydd wedi ei chynhyrchu neu y cyfeirir ati gan yr awdurdod contractio er mwyn disgrifio neu benderfynu ar elfennau o'r caffaeliad neu'r weithdrefn, gan gynnwys:

- yr hysbysiad contractio
- yr hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw a ddefnyddir fel dull o alw am gystadleuaeth
- y fanyleb dechnegol
- y ddogfen ddisgrifiadol
- yr amodau contract arfaethedig
- fformatau ar gyfer cyflwyno dogfennaeth gan ymgeiswyr a thendrwyr
- gwybodaeth am rwymedigaethau sy'n gymwys yn gyffredinol ac unrhyw ddogfennaeth ychwanegol[43].

A oes trothwy neu isafswm ariannol ar gyfer y contract cyn bod y safonau'n gymwys?

4.17.17. Nac oes. Nid yw'r rheoliadau yn darparu trothwy nac isafswm ariannol ar gyfer y contract y mae'r tendr yn ymdrin ag ef. Mae'r safonau yn berthnasol i bob gwahoddiad i dendro y mae'r corff yn ei gyhoeddi.

4.18 Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [safonau 81-82]

Beth yw'r gofynion?

4.18.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a gaiff eu darparu gan gorff.

Safon 81

4.18.2. Rhaid i gorff hybu a hysbysebu pob gwasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a gwneud hynny yn Gymraeg.

[43] Mae'r Comisiynydd yn dehongli yn unol â'r term "*procurement document*" a geir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/102/contents/made

Safon 82

4.18.3. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw gyfeiriad a wnaiff y corff at wasanaeth Saesneg hefyd yn cyfeirio at y gwasanaeth cyfatebol Cymraeg, os caiff gwasanaeth o'r fath ei ddarparu ganddo.

Beth yw ystyr 'gwasanaeth Cymraeg'?

4.18.4. Mae'r term 'gwasanaeth Cymraeg' yn ymestyn i unrhyw wasanaeth y mae corff yn ei ddarparu yn Gymraeg.

4.18.5. Gallai enghreifftiau o wasanaethau Cymraeg gynnwys y gweithgareddau a'r gwasanaethau a gaiff eu darparu yn unol â'r safonau cyflenwi gwasanaethau. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'r gwasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg yn unig nac ychwaith fod rhaid i'r gwasanaeth gael ei ddarparu ar wahân i'r gwasanaeth cyfatebol Saesneg.

4.18.6. Dylid nodi bod safonau 157 a 169 yn gosod gofynion sy'n ymwneud â sicrhau bod gan gorff drefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r safon hon drwy hybu a hwyluso defnyddio'r gwasanaethau a gynigir ganddo o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu.

Beth yw ystyr y termau 'hybu' a 'hysbysebu'?

4.18.7. Mae safon 81 yn gofyn bod rhaid i gorff hybu a hysbysebu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a gwneud hynny yn Gymraeg. Mae 'hybu' a 'hysbysebu' yn cynnwys corff yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol drwy roi sylw i'r ffaith bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac yn annog defnydd o'r gwasanaeth hwnnw.

4.18.8. Gallai'r canlynol fod yn enghreifftiau o gydymffurfio:

- corff yn rhoi gwybod yn rhagweithiol bod gwasanaeth y mae'n ei gynnig ar gael yn Gymraeg, lle nad oes gofyniad iddo wneud hynny o dan safon arall, a lle nad yw'r person wedi gofyn am y gwasanaeth yn Gymraeg
- corff yn annog personau drwy ddulliau megis y cyfryngau cymdeithasol neu ddeunydd hysbysebu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn neu ddefnyddio'u gwasanaethau
- corff yn gwneud defnydd o ddeunyddiau Iaith Gwaith sy'n amlygu pan fo gwasanaeth Cymraeg ar gael
- cyhoeddi a rhannu gwybodaeth am rai neu'r holl wasanaethau y mae'r corff yn eu cynnig yn Gymraeg drwy gyfrwng taflen, tudalen ar wefan, trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, arwyddion, hysbysiadau ac yn y blaen
- pan fo gan gorff gyfrif Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cyfateb i gyfrif Saesneg, y corff yn nodi'n glir ar y cyfrif Saesneg bod cyfrif Cymraeg hefyd ar gael a darparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg hwnnw ar y cyfrif Saesneg cyfatebol
- defnyddio rhagdudalen sblash, sef tudalen flaen sydd wedi ei chyhoeddi'n bwrpasol i gynnig dewis iaith yn eglur, er mwyn sicrhau bod y corff yn gwneud

y cynnig rhagweithiol i ddefnyddwyr ddefnyddio'r Gymraeg cyn iddynt gael mynediad at wasanaethau'r wefan neu beiriant hunanwasanaeth
- os oes cyfeiriadur staff ar gael yn gyhoeddus (e.e. ar wefan), amlygu pa staff sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg, drwy nodi hynny gyda logo Iaith Gwaith neu ddatganiad perthnasol
- defnyddio'r Gymraeg fel yr iaith ddiofyn wrth ddarparu gwasanaethau er mwyn hybu a rhoi amlygrwydd i'r gwasanaeth Cymraeg, lle nad oes gofyniad iddo wneud hynny o dan safon arall, a lle nad yw'r person wedi gofyn am y gwasanaeth yn Gymraeg (e.e. dechrau pob sgwrs ar lafar yn Gymraeg dros y ffôn neu wyneb yn wyneb)
- sicrhau bod taith y defnyddwyr i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg o'r un safon ac ansawdd â'r gwasanaeth Saesneg, neu
- sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn amlwg, yn hawdd i'w cyrchu, yn cael eu hyrwyddo'n rhagweithiol a'u bod ar gael yn gyson.

4.19 Hunaniaeth gorfforaethol corff [safon 83]

Beth yw'r gofynion?

4.19.1. Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio, diwygio neu gyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol.

Beth yw ystyr 'hunaniaeth gorfforaethol'?

4.19.2. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraffau 43 a 45 y rheoliadau yn nodi:

> "(1) At ddibenion safon 83, mae'r cyfeiriad at gorff yn cyflwyno ei "hunaniaeth gorfforaethol" yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ffordd y mae corff yn ei gyflwyno ei hun drwy ddatganiadau gweledol, yr enw neu'r enwau a ddefnyddir gan gorff, a'r brandio a'r sloganau a ddefnyddir gan gorff (er enghraifft, brandio a sloganau a argraffir ar ei bapur ysgrifennu).
>
> (2) Nid yw safon 83 yn berthnasol i'r graddau y mae deddfiad yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddefnyddio enw cyfreithiol.
>
> At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan un o'r canlynol—
>
> (a) Deddf Seneddol; neu
>
> (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru."

4.19.3. Mae "hunaniaeth gorfforaethol" yn cynnwys enw, cyfeiriad, logo, brand, slogan corfforaethol, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall o eiddo'r corff a ddefnyddir ar ddeunydd a nwyddau'r corff (megis ar bapur pennawd, proffil cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, cardiau busnes, bathodynnau adnabod, mewn arddangosfa ac ar gyhoeddiadau a dogfennau), ac mewn amgylchiadau eraill

megis ar arwyddion, cerbydau ac adeiladau. Gall hefyd gynnwys acronym o enw neu'r enwau a ddefnyddir gan gorff.

Sut mae'r safon hon yn cael ei heffeithio os yw deddfiad yn nodi bod rhaid defnyddio enw cyfreithiol y corff?

4.19.4. Nid oes rhaid i'r corff gydymffurfio â'r safon hon i'r graddau bod deddfiad yn nodi bod rhaid i gorff ddefnyddio enw cyfreithiol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gorff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio, diwygio neu gyflwyno eu hunaniaeth gorfforaethol, ac eithrio pan mae deddfiad yn nodi:

- bod rhaid i'r corff ddefnyddio enw cyfreithiol nad yw'n Gymraeg nac yn ddwyieithog, ac
- nad oes modd i'r corff ddefnyddio enw arall (yn Gymraeg) yn ogystal â'r enw cyfreithiol.

Beth yw ystyr y termau 'llunio', 'diwygio' a 'chyflwyno'?

4.19.5. Mae'r term 'llunio' yn cynnwys corff yn creu neu'n cynhyrchu ei hunaniaeth gorfforaethol.

4.19.6. Byddai corff yn 'diwygio' ei hunaniaeth gorfforaethol os yw'n gwneud unrhyw newid i'r hunaniaeth honno o'r diwrnod gosod ymlaen.

4.19.7. Byddai corff yn 'cyflwyno' ei hunaniaeth gorfforaethol os yw'n ei harddangos, yn ei chyhoeddi, neu ei rhoi ar gael neu ei chynnwys ar neu o fewn unrhyw ddeunydd.

4.19.8. Mae'r safon yn berthnasol i hunaniaeth gorfforaethol a gaiff ei llunio, ei diwygio neu ei chyflwyno ar unrhyw gyfrwng arall hefyd, megis arwydd, gwefan neu ddogfen. Bydd pob elfen arall o'r cyfryngau hyn yn ddarostyngedig i'r safonau perthnasol ar eu cyfer.

Beth yw ystyr y term 'peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg'?

4.19.9. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 29 y rheoliadau yn nodi:

> "Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg (ac eithrio safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau), 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol) a 76 (gwahoddiad i dendro)), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
>
> (b) maint y deunydd;
>
> (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
>
> (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
>
> (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd."

4.19.10. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- iaith y deunydd
- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)
- cynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir).

4.19.11. Gall hyn olygu bod corff yn sicrhau, ymysg materion eraill, ei fod yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eu hunaniaeth gorfforaethol yn Gymraeg.

4.19.12. Fodd bynnag, nid yw'r safon yn atal corff rhag medru darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o'i hunaniaeth gorfforaethol, i'r graddau nad yw fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4.19.13. Pan fo corff yn cyflwyno'i hunaniaeth gorfforaethol ar ddeunydd dwyieithog (hynny yw lle mae fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys yn yr un deunydd) ni fyddai corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth Gymraeg yn unig ar fersiwn Gymraeg y deunydd hwnnw a hunaniaeth Saesneg yn unig ar fersiwn Saesneg y deunydd.

4.19.14. Pan fo corff yn cyflwyno'i hunaniaeth gorfforaethol ar ddeunydd Cymraeg a/neu Saesneg ar wahân (hynny yw lle mae fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys ar ddeunyddiau gwahanol), rhaid i gorff gyflwyno'i hunaniaeth

gorfforaethol yn Gymraeg ar y fersiwn Saesneg yn ogystal â'r fersiwn Gymraeg er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4.20 Cyrsiau a gynigir gan gorff [safonau 84-86]

Beth yw'r gofynion?

4.20.1. Rhaid i gorff sicrhau bod cyrsiau addysg a gynigir i'r cyhoedd yn cael eu cynnig yn Gymraeg. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer asesu'r angen i unrhyw gwrs addysg a gaiff ei ddatblygu ar gyfer y cyhoedd gael ei gynnig yn Gymraeg a chyhoeddi'r asesiad hwnnw ar wefan y corff.

Safon 84

4.20.2. Os yw corff yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid iddo gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg.

Safon 85

4.20.3. Os yw corff yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, a bod y cwrs wedi ei anelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau, rhaid iddo gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg. Er enghraifft, gall hynny gynnwys cyrsiau addysg sydd wedi'u hanelu at blant oedran ysgol gynradd neu uwchradd.

Safon 86

4.20.4. Os yw corff yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid iddo asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg ynghyd â sicrhau bod yr asesiad wedi'i gyhoeddi ar ei wefan.

Beth yw ystyr y term 'cwrs addysg'?

4.20.5. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraffau 44 a 45 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr "cwrs addysg" yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chyrsiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.
>
> At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan un o'r canlynol —
>
> (a) Deddf Seneddol; neu
>
> (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru."

4.20.6. Cyfeirir at y geiriau 'seminar', 'hyfforddiant', 'gweithdy' a 'darpariaeth debyg' ar eu ffurf unigol yn y rheoliadau, gan awgrymu y gall un wers fod yn ddigonol i gyd-fynd

â'r dehongliad o gwrs. Serch hynny, gall 'cwrs' fod yn gyfres o ddigwyddiadau hefyd.

4.20.7. Mae gofynion safon 84 hefyd yn ymestyn i gyrsiau sydd wedi'u hanelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau.

Beth yw ystyr y term 'cynnig yn Gymraeg'?

4.20.8. Mae 'cynnig' cwrs addysg yn cynnwys corff yn hysbysu (er enghraifft, mewn prosbectws neu ar wefan) bod cwrs addysg ar gael, y bydd yn cael ei ddarparu yn Gymraeg a bod modd i bersonau fynychu neu ymgeisio am le neu gofrestru ar y cwrs addysg hwnnw os ydynt yn dymuno.

4.20.9. Os yw person yn derbyn y cynnig, disgwylir i'r corff weithredu ar y cynnig hwnnw drwy ddarparu'r cwrs yn Gymraeg neu gymryd camau i sicrhau bod hynny'n digwydd. Hynny yw, nid yw'r Comisiynydd yn disgwyl bod corff yn darparu cwrs yn Gymraeg os nad oes unrhyw berson yn derbyn y cynnig i gwrs gael ei ddarparu yn Gymraeg. At hynny, nid yw'r safon yn rhwystro corff rhag cynnig cwrs yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

4.20.10. Gall rhai cyrsiau fod yn rhai lle na fyddai'n briodol iddynt gael eu darparu yn Gymraeg drwy gyfrwng dulliau megis gwasanaethau cyfieithu. Gallai enghraifft o'r fath gynnwys darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod gweithgareddau ymarferol lle na fyddai'n ddiogel i ddefnyddio offer cyfieithu oherwydd iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, gall rhai cyrsiau eraill, megis cwrs sydd ar ffurf dosbarth traddodiadol, fod yn rhai y gellid eu darparu drwy wasanaethau cyfieithu.

A fyddai darparu cwrs Cymraeg mewn lleoliad gwahanol i leoliad y cwrs cyfatebol Saesneg yn cydymffurfio â'r safonau dan sylw?

4.20.11. Nid oes rhaid i gorff ddarparu cwrs yn Gymraeg yn yr un lleoliad â chwrs a ddarperir drwy gyfrwng y Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiynydd yn ystyried y dylai person orfod teithio pellter ychwanegol er mwyn mynd ar gwrs a ddarperir yn Gymraeg o'i gymharu â chwrs cyfatebol Saesneg. Gall corff gyfeirio at ei dargedau perfformiad ei hun, a allai nodi beth yw'r uchafswm pellter derbyniol, yn nhyb y corff ac ar sail gofynion statudol, i berson orfod ei deithio er mwyn derbyn cwrs penodol.

A fyddai darparu cwrs Cymraeg ar ddiwrnodau neu amseroedd gwahanol i'r cwrs cyfatebol Saesneg yn cydymffurfio gyda'r safonau dan sylw?

4.20.12. Nid oes rhaid i gorff ddarparu cwrs yn Gymraeg ar yr un diwrnodau neu amseroedd â chwrs a ddarperir drwy gyfrwng y Saesneg. Fodd bynnag, disgwylir i gorff ddarparu cyrsiau Cymraeg ar ddiwrnodau ac amseroedd na fyddai'n achosi anfantais i fynychwyr y cwrs Cymraeg.

4.20.13. Gall corff sicrhau bod amserlen y cyrsiau Cymraeg yr un mor hygyrch a chyfleus ag ydyw ar gyfer y cyrsiau Saesneg cyfatebol. Er enghraifft, gellir sicrhau bod cyrsiau Cymraeg ar gael pan fo trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i deithio i'r cwrs

Cymraeg, neu sicrhau bod cyrsiau Cymraeg yn cael eu darparu ar draws ystod eang o ddiwrnodau ac amseroedd megis cyn ac ar ôl oriau gwaith, ar benwythnosau ac yn ystod yr wythnos.

A oes rhaid i gorff ddarparu cwrs Cymraeg yr un nifer o weithiau â chwrs cyfatebol Saesneg er mwyn cydymffurfio â'r safonau dan sylw?

4.20.14. Nac oes. Fodd bynnag, disgwylir i gorff sicrhau bod nifer digonol o gyrsiau Cymraeg ar gael a fyddai'n sicrhau na fydd unrhyw berson o dan anfantais os yw'n penderfynu mynychu cwrs Cymraeg yn hytrach na chwrs Saesneg.

Mae rhai cyrsiau yn cael eu darparu ar gyfer gwahanol lefelau. A fyddai darparu cwrs yn Gymraeg ar gyfer lefelau penodol yn unig, ond nid ar gyfer lefelau eraill, yn cydymffurfio â'r safonau dan sylw?

4.20.15. Na fyddai. Rhaid i gorff gynnig cwrs yn Gymraeg ar bob lefel lle gwneir hynny yn Saesneg. Mae gofynion y safon yn golygu bod rhaid i unrhyw gwrs a gynigir gan gorff gael ei gynnig yn Gymraeg.

Beth yw ystyr y term 'datblygu cwrs addysg'?

4.20.16. Mae 'datblygu cwrs addysg' yn weithgarwch a all ddigwydd wrth drefnu bod cwrs newydd yn cael ei gynnig, a hefyd wrth wneud addasiadau i gwrs sy'n cael ei gynnig yn barod, ar gyfer ei gynnig eto yn y dyfodol, a hynny ar ôl y diwrnod gosod. Nid yw safon 86 yn berthnasol yn achos cwrs sydd eisoes yn cael ei gynnig cyn y diwrnod gosod a lle nad oes unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â'r cwrs hwnnw.

Beth yw ystyr y term 'angen'? A yw'n golygu yr un peth â galw?

4.20.17. Mae'r term 'angen' yn cynnwys lefel y galw am gwrs. Fodd bynnag, mae'r cysyniad o 'angen' yn un ehangach, ac mae'r galw'n fwy tebygol o amrywio dros amser na'r angen. O ganlyniad, disgwylir i gorff ystyried ffactorau eraill heblaw'r galw wrth asesu'r angen.

4.20.18. Ymysg y ffactorau eraill hynny, gall corff roi ystyriaeth i:

- lefel y ddarpariaeth Gymraeg gyfredol
- cyfrifoldeb y corff i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg
- amcanion a thargedau corfforaethol y corff ei hun mewn perthynas â'r gweithgarwch, a
- natur ddemograffig a daearyddol yr ardal.

Beth sy'n rhaid i gorff ei wneud wrth 'asesu'r angen' a phryd mae'n rhaid i gorff gynnal yr asesiad?

4.20.19. Rhaid i gorff gyhoeddi'r asesiad ar eu gwefan. Mae hynny'n awgrymu bod rhaid i gorff gael cofnod ysgrifenedig o'r asesiad.

4.20.20. Gan fod yr asesiad yn ddogfen gyhoeddus, disgwylir i'r asesiad:

- fod yn ddealladwy i aelodau'r cyhoedd
- esbonio'r rhesymeg dros benderfynu cynnig cwrs yn Gymraeg ai peidio
- nodi pa ffactorau a ystyriwyd
- cynnwys tystiolaeth glir a phenodol i gefnogi'r canfyddiad, a
- nodi canlyniad yr asesiad (sy'n cynnwys nodi pa gyrsiau sy'n cael eu cynnig a pha rai sydd ddim yn Gymraeg).

4.20.21. Gall corff gynnal asesiad mewn perthynas â chwrs y mae'n ei ddatblygu naill ai tra mae'r broses o ddatblygu'r cwrs ar waith, neu'n fuan cyn neu wedi hynny. Mater i'r corff yw cynnal yr asesiad ar bwynt pan fo ganddo wybodaeth ynghylch yr angen, a phan fo modd addasu'r ddarpariaeth i gyd-fynd â chanlyniad yr asesiad (waeth beth fo'r canlyniad).

4.21 Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [safon 87]

Beth yw'r gofynion?

4.21.1. Rhaid i gorff sicrhau bod pob neges a wneir dros system annerch gyhoeddus yn cael ei gwneud yn Gymraeg, ac yn Gymraeg yn gyntaf os caiff ei gwneud yn Saesneg hefyd.

Beth a olygir gan y term 'cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus'?

4.21.2. Mae'r term yn cynnwys unrhyw gyhoeddiad a wneir at sylw'r cyhoedd drwy ddefnydd offer sain gan y corff.

4.21.3. Mae unrhyw gyhoeddiadau a wneir at sylw'r gweithle yn ddarostyngedig i safon 144. Gall rheiny gynnwys, er enghraifft, pan fo neges yn cael ei chyhoeddi at sylw'r cyhoedd a'r gweithle e.e. neges sy'n cyfarwyddo pawb yn yr adeilad i adael mewn achos o argyfwng. Mewn achos felly, bydd y ddwy safon yn berthnasol.

4.21.4. Gallai enghreifftiau o gyhoeddiadau fyddai'n berthnasol i'r safon hon gynnwys:

- cyhoeddiadau mewn lifftiau yn adeiladau'r corff sy'n agored i'r cyhoedd
- cyhoeddiadau ar gerbydau (fel lori casglu sbwriel sy'n rhybuddio bod y cerbyd yn mynd yn ôl)
- neges dros seinydd mewn digwyddiad neu gyfarfod cyhoeddus (e.e. neges sy'n nodi bod perfformiad ar fin dechrau), neu
- negeseuon dros uchel seinydd o fewn adeiladau'r corff (e.e. neges sy'n cyfarwyddo aelod o'r cyhoedd i ddod at y dderbynfa).

5 Safonau llunio polisi [88-97]

5.1 Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg [safonau 88-97]

Beth yw'r gofynion?

5.1.1. Mae'r safonau llunio polisi yn ymwneud â'r ffordd y mae corff yn ystyried effeithiau ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

5.1.2. Mae'r Mesur yn darparu mai ystyr "safon llunio polisi" yw safon sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, bod y corff sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried un neu ragor o'r canlynol—

(a) pa effeithiau, os o gwbl, (a pha un a yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

(b) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a

(c) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg[44].

5.1.3. Mae'r safonau llunio polisi yn cynnwys gofynion i gorff sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried yr hyn a restrir yn a-c uchod wrth wneud y gweithgareddau canlynol:

- wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli (safonau 88–90)
- wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi o dan ystyriaeth (safonau 91–93)
- wrth lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau, neu wrth ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli (safon 94) ac
- wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil y bwriedir i gynorthwyo corff i wneud penderfyniadau polisi (safonau 95–97).

Safon 88

5.1.4. Rhaid i gorff ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn eu cael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, pa un ai yw'r rheiny'n effeithiau positif neu andwyol.

[44] Adran 29 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/section/29/enacted/welsh

Sut dylid mynd ati i asesu effaith ar y Gymraeg?

5.1.5. Bydd angen i gorff ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i gorff ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

5.1.6. Y cam cyntaf i hwyluso asesiad effeithiol fyddai casglu gwybodaeth am y penderfyniad polisi arfaethedig. Mae'r wybodaeth y gellid ei chasglu yn ystod y cam hwn yn cynnwys:

- nodau ac amcanion y prosiect
- natur y gweithgaredd
- pwy fydd yn elwa o'r fenter / grwpiau targed
- canlyniadau / deilliannau
- partneriaid
- hyd oes y cynllun / pryd fydd yn cael ei ddiwygio
- cyfrifoldeb am y polisi
- data neu ymchwil perthnasol ar y pwnc
- trefniadau ymgynghori, a
- threfniadau monitro ac asesu.

5.1.7. Ymhellach i hynny, gall y ffactorau isod fod yn rhai i'w hystyried wrth asesu effaith penderfyniadau polisi a bydd dyletswydd ar y corff i bennu pa faterion i'w hystyried wrth edrych ar natur y polisi dan sylw:

- A fydd y gwasanaeth, y polisi, y strategaeth neu'r prosiect yn cael effaith ar nifer neu'r ganran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (neu unrhyw sgil arall)?
- A fydd y gwasanaeth, y polisi, y strategaeth neu'r prosiect yn cael effaith ar nifer neu'r ganran o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg?
- A fydd y gwasanaeth, y polisi, y strategaeth neu'r prosiect yn cael ei gyflawni yn Gymraeg?
- A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi treftadaeth a diwylliant yr ardal dan sylw mewn perthynas â'r Gymraeg?

5.1.8. Mae hyn hefyd yn cynnwys:

- nodi unrhyw effeithiau positif ar y Gymraeg
- nodi unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg
- ystyried sut y gallai'r polisi neu'r ymarfer hyrwyddo'r cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn ehangach, ac
- ystyried a fydd y polisi yn effeithio ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.1.9. Gweler isod enghreifftiau o gwestiynau perthnasol y gellid eu hystyried wrth ymchwilio i unrhyw effeithiau penderfyniadau polisi positif ac andwyol. Rhaid pwysleisio mai enghreifftiau yn unig yw'r isod.

Effeithiau positif	Effeithiau andwyol
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud o / i ardal benodol?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn gostwng nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud o / i ardal benodol?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?	A oes perygl y byddai'r penderfyniad polisi yn cam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn ardal benodol?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn golygu lleihad yn nifer y swyddi sydd lle mae gofyn am sgiliau Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn golygu cynnydd yn nifer y swyddi lle mae gofyn am sgiliau Cymraeg?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gau gwasanaethau Cymraeg penodol neu yn peryglu'r gwasanaethau hyn?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gynnydd mewn gwasanaethau Cymraeg penodol neu yn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r gwasanaethau hyn?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn ei gwneud yn anoddach i recriwtio siaradwyr Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn annog / ei gwneud yn haws i recriwtio siaradwyr Cymraeg?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn bygwth cynaliadwyedd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y gymuned honno?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn sicrhau cynaladwyedd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y gymuned honno?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn ei gwneud yn anoddach teithio er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn hwyluso teithio er mwyn cael gwasanaethau Cymraeg?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gwtogi o ran nifer yr unigolion sy'n dysgu'r iaith?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg yn rhagweithiol i ddefnyddwyr?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn golygu bod hygyrchedd a mynediad at y gwasanaethau Cymraeg yn cael ei gyfyngu?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dysgu'r iaith?	
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?	
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at strategaethau'r Gymraeg yn genedlaethol ac mewn meysydd polisi penodol (e.e. Strategaeth Cymraeg 2050; Mwy na Geiriau; Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg)?	
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at sicrhau parhad a ffyniant y Gymraeg fel iaith teulu, cymuned, neu'r gweithle?	

Safonau 89 a 90

5.1.10. Ar ôl ystyried yr holl effeithiau a gesglir yn unol â safon 88, rhaid i gorff roi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau effaith o'r fath. Mae safon 89 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried sut y gellir llunio polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.1.11. Mae safon 90 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried sut y gellir llunio polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.1.12. Rhaid i gorff ystyried unrhyw opsiynau i liniaru neu atal effeithiau andwyol y gall y penderfyniad polisi eu cael ar yr iaith Gymraeg. Rhaid hefyd ystyried yr opsiynau o ran sut i sicrhau effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn yn amrywio yn unol â natur y penderfyniad polisi. Rhoddir enghreifftiau isod o rai ffactorau y gall corff eu hystyried er mwyn gwneud hynny:

- **angen a galw**—ydy'r mesur yn angenrheidiol? A fyddai'n bosibl cwrdd â'r galw heb unrhyw ddatblygiad o'r newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sydd eisoes yn bodoli?
- **dull a phroses**—sut dylai ddigwydd? A yw buddiannau'r iaith Gymraeg wedi'u cynllunio fel rhan o'r broses? Oes modd defnyddio dulliau gwahanol/llai niweidiol? Dylid ystyried ffactorau megis technoleg a chynllunio i sicrhau bod prosesau yn cefnogi dwyieithrwydd yn hytrach na'i rwystro.
- **lleoliad**—ble ddylai'r datblygiad fod/beth yw dylanwad daearyddol y polisi? Mae ystyriaethau o'r fath yn allweddol i ddyfodol cymunedau iaith Gymraeg. Dylai datblygiadau fod yn sensitif i anghenion cymunedau o'r fath a dylai bod dealltwriaeth o broffil ieithyddol cymunedau ac ardaloedd. Dylid ystyried lleoliad gwasanaethau eraill perthnasol hefyd – e.e. lleoliad ysgolion Cymraeg lleol ayyb.
- **amseriad**—pryd ac ym mha drefn dylai datblygiadau ddigwydd? Mae graddfa datblygu yn bwysig hefyd mewn rhai meysydd a gellid lleihau effaith niweidiol er enghraifft drwy ymestyn y gwaith datblygu dros gyfnod o amser.

Safonau 91-93

5.1.13. Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod dogfennau ymgynghori corff sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn ystyried ac yn ceisio barn gan bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio.

5.1.14. Rhaid i gorff gynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt. Disgwylir i gorff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon wrth wneud y penderfyniad polisi, fel y byddai'r corff yn gweithredu ar unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad.

5.1.15. Gall corff ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir yn unol â'r safonau hyn i'w cynorthwyo i gydymffurfio â safonau 88–90.

Safon 94

5.1.16. Rhaid i gorff lunio (neu ddiwygio) a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant:

- pa effeithiau, os o gwbl, (a pha un ai yw'r effeithiau hynny'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, effeithiau mwy positif neu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac
- a oes angen iddo ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn ei gynorthwyo i asesu'r effaith y byddai dyfarnu'r grant yn ei chael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.1.17. Mae'r safon hon yn berthnasol i unrhyw grant y bydd corff yn ei ddyfarnu i berson at ddiben penodol. Dylid ystyried y polisi dyfarnu grantiau y mae'n ofynnol i'r corff ei lunio a'i gyhoeddi o dan y safon hon law yn llaw â safonau 71–75, sef y safonau'n ymwneud â chorff yn dyfarnu grantiau. Gall corff ymgorffori gofynion y safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau y mae'r corff yn ddarostyngedig iddynt i'r polisi dyfarnu grantiau.

Safonau 95-97

5.1.18. Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod unrhyw waith ymchwil gan gorff wrth wneud penderfyniad polisi, yn ystyried ac yn ymdrin â'r effeithiau y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio.

5.1.19. Disgwylir i gorff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon wrth wneud y penderfyniad polisi, fel bod y corff yn gweithredu ar unrhyw ganlyniadau.

5.1.20. Gall corff ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir i'w cynorthwyo i gydymffurfio â safonau 88–90.

Beth yw 'penderfyniad polisi'?

5.1.21. Mae Atodlen 2, Rhan 2, Paragraff 2 o'r rheoliadau yn nodi:

"Ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—

(a) cynnwys deddfwriaeth;

(b) arfer pwerau statudol;

(c) cynnwys datganiadau polisi;

(ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;

(d) strwythurau mewnol."

5.1.22. Gall enghreifftiau eraill o benderfyniadau polisi gynnwys penderfyniadau ynghylch:

- lleoliadau swyddfeydd ac adeiladau
- recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr
- darpariaeth addysg
- cynlluniau datblygu lleol
- dyrannu cyllid neu gymorth ariannol
- cynnwys meini prawf
- cynnal digwyddiadau
- gweithdrefnau llywodraethiant
- partneriaethau
- enwi strydoedd neu eiddo
- yr iaith neu'r ieithoedd a ddefnyddir i weinyddu'n fewnol
- gweithgareddau a gyflawnir, neu'r
- gwasanaethau a ddarperir.

5.1.23. Mae'r safonau yn berthnasol i benderfyniadau sy'n effeithio ar aelodau o staff y corff yn ogystal â phersonau eraill.

Pryd y dylid ystyried effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio?

5.1.24. Mae nifer o'r safonau llunio polisi yn nodi bod rhaid cydymffurfio â'r safonau pan fo corff yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli. Gan ystyried hynny, disgwylir i'r weithred o ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg fod yn rhan anhepgor o lunio, adolygu neu addasu polisïau o'r dechrau. Dylid gwneud hyn cyn i'r penderfyniad polisi terfynol gael ei wneud.

5.1.25. Wrth adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ystyried yr effeithiau cysylltiedig o'r newydd. Mewn sefyllfa felly, ni ddylai corff ddibynnu ar asesiad a wnaed yn y gorffennol ynghylch yr un penderfyniad polisi neu benderfyniad polisi tebyg.

A oes modd i gorff ystyried effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio wrth ystyried effeithiau eraill megis proses asesu effaith ar gydraddoldeb?

5.1.26. Nid yw'r Gymraeg yn nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er hynny, nid yw'r rheoliadau yn atal corff rhag cydymffurfio â'r safonau llunio polisi drwy gynnwys ystyriaeth o effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg wrth ymgymryd ag ystyriaethau eraill. Gall corff gynnwys yr asesiad hwn o fewn proses asesu effaith ar gydraddoldeb cyn belled â bod holl agweddau'r safonau yn cael eu hystyried a'u diwallu yn y broses.

5.1.27. Fodd bynnag, gall enghreifftiau fodoli o feysydd lle byddai asesiad effaith penodol a manwl ar y Gymraeg yn fwy addas na phroses asesu effaith integredig (e.e. ad-drefnu neu agor ysgolion).

Beth yw ystyr y termau 'effaith bositif' neu 'effaith andwyol'?

5.1.28. Mae Atodlen 2, Rhan 2, Paragraff 3 o'r rheoliadau yn nodi:

> "Mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny pa un ai ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol."

Ar ba ffurf ddylai'r asesiad fod?

5.1.29. Nid yw'r rheoliadau yn nodi ar ba ffurf y dylai asesiad fod pan fo safon yn cyfeirio at yr angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi. Serch hynny, mae safon 150 yn creu gofyniad ar gorff i gadw cofnod o'r camau y mae wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

5.1.30. Disgwylir i gorff allu dangos digon o dystiolaeth eu bod wedi ystyried effeithiau penderfyniadau polisi yn unol â'r safonau llunio polisi er mwyn gallu diwallu gofynion mae safon 150. Gall hynny ddigwydd drwy gyfryngau gwahanol megis drwy drafodaethau mewn cyfarfodydd, asesiad ysgrifenedig neu drwy gomisiynu gwaith ymchwil. Gweler cymal 7.1.5 y cod am ragor o wybodaeth o ran pa gofnodion cysylltiedig y dylid eu cadw.

6 Safonau gweithredu [98-144]

6.1 Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [safon 98]

Beth yw'r gofynion?

6.1.1. Rhaid i gorff ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Rhaid i gorff hefyd gyhoeddi'r polisi ar ei fewnrwyd.

Beth ddylai'r polisi gynnwys?

6.1.2. Disgwylir i'r polisi:

- adlewyrchu maint y corff
- bod yn addas ar gyfer pob un o wasanaethau/adrannau/unedau/timoedd a natur gwaith y corff
- bod yn ddealladwy i'r gweithlu cyfan
- cynnwys manylion ynghylch y cyfnod adolygu
- ystyried yr angen am ymgynghori ar y cynnwys, a
- chynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bwriedir rhoi'r polisi ar waith.

6.1.3. Yn ogystal, er mwyn cyrraedd y nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ni ddisgwylir i'r polisi arwain at leihad yn y defnydd presennol a wneir o'r Gymraeg yn fewnol yn y gweithle.

6.1.4. Ni ddylai'r polisi fod yn gyfyngedig i'r safonau gweithredu y mae'n rhaid i gorff gydymffurfio â hwy.

6.1.5. Gall y polisi ymdrin â'r materion canlynol:

- datganiad ynghylch beth yw iaith neu ieithoedd gweinyddol y corff (yn sefydliadol neu fesul adran neu leoliad) ynghyd ag unrhyw gamau y bwriedir eu cymryd i symud tuag at weinyddu'n gynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg
- datganiad ynghylch adnabod Cydlynwyr a Phencampwyr Iaith o fewn pob uned gwasanaeth
- datganiad ynghylch yr iaith a ddefnyddir gyda phersonau sydd o dan ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau i'r corff yn Gymraeg
- datganiad yn cydnabod y gyfraith fel y'i nodir yn y Mesur sy'n rhoi'r rhyddid i staff ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd ac sy'n rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru
- datganiadau am y mathau o weithgareddau neu wasanaethau a wneir yn Gymraeg yn unig a'r rhai a wneir yn ddwyieithog
- datganiad polisi am drefn yr ieithoedd mewn eitemau dwyieithog (e.e. dogfennau, negeseuon e-bost)
- disgrifiad o'r cymorth (boed yn feddalwedd, apiau, swyddogion neu hyfforddiant) sydd ar gael i aelodau staff di-Gymraeg er mwyn eu galluogi i

ddeall rhai negeseuon neu ymadroddion Cymraeg ac i'w cynghori ar ymateb i ohebiaeth Gymraeg neu lunio gohebiaeth Gymraeg eu hunain
- eglurhad o'r mathau o weithgareddau a gwasanaethau y caiff aelodau staff corff eu derbyn yn Gymraeg (yn unol â'r safonau ac yn unol â pholisi'r corff)
- disgrifiad o'r cynlluniau a'r gweithgareddau y bydd y corff yn eu darparu neu y bwriedir eu darparu at ddiben hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan staff a rhwng staff (e.e. cynllun mentora)
- disgrifiad o'r cynlluniau sydd ar waith i hwyluso adnabod siaradwyr Cymraeg yn rhwydd yn y gweithle (e.e. dosbarthu bathodynnau a chortynnau gwddf laith Gwaith neu nodi gallu ieithyddol staff ar MailTips ar Outlook)
- eglurhad o sut y mae'r corff yn bwriadu cynyddu'r cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- disgrifiad o unrhyw ymrwymiadau sy'n mynd ymhellach na'r hyn y mae corff eisoes o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn unol â'r safonau gweithredu (e.e. defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol; ar systemau mewnol; mewn gohebiaeth fewnol neu dros y ffôn), a
- datganiad ynghylch sut bydd corff yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (safon 169).

6.2 Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [safonau 99–104]

Beth yw'r gofynion?

6.2.1. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn i bob unigolyn neu gyflogai a yw'n dymuno derbyn mathau penodol o ddogfennau yn Gymraeg ac, os felly, eu darparu yn Gymraeg.

Safon 99

6.2.2. Rhaid i gorff ofyn i unigolyn sy'n cael cynnig swydd newydd, a yw'n dymuno i'w gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg. Rhaid i'r corff ddarparu'r contract yn Gymraeg os yw'r unigolyn yn dymuno hynny.

6.2.3. Mae'r safon hon yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cael cynnig swydd newydd o'r diwrnod gosod ymlaen. Gall hynny gynnwys unigolyn sydd eisoes yn gweithio i'r corff ond yn cael cynnig swydd wahanol neu ar sail wahanol. Rhaid i'r corff holi am ddymuniad yr unigolyn cyn i'r contract gael ei ddarparu.

Safon 100-104

6.2.4. Rhaid i gorff ofyn i bob cyflogai[45] a fyddai'n dymuno cael y canlynol yn Gymraeg:

- unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol (safon 100)
- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant (safon 101)
- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad (safon 102)

[45] Gweler adran 3 y cod hwn am ddehongliad o'r term 'cyflogai'.

- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa (safon 103)
- unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau, absenoldeb o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg (safon 104).

6.2.5. Rhaid i'r corff ddarparu unrhyw ddogfennau neu ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg os yw'r cyflogai yn dymuno hynny. Rhaid i'r corff ofyn yn rhagweithiol i bob cyflogai, o'r diwrnod gosod ymlaen, am ei ddymuniad yng nghyswllt yr uchod.

6.2.6. Gall y math o ohebiaeth sy'n ymwneud â safon 100 gynnwys gohebiaeth fel:

- slip tâl cyflogai
- gohebiaeth yn ymwneud â threuliau cyflogai (e.e. nodyn talu)
- gohebiaeth yn ymwneud â chyflog y cyflogai
- gohebiaeth yn ymwneud â chytundeb, amodau neu delerau gwaith y cyflogai (e.e. newid lleoliad gwaith, newid oriau, cadarnhau dyletswyddau newydd neu ddyletswyddau gwahanol)
- gohebiaeth yn ymwneud â chynllun mamolaeth neu dadolaeth
- gohebiaeth yn ymwneud â buddion yn y gwaith (e.e. datganiad cyfraniad pensiwn neu ddatganiad ynghylch unrhyw newid i'r buddion hynny)
- gohebiaeth gan aelod staff arall (fel staff adnoddau dynol) yn ymwneud yn benodol â swydd y cyflogai (e.e. llythyr terfynu cyflogaeth).

6.2.7. Gall y math o ddogfennau sy'n ymwneud â safon 101 gynnwys dogfennau fel:

- llawlyfrau hyfforddiant
- holiaduron hyfforddiant
- dogfennau ar gyfer rhoi adborth ar unrhyw hyfforddiant a fynychwyd
- dogfennau sy'n cofnodi yr hyfforddiant a fynychwyd
- dogfennau sy'n cofnodi ceisiadau hyfforddiant
- dogfennau sy'n amlinellu'r meysydd hyfforddiant y mae'r corff yn eu blaenoriaethu.

6.2.8. Gall y math o ddogfennau sy'n ymwneud â safon 102 gynnwys dogfennau fel:

- dogfennau sy'n amlinellu perfformiad y cyflogai
- dogfennau cynllun gwella perfformiad
- cynlluniau gwerthuso staff
- fframwaith perfformiad
- adroddiad cynnydd.

6.2.9. Gall y math o ddogfennau sy'n ymwneud â safon 103 gynnwys dogfennau fel:

- cynlluniau datblygiad personol
- dogfennau sy'n caniatáu mynegi diddordeb am, neu wneud cais am, brofiad gwaith/secondiad/mentor
- holiaduron hunanasesiad.

6.2.10. Gall y math o ffurflenni sy'n ymwneud â safon 104 gynnwys:

- ffurflenni ar gyfer cofnodi neu ar gyfer awdurdodi gwyliau blynyddol, gwyliau arbennig, gwyliau oriau hyblyg neu wyliau amser mewn llaw

- ffurflenni ar gyfer cofnodi neu ar gyfer awdurdodi absenoldebau o'r gwaith oherwydd hyfforddiant, cwrs, apwyntiad meddygol, dyletswyddau allanol neu salwch.

6.2.11. Gall corff ddarparu'r dogfennau neu'r ffurflenni ar unrhyw ffurf, boed drwy gopi caled neu ar ffurf electronig. Yn yr un modd, gall corff eu cyflwyno fel rhan o becyn neu fel dogfennau neu ffurflenni unigol. Nid oes rhaid iddynt fod ar yr un ffurf ag unrhyw fersiwn Saesneg gyfatebol.

6.3 Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [safonau 105-111]

Beth yw'r gofynion?

6.3.1. Os yw corff yn cyhoeddi un neu ragor o'r polisïau canlynol, rhaid iddo gyhoeddi'r polisïau hynny'n Gymraeg:

- ymddygiad yn y gweithle (safon 105)
- iechyd a lles yn y gweithle (safon 106)
- cyflogau neu fuddion yn y gweithle (safon 107)
- rheoli perfformiad (safon 108)
- absenoldeb o'r gwaith (safon 109)
- amodau gwaith (safon 110); a
- phatrymau gwaith (safon 111).

6.3.2. Mae'r term 'polisi' yng nghyswllt safonau 105-111 yn cynnwys unrhyw ddogfen sy'n amlinellu'r ffordd y bydd y corff yn gweithredu yng nghyd-destun yr uchod. Gall hyn gynnwys dogfen bolisi benodol neu unrhyw ganllawiau neu weithdrefnau sydd ynghlwm â'r polisi hwnnw.

6.3.3. Yn wahanol i'r gofynion a amlinellir yn safonau 99–104, nid oes rhaid i gorff ofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn y polisïau hyn yn Gymraeg cyn eu cyhoeddi. Y disgwyliad yw bod gan bob cyflogai fynediad at fersiwn Gymraeg o'r polisi yn ddiofyn.

Beth yw ystyr y term 'cyhoeddi' yn y cyd-destun hwn?

6.3.4. Mae'r term 'cyhoeddi' yng nghyd-destun y safonau hyn yn golygu bod y corff yn rhoi'r polisïau dan sylw ar gael i'w staff.

6.3.5. Mae'n bosibl mai polisïau a gyhoeddir ar fewnrwyd y corff ydynt yn unig ac nad ydynt ar gael ar ffurf copi caled. Nid yw hynny fodd bynnag yn effeithio ar ddyletswydd corff i gydymffurfio â'r safonau hyn.

Beth os oes gan gorff bolisi sydd eisoes mewn grym cyn y diwrnod gosod?

6.3.6. Os yw'r polisi yn parhau i fod yn un 'byw' a 'chyfredol', rhaid iddo sicrhau bod fersiwn Gymraeg o'r polisi hwnnw ar gael i staff o'r diwrnod gosod ymlaen.

A oes rhaid i gorff gyhoeddi'r polisïau yn unigol?

6.3.7. Er bod y gofynion i gyhoeddi polisïau mewnol penodol yn Gymraeg wedi eu pennu mewn safonau unigol, nid yw'r rheoliadau yn atal corff rhag cyhoeddi'r polisïau hyn ar wahân, neu ar y cyd mewn un ddogfen e.e. llawlyfr staff neu weithdrefn cyflogaeth.

6.4 Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelod o staff corff [safonau 112–115]

Beth yw'r gofynion?

6.4.1. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ganiatáu i bob aelod o'i staff ymwneud â'r corff yn Gymraeg mewn perthynas â'r broses gwynion. Mae'r safonau hyn hefyd yn berthnasol i bob elfen yn ymwneud â chŵyn, megis unrhyw apêl gysylltiedig.

Safon 112

6.4.2. Rhaid i gorff ganiatáu i bob aelod o'i staff gael:

- gwneud cwynion iddo yn Gymraeg, ac
- ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wnaed amdanynt.

6.4.3. Mae 'caniatáu' i staff wneud cwynion i gorff yn Gymraeg yn cynnwys caniatáu i staff:

- gwyno ar lafar neu'n ysgrifenedig yn Gymraeg, a
- chyflwyno deunydd ysgrifenedig sy'n berthnasol i'r gŵyn yn Gymraeg (e.e. tystiolaeth) heb fod angen i'r aelod o staff ei gyfieithu i'r Saesneg.

Safon 112A

6.4.4. Rhaid i gorff ddatgan, mewn unrhyw ddogfen sydd ganddo sy'n nodi ei weithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion, bod pob aelod o staff yn cael:

- gwneud cwyn iddo yn Gymraeg, ac
- ymateb i gŵyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg.

6.4.5. Mae'n bosibl bod gan gorff bolisi neu weithdrefn sy'n amlinellu'r broses cwynion fewnol yn barod. Gall corff gydymffurfio â'r elfen hon o'r safon drwy:

- ddiwygio'r polisi hwnnw i gynnwys datganiad sy'n amlygu hawliau'r aelodau staff, neu
- gynnwys datganiad i'r un perwyl mewn polisi neu weithdrefn newydd.

6.4.6. Rhaid i gorff hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. Nid yw 'rhoi gwybod' yn gyfyngedig i ddatgan hynny mewn unrhyw ddogfen sydd gan y corff sy'n nodi ei weithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion. Gall corff hefyd 'roi gwybod' yn fwy rhagweithiol drwy:

- ohebu â phob aelod o staff am yr hawl honno

- datgan hynny i'r aelod o staff wrth ddechrau'r broses gwynion mewn perthynas ag ef, neu drwy
- ddatgan hynny os yw'r aelod o staff yn gwneud ymholiadau am y broses o wneud cwynion i'r corff.

Safon 113

6.4.7. Os oes angen cynnal cyfarfod ag aelod o staff ynghylch cwyn a dderbyniwyd ganddynt neu ynghylch cwyn a wnaed amdanynt, rhaid i'r corff gynnig cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg. Rhaid i'r corff gynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu os yw'r aelod o staff wedi nodi ei fod yn dymuno hynny.

Safon 114

6.4.8. Os oes angen cynnal cyfarfod ag aelod o staff ynghylch cwyn a dderbyniwyd ganddynt neu ynghylch cwyn a wnaed amdanynt, rhaid i'r corff:

- ofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac
- esbonio y bydd yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol.

6.4.9. Rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw os yw'r aelod o staff wedi nodi ei fod yn dymuno hynny, ac os nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.

Safon 115

6.4.10. Rhaid i gorff roi gwybod i aelod o staff beth yw ei benderfyniad mewn perthynas â chwyn ganddynt neu gŵyn amdanynt yn Gymraeg os yw un neu ragor o'r canlynol wedi'u bodloni:

- pan fo'r aelod o staff wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg
- pan fo'r aelod o staff wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn a wnaed amdano
- pan fo'r aelod o staff wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu
- pan fo'r aelod o staff wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.

6.4.11. Rhaid i'r corff wneud hynny mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wneir ar unrhyw gam o'r broses mewn perthynas â'r gŵyn. Nid yw gofynion y safon hon yn gyfyngedig i'r penderfyniad terfynol a wneir ar ddiwedd y broses yn unig. Gall hefyd gynnwys penderfyniad a wneir ynghylch:

- bod y gŵyn yn ddilys neu'n annilys
- bod y gŵyn wedi symud i gam arall o fewn unrhyw weithdrefn (e.e. adolygiad ffurfiol/apêl)
- bod unrhyw broses mewn perthynas â'r gŵyn wedi dod i ben; neu
- unrhyw benderfyniad arall mewn perthynas â'r gŵyn.

6.4.12. Mae gofynion y safon hon yn cwmpasu unrhyw ddull y bydd corff yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw ei benderfyniad. Gall hyn gynnwys rhoi gwybod i aelod o staff ar lafar, wyneb-yn-wyneb neu'n ysgrifenedig.

I bwy mae'r safonau hyn yn gymwys?

6.4.13. Mae safonau 112–115 yn gymwys i bob 'aelod o staff'. Gweler adran 3 y cod hwn am ddehongliad o'r term hwnnw.

6.4.14. Dim ond i aelodau o staff sy'n gwneud cwyn neu sy'n destun cwyn y mae safonau 112–115 yn gymwys. Os oes eraill ynghlwm â'r broses—er enghraifft cynrychiolydd undeb, swyddog adnoddau dynol, rheolwr llinell neu dyst—nid oes rhaid cynnig cyfarfod yn Gymraeg iddynt hwy o dan y safonau hyn (ond gall safonau eraill fod yn berthnasol).

6.5 Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [safonau 116–119]

Beth yw'r gofynion?

6.5.1. Mae'r safonau canlynol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ganiatáu i bob aelod o'u staff ymwneud â'r corff yn Gymraeg mewn perthynas â'r broses ddisgyblu fewnol. Mae'r safonau hyn hefyd yn berthnasol i bob elfen yn ymwneud â disgyblu, megis unrhyw apêl gysylltiedig.

Safon 116

6.5.2. Rhaid i gorff ganiatáu i bob aelod o'i staff gael ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wnaed yn eu herbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.

6.5.3. Mae 'caniatáu' i staff gael ymateb yn Gymraeg yn cynnwys caniatáu i staff:

- ymateb ar lafar neu'n ysgrifenedig yn Gymraeg, a
- chyflwyno deunydd ysgrifenedig sy'n berthnasol i'r honiadau yn Gymraeg (e.e. tystiolaeth), heb fod angen i'r aelod o staff ei gyfieithu.

Safon 116A

6.5.4. Rhaid i gorff ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd ganddo sy'n nodi ei drefniadau ar gyfer disgyblu staff fod pob aelod o staff yn cael ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wnaed yn eu herbyn.

6.5.5. Mae'n bosibl bod gan gorff bolisi neu weithdrefn sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer disgyblu staff yn barod. Gall corff gydymffurfio â'r elfen hon o'r safon drwy:

- ddiwygio'r polisi hwnnw i gynnwys datganiad sy'n amlygu hawl yr aelodau staff, neu
- gynnwys datganiad i'r un perwyl mewn polisi neu weithdrefn newydd.

6.5.6. Yn ogystal, os yw'r corff yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, disgwylir iddo roi gwybod i'r aelod o staff am yr hawl honno.

Safon 117

6.5.7. Os oes angen i'r corff gynnal cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid iddo gynnig cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg. Rhaid i'r corff gynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu os yw'r aelod o staff wedi nodi ei fod yn dymuno hynny.

Safon 118

6.5.8. Os oes angen cynnal cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid i gorff:

- ofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac
- esbonio y bydd yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol.

6.5.9. Rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw os yw'r aelod o staff wedi nodi ei fod yn dymuno hynny, ac os nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.

Safon 119

6.5.10. Pan fo corff yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw ei benderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid iddo wneud hynny yn Gymraeg os yw un neu ragor o'r canlynol wedi'u bodloni:

- pan fo'r aelod o staff wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg
- pan fo'r aelod o staff wedi gofyn bod cyfarfod ynghylch y broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu
- pan fo'r aelod o staff wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.

6.5.11. Mae gofynion y safon hon yn cwmpasu unrhyw ddull y bydd corff yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw ei benderfyniad. Gall hyn gynnwys rhoi gwybod i aelod o staff ar lafar, wyneb-yn-wyneb neu'n ysgrifenedig.

I bwy mae'r safonau hyn yn gymwys?

6.5.12. Mae safonau 116–119 yn gymwys i bob 'aelod o staff.' Gweler adran 3 y cod hwn am ddehongliad o ystyr y term hwnnw.

6.5.13. Dim ond yr aelod o staff y gwneir honiadau yn ei erbyn y mae safonau 116–119 yn gymwys. Os oes eraill ynghlwm â'r broses—er enghraifft cynrychiolydd undeb, swyddog adnoddau dynol, rheolwr llinell neu dyst—nid oes rhaid cynnig cyfarfod yn Gymraeg iddynt hwy o dan y safonau hyn (ond gall safonau eraill fod yn berthnasol).

6.6 Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff [safon 120]

Beth yw'r gofynion?

6.6.1. Rhaid i gorff ddarparu:

- meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i'w staff, a
- rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (os oes rhyngwyneb Cymraeg eisoes ar gael).

A oes rhaid i gorff ddarparu'r feddalwedd i bob aelod o staff?

6.6.2. Nid yw'r safon yn berthnasol i garfan benodol o staff, megis y rhai hynny sy'n gallu siarad Cymraeg, yn unig. Rhaid i'r corff gynnig darparu'r feddalwedd uchod i'w holl staff. Disgwylir iddo wneud hynny yn rhagweithiol.

6.6.3. Nid yw'r safon hon yn golygu bod rhaid i'r staff ddefnyddio'r feddalwedd dan sylw yn Gymraeg. Y gofyniad yw i gorff roi'r feddalwedd ar gael i'w staff ei defnyddio os ydynt yn dymuno hynny.

6.6.4. Gall 'darparu' meddalwedd i staff gynnwys:

- gosod y feddalwedd ar bob cyfrifiadur fel mater o drefn (fel bod modd i staff ddewis ei defnyddio ai peidio)
- gosod y feddalwedd ar eu rhan os ydynt yn dymuno (os nad yw'r feddalwedd eisoes ar gael ar y cyfrifiadur), neu
- roi cyfarwyddiadau a chaniatâd iddynt i'w gosod eu hunain.

Beth yw ystyr y term 'meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg'?

6.6.5. Mae'r mathau hyn o feddalwedd fel arfer yn caniatáu i'r defnyddiwr wirio sillafu a gramadeg eu testun wrth deipio neu ar ddiwedd darn o waith wrth glicio botwm. Mae'r feddalwedd fel arfer yn cynnig geiriau amgen neu gyngor pan amlygir gwall gramadegol neu gamgymeriad teipio.

6.6.6. Mae meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg ar gael fel rhan o rai rhaglenni cyfrifiadurol poblogaidd yn ddiofyn neu drwy ei lawrlwytho fel atodiad. Mae meddalwedd hefyd ar gael yn fasnachol i'w phrynu ar ffurf trwydded neu i'w lawrlwytho am ddim.

6.6.7. Gall y math o feddalwedd gynnwys:

- pecyn Cysgliad (sy'n cynnwys Cysill), a
- gwirydd sillafu Microsoft Office neu Open Office.

Beth yw ystyr y term 'rhyngwynebau Cymraeg'?

6.6.8. Bydd natur rhyngwynebau yn newid fesul meddalwedd, ond mae rhyngwyneb yn cynnwys pob ffordd y bydd defnyddiwr yn ei ddefnyddio i gyfathrebu â rhaglen neu feddalwedd. Bydd y rhaglen neu'r feddalwedd yn edrych ac yn gweithio yr un fath yn union â phe byddai ganddo ryngwyneb Saesneg ond bod testun Cymraeg yn ymddangos ar bob botwm, rhuban offer ac yn y blaen.

6.6.9. Mae nifer o raglenni cyfrifiadurol poblogaidd yn cynnig rhyngwynebau Cymraeg y gellir eu lawrlwytho am ddim a cheir dolenni at nifer ohonynt ar wefan y Comisiynydd. Mae rhyngwynebau meddalwedd sydd ar gael yn (rhannol neu'n llawn yn) Gymraeg yn cynnwys:

- Systemau gweithredu Microsoft, Ubuntu, Fedora a Linux Mint
- Microsoft Office; Libre Office; Office 365

- Firefox; Microsoft Internet Explorer
- Outlook.com; Gmail; Mozilla Thunderbird
- Wordpress
- VLC-VideoLAN, a
- Skype.

6.6.10. Os nad oes rhyngwyneb Cymraeg ar gael ar gyfer meddalwedd neu raglen, nid oes rhaid i'r corff lunio un ei hun er mwyn cydymffurfio â'r safon hon.

6.7 Safonau ynghylch y fewnrwyd [safonau 121-126]

Beth yw'r gofynion?

6.7.1. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod tudalennau ei fewnrwyd ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

6.7.2. Fel arfer, mae 'mewnrwyd' yn golygu rhwydwaith mewnol cyfrifiadurol sydd:

- ar gael i staff y corff yn unig
- wedi'i seilio ar dechnoleg gwefan, ac sydd
- ar gael er mwyn i staff gyfathrebu neu rannu gwybodaeth gyda'i gilydd.

Safon 121

6.7.3. Rhaid i gorff sicrhau bod:

- testun pob tudalen ar ei fewnrwyd ar gael yn Gymraeg
- bod pob tudalen Gymraeg ar y fewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac
- nad yw'r Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y fewnrwyd.

6.7.4. Rhaid i gorff sicrhau bod yr holl destun ar y tudalennau ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys y tudalennau a nodir yn safonau 122 a 123.

Safon 122

6.7.5. Rhaid i gorff sicrhau bod:

- testun hafan eu mewnrwyd ar gael yn Gymraeg
- bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan y fewnrwyd (neu hafan Gymraeg y fewnrwyd os yw'n berthnasol) yn gweithredu'n llawn, ac
- nad yw'r Gymraeg cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan y fewnrwyd.

6.7.6. Mae 'hafan' yn golygu'r dudalen ar wefan sydd fel arfer yn gweithredu fel y brif dudalen neu'r dudalen gartref ar gyfer y fewnrwyd. Mae'r hafan fel arfer yn gweithredu fel tudalen llywio ac yn cynnwys dolenni at y gwahanol adrannau a geir ar y fewnrwyd.

6.7.7. Nid oes rhaid i'r testun Cymraeg ymddangos ar yr un hafan â'r testun Saesneg. Gall corff ddewis cael hafan Gymraeg a hafan Saesneg ar wahân os yw'n dymuno, cyn belled â bod hynny'n golygu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r hafan Gymraeg honno.

Safon 123

6.7.8. Os yw corff yn cyhoeddi tudalen newydd neu'n diwygio tudalen ar ei fewnrwyd, rhaid iddo sicrhau:

- bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg
- bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â thestun y dudalen honno.

6.7.9. Byddai tudalen ar y fewnrwyd yn un 'newydd' os yw'r corff yn cyhoeddi'r dudalen honno o'r newydd ar ôl diwrnod gosod y safon.

6.7.10. Byddai tudalen yn cael ei 'diwygio' os yw corff yn gwneud newidiadau i'r dudalen honno ar ôl diwrnod gosod y safon. Gall hyn gynnwys sefyllfaoedd lle mae corff yn diweddaru, yn dileu, yn ychwanegu neu'n cywiro cynnwys ar y dudalen honno.

Safon 124

6.7.11. Os oes gan gorff dudalen Gymraeg ar ei fewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid iddo nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg. Rhaid iddo hefyd ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

6.7.12. Nid oes rhaid i gorff nodi datganiad sydd air am air â'r uchod ar bob tudalen Saesneg perthnasol. Gall corff ei gwneud yn glir bod tudalen Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg drwy gynnwys botwm ar y dudalen Saesneg sy'n llywio'r defnyddiwr at y dudalen Gymraeg gyfatebol.

6.7.13. Er enghraifft, gall corff gynnwys botwm "Cymraeg" mewn safle amlwg (ar frig y dudalen) ar dudalen Saesneg a fyddai'n cynnwys dolen at y dudalen Gymraeg gyfatebol. Ni fyddai arddangos baner (e.e. baner Cymru) yn cyfleu yn ddigonol bod tudalen Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 125

6.7.14. Rhaid i gorff neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar ei fewnrwyd sy'n:

- darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg, ac sy'n
- cynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

6.7.15. Disgwylir i'r corff ystyried y materion canlynol wrth neilltuo a chynnal y dudalen neu'r tudalennau perthnasol:

- a yw'r cynnwys ac ystod y gwasanaethau a'r deunyddiau yn adlewyrchiad o faint y corff
- a yw'r cynnwys yn berthnasol ac yn gymwys i bob un o'i wasanaethau, adrannau, unedau neu dimoedd a natur eu gwaith.

6.7.16. Gall y dudalen (neu'r tudalennau) gynnwys:

- cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio neu ganfod gwirwyr sillafu a gramadeg (e.e. gwirydd sillafu a gramadeg Cymraeg Cysill a'r gwirydd sillafu Microsoft Word)

- cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio neu ganfod geiriaduron, geirfaoedd a thermiaduron technegol, naill ai oddi ar-lein (e.e. Cysgeir, yr ap ffôn Geiriadur ar gyfer iOS ac Android) neu ar-lein (e.e. y Porth Termau Cenedlaethol, Byd Term Cymru, Geiriadur yr Academi, Geiriadur Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Geiriadur Prifysgol Cymru, Geiriadur Prifysgol Bangor, y Termiadur Addysg, Gweiadur neu Adnoddau Termau Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)
- cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio neu ganfod meddalwedd cof cyfieithu neu feddalwedd cyfieithu peirianyddol
- cyfarwyddiadau ar sut i osod neu newid rhyngwynebau meddalwedd neu apiau i'r Gymraeg ynghyd â sut i fewnbynnu acenion Cymraeg (megis to bach)
- cyfeirlyfr o bersonau a all siarad y Gymraeg a sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg
- cyfeirlyfr o wasanaethau cyfieithu mewnol ac/neu allanol a sut i'w trefnu
- disgrifiad o'r hyfforddiant sydd ar gael i staff ddysgu/wella eu sgiliau Cymraeg a sut i gofrestru ar eu cyfer
- manylion ynghylch cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (e.e. sesiynau ymarfer anffurfiol).

Safon 126

6.7.17. Rhaid i gorff ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar ei dudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.

6.7.18. Nid oes rhaid i gorff sicrhau hynny ar gyfer tudalennau Saesneg os yw corff yn sicrhau hynny ar gyfer ei dudalennau Cymraeg cyfatebol. Fodd bynnag, os yw tudalen yn gweithredu fel y dudalen Gymraeg a Saesneg gyda'i gilydd (e.e. hafan dwyieithog ar y fewnrwyd), rhaid i gorff sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni yn Gymraeg ar y dudalen honno.

Beth yw ystyr y termau 'rhyngwyneb' a 'dewislenni'?

6.7.19. Bydd natur rhyngwynebau a dewislenni yn newid fesul mewnrwyd. Mae rhyngwyneb yn cynnwys pob rhan o'r fewnrwyd y bydd defnyddiwr yn ei defnyddio i gyfathrebu a rhyngweithio â'r fewnrwyd.

6.7.20. Mae dewislenni yn gallu cynnwys rhestr o ddewisiadau, eitemau, neu orchmynion i ddefnyddiwr ddewis ohonynt (e.e. cwymplen sy'n agor i lawr i ddangos rhestr o ddewisiadau posibl).

Beth yw ystyr y term 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'?

6.7.21. Mae Atodlen 3, Rhan 3 , Paragraff 11 y rheoliadau yn nodi:

"At ddibenion safonau 121, 122 a 123 (mewnrwyd corff), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

(a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw, ffont, maint a fformat unrhyw destun);

(b) pryd y caiff y deunydd ei gyhoeddi ar y fewnrwyd;

ond nid yw'n golygu bod yn rhaid i'r deunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â'r deunydd Saesneg, nac ar dudalen a fydd yn debygol o agor cyn y fersiwn Saesneg gyfatebol o'r dudalen."

6.7.22. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- iaith y deunydd
- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- lleoliad ac amlygrwydd y deunydd
- pryd caiff y deunydd ei ddarparu neu ei arddangos
- sut caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- fformat cyhoeddi'r deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

6.7.23. Nid yw'r term yn golygu bod rhaid i gorff sicrhau bod deunydd Cymraeg yn ymddangos ar yr un dudalen â'r deunydd Saesneg. Gall hyn olygu:

- nad oes rhaid i gorff sicrhau bod y deunydd Cymraeg (fel dogfennau) yn ymddangos ar fersiwn Saesneg o dudalen mewnrwyd (os yw'r deunydd Cymraeg yn ymddangos ar y fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o dudalen), ac
- nad oes rhwystr i gorff ddangos deunydd Cymraeg a Saesneg ar yr un dudalen (h.y. tudalen ddwyieithog) os yw'n dymuno.

6.7.24. Fodd bynnag, gall cyhoeddi mewnrwyd mewn modd sy'n golygu mai Saesneg yw'r iaith ddiofyn drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (e.e. cyfeiriad y fewnrwyd yn mynd â pherson yn syth at y fersiwn Saesneg o'r fewnrwyd). Golyga hynny mai dim ond ar ôl i ddefnyddiwr ddewis iaith y gall deunydd Cymraeg a Saesneg ymddangos ar dudalennau ar wahân.

A yw gofynion safonau 121–126 yn golygu bod rhaid i'r holl gynnwys sydd ar y fewnrwyd fod yn Gymraeg?

6.7.25. Nac ydy, dim o reidrwydd. Mae Atodlen 3, Rhan 3, Paragraff 14 y rheoliadau yn nodi:

"Nid yw safonau 121 i 124 (y fewnrwyd) yn gymwys i—

(a) dogfennau y darperir dolen iddynt ar y fewnrwyd, deunydd hysbysebu ar y fewnrwyd, na chlipiau fideo a sain ar y fewnrwyd (gweler safonau 105 i 111 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau);

(b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar fewnrwyd corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau neu ar fforwm trafod)."

6.7.26. Mae'r safonau hyn felly yn berthnasol i unrhyw ddeunydd sydd ar fewnrwyd corff, ac eithrio deunydd a gyflwynir drwy'r cyfryngau a nodir uchod.

6.7.27. Os yw corff yn darparu dolenni at adnoddau eraill ar ei fewnrwyd, disgwylir iddynt fod yn gyson â iaith y dudalen honno er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er enghraifft, disgwylir i ddolen a ddarperir ar dudalen Gymraeg o'r fewnrwyd arwain at fersiwn Gymraeg o'r adnodd, os oes fersiwn Gymraeg ar gael. Fodd bynnag, nid oes rhaid i gorff gyfieithu'r adnodd i'r Gymraeg oni bai bod safon arall yn nodi bod rhaid gwneud hynny.

6.7.28. Felly, os yw corff yn darparu dolen i ddogfen ar ei fewnrwyd, safonau 40 i 49 neu safonau 105 i 111 fydd yn berthnasol i'r ddogfen honno ac nid y safonau hyn. Er hynny, gall corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod dolen yn mynd at fersiwn Gymraeg o ddogfen, os oes fersiwn Gymraeg yn bodoli yn unol â gofynion safonau 40 i 49 neu safonau 105 i 111.

6.7.29. Yn yr un modd, os yw corff yn darparu deunyddiau hysbysebu megis clipiau fideo a sain ar ei fewnrwyd, safon 37 fydd yn berthnasol i'r deunyddiau hynny ac nid y safonau hyn. Er hynny, gall corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod fersiynau Cymraeg o'r deunyddiau yn cael eu darparu, os oes fersiynau Cymraeg yn bodoli yn unol â gofynion safon 37.

6.7.30. Os yw person (sy'n gweithredu y tu allan i ddyletswyddau'r corff megis aelod staff mewn capasiti preifat) yn cyflwyno gwybodaeth ar dudalen ryngweithiol sydd wedi'i chyhoeddi ar fewnrwyd y corff, nid oes rhaid i'r corff gyfieithu'r wybodaeth honno i'r Gymraeg. Gall hynny gynnwys gwybodaeth a gaiff ei chyflwyno gan bersonau:

- mewn ystafelloedd sgwrsio
- ar adran ar gyfer sylwadau
- mewn fforwm drafod.

Beth yw ystyr y term 'gweithredu'n llawn'?

6.7.31. Mae'r term yn golygu bod corff yn sicrhau bod fersiwn Gymraeg o dudalen ar fewnrwyd corff yn gweithredu o leiaf yn yr un modd neu gystal â'r fersiwn Saesneg a hynny heb unrhyw gyfyngiadau neu wallau.

6.7.32. Gall hyn gynnwys sicrhau:

- bod fersiwn Cymraeg o dudalen yn cael ei diweddaru ac nad yw wedi'i hoedi o'i gymharu â'r fersiwn Saesneg o'r dudalen
- bod swyddogaethau chwilio yn gweithio yn llawn yn Gymraeg
- bod swyddogaethau technolegol yn gweithio yn llawn yn Gymraeg (e.e. testun-i-leferydd)
- bod y fersiynau Cymraeg yn cynnwys yr un wybodaeth ag a geir ar fersiynau Saesneg
- nad yw dolenni wedi torri
- nad oes namau yn ymddangos ar y tudalennau Cymraeg.

6.8 Corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu [safonau 127-135]

Beth yw'r gofynion?

6.8.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chorff yn cynyddu sgiliau ei weithlu yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi.

Safon 127

6.8.2. Rhaid i gorff asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion.

6.8.3. Gall canlyniadau'r asesiad alluogi corff i gynllunio ei weithlu fel bod lefelau digonol o sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer ymateb i unrhyw anghenion drwy:

- adnabod beth yw sgiliau iaith Gymraeg presennol y gweithlu, a thrwy hynny, adnabod pwy all ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg
- adnabod beth yw anghenion y corff o ran sgiliau Cymraeg, gan gynnwys asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swydd newydd neu swydd wag yn unol â safon 136, a
- cynllunio i gynnal a chynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu i ateb yr anghenion hynny.

Pa fath o sgiliau Cymraeg sydd angen eu hasesu?

6.8.4. Gall corff asesu'r sgiliau Cymraeg canlynol:

- siarad
- gwrando
- darllen
- ysgrifennu
- deall.

6.8.5. Disgwylir i gorff asesu beth yw lefel y sgiliau Cymraeg sydd gan ei gyflogeion yn ôl pob math o sgìl a gaiff ei asesu. Gall hyn sicrhau bod gan gorff ddarlun cyflawn o alluoedd cyflogeion.

6.8.6. Fel arfer, mae lefelau sgiliau Cymraeg yn cael eu cofnodi yn unol â fframwaith cydnabyddedig. Mae'r Comisiynydd yn dymuno gweld rhagor o gysondeb yn y modd y cofnodir sgiliau Cymraeg cyflogeion, er mwyn hwyluso casglu data am y

gweithlu dwyieithog. Er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol yn y modd y mae cyrff yn asesu sgiliau iaith Cymraeg cyflogeion, gall cyrff ddewis gwneud yr asesiad ar sail Fframwaith Cyfeirio Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR) i'r dyfodol.

6.8.7. Gellid defnyddio hefyd Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG) er mwyn cyfrannu at ganfod lefel sgiliau Cymraeg cyflogeion a darganfod anghenion hyfforddi pellach. Offeryn diagnostig ar-lein yw hwn sy'n darganfod beth yw cymhwysedd Cymraeg personau wrth ddarllen, ysgrifennu, gwrando a siarad.[46] Bydd canlyniad y gwiriwr yn cyfateb i lefel Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion: Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd.[47] Mae'r lefelau hyn yn cymharu gyda lefelau fframwaith CEFR a Fframwaith Cymdeithas Profwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE) fel a ganlyn:

Lefelau CDCG	Lefel CEFR	Lefel ALTE
Mynediad	A1	Mynediad
Sylfaen	A2	1
Canolradd	B1	2
Uwch	B2	3
Hyfedredd	C1	4
-	C2	5

Yn ôl pa ddangosyddion ddylai'r corff asesu sgiliau Cymraeg y cyflogeion?

6.8.8. Gall corff gynnal yr asesiad mewn modd a fyddai'n galluogi iddo gofnodi sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion yn ôl dangosyddion penodol.

6.8.9. Rhaid i gorff sicrhau bod yr asesiad yn galluogi iddo gofnodi'r nifer o gyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn Gymraeg yn unol â safon 151.

6.8.10. Fodd bynnag, gall corff gynnal asesiad hefyd mewn modd a fyddai'n galluogi iddo gofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion:

- yn sefydliadol
- yn ôl canran
- yn ôl sgil
- yn ôl lefel
- yn ôl graddfa swydd
- fesul gweithle
- fesul gwasanaeth

[46] https://dysgucymraeg.cymru/

[47] Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion
https://dysgucymraeg.cymru/media/1159/curriculum-amended-17_5_17.pdf
ceir trosolwg o ddatganiadau gallu y lefelau hyn yn ddogfen hon.

- fesul cyfarwyddiaeth, adran, neu dîm.

Pwy ddylai gynnal yr asesiad?

6.8.11. Mater i'r corff ei hun yw penderfynu pwy sy'n cynnal yr asesiad. Gall hyn gynnwys:

- cyflogeion yn hunanasesu eu sgiliau Cymraeg
- cyflogeion yn gwneud ymarferion neu brofion er mwyn asesu eu sgiliau Cymraeg
- rheolwyr yn canfod sgiliau Cymraeg cyflogai fel rhan o broses arfarnu.

Pa mor aml y dylid gwneud asesiad?

6.8.12. Er mwyn cydymffurfio â gofynion safon 151 (safon cadw cofnodion), rhaid i gorff gadw cofnod o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

6.8.13. Felly, er mwyn cydymffurfio â gofynion safon 151 ynghyd â chynnal cofnodion cyfredol, rhaid i gorff gynnal asesiad o'r fath o leiaf yn flynyddol. Fodd bynnag, gall y Comisiynydd ofyn i gorff ddarparu'r wybodaeth uchod ar unrhyw adeg o'r diwrnod gosod ymlaen, yn unol â gofynion safon 172.

6.8.14. Disgwylir bod yr wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfredol, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau i fanylion sgiliau Cymraeg yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Gall newidiadau o'r fath gynnwys sefyllfa pan fo:

- lefel sgiliau iaith cyflogai yn newid (e.e. yn dilyn mynychu gwersi Cymraeg yn unol â safonau 130 neu 131)
- cyflogai yn gadael y corff
- cyflogai newydd yn ymuno
- cyflogai yn symud i leoliad, cyfarwyddiaeth, adran, neu dîm arall (a bod y newidiadau hynny'n effeithio ar y cofnod sydd gan y corff).

Safon 128

6.8.15. Rhaid i gorff ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg ym mhob un o'r meysydd canlynol, os ydynt yn darparu hyfforddiant yn y meysydd hyn yn Saesneg:

- recriwtio a chyfweld
- rheoli perfformiad
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- ymsefydlu
- delio â'r cyhoedd
- iechyd a diogelwch.

6.8.16. Os nad yw'r corff yn darparu hyfforddiant yn un o'r meysydd penodol hyn yn Saesneg, nid oes rhaid iddo ddarparu'r hyfforddiant yn y maes penodol hwnnw yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'r safon.

6.8.17. Mae'r math o hyfforddiant a ddarperir yn y meysydd hyn yn ddibynnol ar natur a swyddogaethau'r corff. Gall felly amrywio o gorff i gorff. Fodd bynnag, gall enghreifftiau gynnwys:

Maes	Enghreifftiau o hyfforddiant
Recriwtio a chyfweld	Hyfforddiant ar: o ddulliau recriwtio neu gyfweld o asesu a dethol ymgeiswyr o sgiliau cyfathrebu wrth recriwtio neu gyfweld o llunio disgrifiadau swydd neu fanylebau person.
Rheoli perfformiad	Hyfforddiant ar: o ddeall a gweithredu prosesau rheoli perfformiad o sut i roi adborth yn effeithiol o sut i osod amcanion a disgwyliadau.
Gweithdrefnau cwyno a disgyblu	Hyfforddiant: o sy'n cael ei ddarparu i bersonau sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r broses cwyno a disgyblu yn y gwaith, neu o sy'n egluro sut i sefydlu a gweithredu gweithdrefnau mewn modd priodol ac yn unol â'r gyfraith.
Ymsefydlu	Hyfforddiant sy'n: o rhoi cyflwyniad ffurfiol i'r corff neu i swydd o darparu gwybodaeth gyffredinol ddefnyddiol am y corff neu'r swydd newydd (fel strwythur staffio, cyfleusterau, hanes cryno'r sefydliad, swyddogaethau a nodau'r sefydliad) o darparu gwybodaeth am weithdrefnau a pholisïau sefydliadol o darparu gwybodaeth am faterion gweinyddol (e.e. defnydd o'r rhyngrwyd, ffôn, e-bost neu sut i awdurdodi gwyliau) o rhoi crynodeb o delerau ac amodau'r swydd (e.e. cyfnodau prawf).
Delio â'r cyhoedd	Hyfforddiant sy'n: o ymwneud â sut y disgwylir i staff ymddwyn wrth ymwneud ag aelodau'r cyhoedd o darparu gwybodaeth am weithdrefnau, prosesau neu ganllawiau y dylai staff eu dilyn wrth ddelio gydag aelodau'r cyhoedd o gwybodaeth am sut i sicrhau bod staff yn delio â'r cyhoedd yn effeithiol o darparu neu'n cynnwys ymarferion ar senarios posibl er mwyn ennyn hyder wrth ddelio â'r cyhoedd.
Iechyd a diogelwch	Hyfforddiant: o a ddarperir yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch (e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974) o tân o iechyd meddwl o cymorth cyntaf o codi a chario o diogelu ac amddiffyn plant o diogelu data a gwybodaeth.

Safon 129

6.8.18. Rhaid i gorff ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn:

- cyfarfodydd
- cyfweliadau, a
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

6.8.19. Nid yw'r safon hon yn ddibynnol ar y graddau y mae corff yn darparu hyfforddiant tebyg yn Saesneg.

6.8.20. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu'r math hwn o hyfforddiant drwy eu cynllun Cymraeg Gwaith.

Pwy ddylai dderbyn yr hyfforddiant yn unol â safon 128 a safon 129?

6.8.21. Nid yw'r safonau hyn wedi eu hanelu at unrhyw gyflogeion penodol o fewn corff. Serch hynny, rhaid i gorff sicrhau bod yr hyfforddiant perthnasol ar gael i'w weithlu yn Gymraeg yn unol â'r angen.

Beth yw ystyr y term 'defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol'?

6.8.22. Mae'r term yn cyfeirio at gynyddu gallu a hyder cyflogeion i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y safon yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.8.23. Mae'r term yn berthnasol i elfennau amrywiol o weithgareddau corff a gallai fod yn berthnasol i gyflogeion sy'n ymgymryd â swyddogaethau amrywiol. Gallai gynnwys gweithgareddau megis arwain neu gadeirio cyfarfod (mewnol neu'n allanol) neu gyfrannu i gyfarfodydd. Gallai hefyd fod yn berthnasol i gyflogeion sy'n dymuno cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynnal cyfweliadau neu mewn achosion cwyno a disgyblu.

6.8.24. Gallai'r hyfforddiant gynnwys y canlynol:

- ystyried pa dermau cyffredin Cymraeg i'w defnyddio fel rhan o'r gweithgareddau a nodir yn y safon, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n effeithiol at bwrpas y gweithgareddau hyn, ac i gynyddu hyder i ddefnyddio'r iaith yn effeithiol ynddynt
- rhoi arweiniad ar unrhyw ddogfennau neu ffurflenni Cymraeg a ddefnyddir gan y corff at bwrpas y gweithgareddau a nodir yn y safon, er mwyn codi hyder i ddefnyddio'r dogfennau a'r ffurflenni hyn yn effeithiol
- codi ymwybyddiaeth o'r polisïau a chanllawiau mewnol sy'n bodoli ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r safonau perthnasol mewn cysylltiad â chyfarfodydd, cyfweliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

Beth yw ystyr '[d]darparu hyfforddiant'?

6.8.25. Mae'r term yn golygu bod y corff yn addysgu ei staff mewn maes penodol er mwyn cynyddu eu gwybodaeth am y maes.

6.8.26. Bydd natur unrhyw hyfforddiant a'r adnoddau fydd eu hangen i ddarparu yn newid yn ôl natur bob corff. Y gofyniad yn safonau 128 a 129 yw bod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg yn unol â threfniadau'r corff.

6.8.27. Nid oes rhaid i gorff ddarparu cwrs yn Gymraeg os nad oes unrhyw berson am dderbyn y cwrs hwnnw. At hynny, nid yw safon 128 yn rhwystro corff rhag cynnig cwrs yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

6.8.28. Mae rhai cyrsiau lle na fyddai gwasanaethu cyfieithu yn briodol. Fodd bynnag, gall rhai cyrsiau eraill, megis cwrs sydd ar ffurf dosbarth traddodiadol, fod yn rhai y gellid eu darparu drwy ddulliau megis gwasanaethau.

A yw'r gofyniad yn ymestyn i hyfforddiant a ddarperir gan hyfforddwyr allanol?

6.8.29. Ydy, i'r graddau bod y trydydd parti yn darparu'r hyfforddiant ar ran y corff drwy drefniant.

Safon 130

6.8.30. Rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith:

- i'w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac
- i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Beth yw ystyr y term 'gwersi Cymraeg sylfaenol'?

6.8.31. Mae'r term yn golygu gwersi ar gyfer dysgu sgiliau sylfaenol yn Gymraeg, fel sgiliau gwrando, deall, darllen, siarad ac ysgrifennu. Bwriad y gwersi hyn fyddai galluogi cyflogai i gyflawni swyddogaethau sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.8.32. Gall hynny gynnwys y gallu i gyflawni'r canlynol:

- ynganu geiriau (megis enwau pobl, teitlau a llefydd perthnasol i'r gweithle) yn gywir
- cyflwyno eu hunain
- defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd (megis cyfarchion, diolch a chyfeirio rhywun i ystafell)
- rhoi manylion personol sylfaenol (megis enw, enw'r sefydliad, cyfeiriad)
- canfod dewis iaith person
- dechrau neges ysgrifenedig a'i gorffen yn briodol
- deall cyfarchion
- deall unrhyw ymadroddion a ddefnyddir yn gyson yn y gweithle
- deall manylion personol sylfaenol (e.e. enw a chyfeiriad).

6.8.33. Gall 'gwersi Cymraeg sylfaenol' gynnwys hyfforddiant ar lefel 'cyn-fynediad'. Gall hyn olygu'r hyfforddiant a ddarperir cyn i gyflogai wneud hyfforddiant ar lefel 'Mynediad (A1)'.

Oes nifer penodol o oriau o wersi neu hyfforddiant i'w darparu?

6.8.34. Nid oes cyfyngiad ar yr oriau y mae'n rhaid eu cynnig o dan safonau 130 a 131.

Beth yw ystyr y term 'defnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr'?

6.8.35. Mae'r term yn cyfeirio'n benodol at gynyddu gallu a hyder cyflogeion sy'n rheoli eraill i gynnal swyddogaethau o ddydd i ddydd fel rheolwr trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.8.36. Gall enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gynnwys yn yr hyfforddiant gynnwys y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg mewn materion megis trafod amcanion perfformiad gyda chyflogeion, cynnal cyfarfodydd gyda chyflogeion trwy gyfrwng y Gymraeg
- rhoi arweiniad am unrhyw ddogfennau neu ffurflenni Cymraeg y bydd disgwyl i gyflogeion eu cwblhau yn eu rôl fel rheolwyr, er mwyn hwyluso defnyddio'r ffurflenni hyn a sicrhau bod y dogfennau a'r ffurflenni yn cael eu defnyddio yn effeithiol
- codi ymwybyddiaeth o'r polisïau a chanllawiau mewnol sydd yn eu lle ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r safonau perthnasol yn eu rôl fel rheolwyr.

Safon 131

6.8.37. Rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd i gyflogeion, sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol, gael hyfforddiant pellach am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau iaith ymhellach.

6.8.38. Gall hyn gynnwys hyfforddiant ar lefel:

- Mynediad (A1)
- Sylfaen (A2)
- Canolradd (B1)
- Uwch (B2)
- Hyfedredd (C1)
- neu unrhyw lefel arall sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg y cyflogai ymhellach y tu hwnt i'r lefel a gyrhaeddir yn dilyn y 'gwersi Cymraeg sylfaenol' a ddarperir yn unol â safon 130.

6.8.39. Gall y math o hyfforddiant hefyd gynnwys hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith cyflogeion sydd eisoes yn rhugl yn y Gymraeg ond sydd am:

- loywi eu sgiliau iaith Gymraeg, neu
- ddatblygu hyder i ddefnyddio'u sgiliau iaith i ddrafftio dogfennau a gohebiaeth yn ddwyieithog.

6.8.40. Gall y corff sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn ystod oriau gwaith arferol y cyflogai, ond nid oes rhaid gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â'r safon.

Fodd bynnag, disgwylir i'r corff sicrhau na fyddai'r oriau y mae'r corff yn eu cynnig i gyflogai yn golygu bod y cyflogai o dan unrhyw anfantais.

Safon 132

6.8.41. Rhaid i gorff ddarparu'r hyfforddiant yn y meysydd canlynol i'w cyflogeion:

- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg, a
- dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

6.8.42. Nid oes rhaid i'r hyfforddiant gael ei gynnal yn Gymraeg yn unol â'r safon hon, ond disgwylir i gorff ystyried gofynion sydd ar y corff yn unol â safon 128 i ddarparu'r hyfforddiant yn Gymraeg os yw'n darparu hynny yn y meysydd hyfforddiant perthnasol.

6.8.43. Gall enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gynnwys yn yr hyfforddiant gynnwys:

- **ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**—gall hyn gynnwys gwybodaeth am hanes yr iaith, tarddiad yr iaith Gymraeg, ffeithiau am yr iaith Gymraeg (megis gwybodaeth o'r Cyfrifiad), manteision defnyddio'r Gymraeg neu wybodaeth am Gomisiynydd y Gymraeg
- **dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg**—gall hyn gynnwys gwybodaeth am yr union safonau y mae'n rhaid i'r corff gydymffurfio â hwy a hefyd wybodaeth am y Mesur a'i amcanion
- **dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**—gall hyn gynnwys gwybodaeth am sut mae'r corff yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle neu wybodaeth am y safonau gweithredu yn y rheoliadau a'r hawliau sy'n deillio o'r rheiny.

Safon 133

6.8.44. Os yw corff yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (e.e. fel rhan o'r broses ymsefydlu), rhaid iddo ddarparu gwybodaeth i'r cyflogeion hynny er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

6.8.45. Gellid darparu'r wybodaeth fel rhan o hyfforddiant neu ar ffurf dogfen. Nid oes rhaid darparu'r wybodaeth hon yn Gymraeg yn unol â'r safon hon, ond disgwylir i'r corff ystyried gofynion sydd arno yn unol â safon 128 i ddarparu'r wybodaeth yn Gymraeg os yw'n darparu hynny yn y meysydd hyfforddiant perthnasol.

6.8.46. Gall corff ddarparu gwybodaeth sy'n cynnwys:

- gwybodaeth am hanes yr iaith
- gwybodaeth am darddiad yr iaith Gymraeg
- ffeithiau am yr iaith Gymraeg (megis gwybodaeth o'r Cyfrifiad)
- gwybodaeth am yr iaith Gymraeg yn yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu
- manteision a phwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg
- gwybodaeth am Gomisiynydd y Gymraeg, y safonau a dyletswyddau iaith.

Safon 134

6.8.47. Rhaid i gorff ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost ei staff er mwyn dangos a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr. Nid oes rhaid i gorff

ddarparu geiriad neu logo i'w staff ddefnyddio sy'n cyfleu'r uchod air am air â geiriad y safon. Fodd bynnag, disgwylir i'r geiriad neu'r logo fod yn ddigon clir ac eglur i ddangos bod aelod staff yn rhugl yn y Gymraeg neu'n dysgu'r Gymraeg.

6.8.48. Gellir arddangos logo Iaith Gwaith y Comisiynydd i gyfleu bod gan aelod o staff sgiliau yn y Gymraeg, ond ni fyddai'r logo ynddo'i hyn o reidrwydd yn cyfleu eu lefel rhuglder.

6.8.49. Bydd y ffordd y mae corff yn adnabod y graddau y mae ei staff yn siaradwyr Cymraeg 'rhugl' neu yn 'ddysgwyr' yn dibynnu ar sut mae'n asesu eu sgiliau iaith.

6.8.50. Os yw corff yn asesu sgiliau iaith staff yn unol â fframwaith CEFR, gall siaradwr Cymraeg 'rhugl' gynnwys aelod o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg sy'n cyfateb i lefel C1 neu'n uwch. Fel arfer, lefel C1 neu'n uwch yw'r lefel mwyaf priodol o ran gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y gweithle. Gall 'dysgwr' gynnwys aelod o staff sydd â lefel sgiliau iaith Gymraeg sy'n cyfateb i lefel A1-B2 yn unol â Fframwaith CEFR.[48]

Safon 135

6.8.51. Rhaid i gorff ddarparu geiriad ar gyfer eu cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst. Rhaid iddo hefyd ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.

6.8.52. Mae manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst yn cynnwys:

- teitl swydd
- cyfeiriad gwaith y cyflogai, ac
- enw'r corff (i'r graddau y mae gan y corff enw Cymraeg).

6.9 Safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio [safonau 136-140]

Beth yw'r gofynion?

6.9.1. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chorff yn recriwtio ac apwyntio ac yn cynnwys gofynion ynghylch y broses honno.

Safon 136

6.9.2. Os yw corff yn asesu'r anghenion ar gyfer unrhyw swydd newydd neu swydd wag, rhaid iddo asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a chategoreiddio'r swydd fel swydd sy'n gymwys i unrhyw un neu ragor o'r categorïau canlynol:

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
- nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.[49]

[48] Cydnabyddir y byddai personau sydd â lefelau sgiliau iaith Gymraeg sy'n cyfateb i lefel B2 yn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn hollol hyderus mewn rhai cyd-destunau.

[49] Dylid ystyried y meini prawf a sefydlwyd yn achos Crizzle fel yr amlinellir yn adran 5.28 yn nogfen gyngor y Comisiynydd 'Recriwtio: Ystyried y Gymraeg'

6.9.3. Er mwyn asesu gofynion ieithyddol swydd, disgwylir i gorff ystyried anghenion ieithyddol fel mater o drefn pan gaiff swydd ei chreu o'r newydd neu pan ddaw swydd yn wag, gan edrych ar allu'r corff i gwrdd a gofynion y safonau law yn llaw â hynny.

6.9.4. Dylid nodi bod rhaid i gorff gadw cofnod o bob asesiad a gynhelir mewn perthynas â safon 136 yn unol â safonau 153 a 154.

6.9.5. Gellir ystyried y canlynol fel rhan o'r meini prawf wrth ystyried sut i bennu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swydd:

- swyddogaeth y swydd—a oes cyswllt allanol lle disgwylir i'r aelod staff allu cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg fel ei gilydd; a fydd yn gweithio mewn ardal ddaearyddol benodol lle ceir nifer neu ganran uchel o siaradwyr Cymraeg
- ystyriaethau lleol polisi iaith sefydliad e.e. yr angen i weinyddu yn fewnol neu'n fwyfwy drwy'r Gymraeg, neu fod isafswm sgiliau iaith Gymraeg wedi'i osod ar gyfer swyddi penodol mewn polisi
- nifer presennol y staff sydd ar gael i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg—disgwylir i gorff gyfeirio yn y fan hon at asesiad sgiliau y corff a wneir yn unol â safon 127 gan gyfeirio at unrhyw fylchau mewn sgiliau iaith i ddarparu gwasanaethau
- yr angen i ddelio â sefydliadau eraill sy'n gweinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

6.9.6. Fel arfer, mae sgiliau Cymraeg yn 'hanfodol' mewn sefyllfa lle nad oes unrhyw un ar gael i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu os oes angen mwy o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

6.9.7. Os nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, mae'n bosibl y bydd corff yn dod i'r casgliad bod sgiliau yn y Gymraeg yn 'ddymunol'. Gall hyn gynnwys sefyllfa lle mae eisoes capasiti o fewn y sefydliad i allu darparu gwasanaeth penodol yn Gymraeg, ond y byddai'n ddymunol i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg honno drwy recriwtio rhagor o staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg i ddarparu'r gwasanaeth. Yn gyffredinol, os yw sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol' i swydd, yna gall corff gymryd bod gan ymgeisydd sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg fantais dros ymgeisydd arall wrth gael ei ystyried am swydd ond ni fyddai'n angenrheidiol i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y sgiliau hynny.

6.9.8. Gall corff bennu swydd gyda'r angen i ddysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd. Fel arfer, byddai rhaid i'r sawl sy'n cael eu penodi i'r swydd gyrraedd lefel angenrheidiol o ruglder fel amod penodi. Mae'r amod hwnnw yn cael ei nodi wrth hysbysebu'r swydd fel arfer. Gall enghraifft o sefyllfa lle mae swyddi yn cael eu categoreiddio fel hyn gynnwys:

- os oedd corff wedi'i adnabod fel swydd lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, ond bu anhawster recriwtio ymgeisydd sydd â sgiliau Cymraeg i'r swydd dan sylw ac yn penderfynu ail-hysbysebu'r swydd honno, ac

http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

- os yw corff yn gwybod â sicrwydd bod prinder sylweddol o bersonau sydd â sgiliau Cymraeg all gyflawni'r swydd dan sylw, ac y byddai'n debygol y bydd rhaid penodi ymgeisydd di-Gymraeg i swydd (e.e. swydd arbenigol iawn).

Safon 136A

6.9.9. Os yw corff yn categoreiddio swydd (yn unol â safon 136) yn un y mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid iddo:

- bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a
- hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.

6.9.10. Gall hyn gynnwys pennu categori y swydd yn y disgrifiad swydd, y fanyleb person a'r hysbyseb ei hun (yn y wasg, mewn hysbysebion neu ar wefan y corff).

6.9.11. Gall corff benderfynu hysbysebu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn uniaith Gymraeg os yw'n dymuno. Er enghraifft, gall corff benderfynu hysbysebu'n uniaith Gymraeg mewn hysbysebion a gyhoeddir mewn cyhoeddiadau Cymraeg neu wneud hynny gyda nodyn esboniadol byr yn Saesneg mewn hysbysebion a gyhoeddir mewn cyhoeddiadau Saesneg.

Beth yw ystyr y term 'swydd'?

6.9.12. At ddibenion safonau 136 a 136A yn unig, dehonglir "swydd" yn Atodlen 3, Rhan 3 , Paragraff 15 y rheoliadau fel a ganlyn:

> "(a) mae "swydd" yn cynnwys penodiad cyhoeddus
>
> (b) ystyr "penodiad cyhoeddus" yw unrhyw benodiad i gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus."

6.9.13. Mae hyn yn cynnwys unrhyw swydd newydd o fewn y corff neu unrhyw swydd a ddaw yn wag ar ôl y diwrnod gosod, boed hynny yn swydd barhaol neu dros dro, neu'n swydd a gaiff ei hysbysebu'n fewnol yn unig neu'n allanol.

Safon 137

6.9.14. Wrth hysbysebu swydd, rhaid i gorff ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

6.9.15. Nid yw'r rheoliadau yn ymhelaethu ar beth ddylai union eiriad y datganiad fod er mwyn cydymffurfio â'r safon. Er hynny, mae'r safon yn nodi bod yn rhaid i'r corff ddatgan:

- ei fod yn croesawu cael ceisiadau yn Gymraeg ac
- na fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai Saesneg.

6.9.16. Nid oes rhaid i gorff gynnwys datganiad sy'n cyfleu'r uchod air am air â geiriad y safon. Fodd bynnag, disgwylir i'r datganiad hwnnw fod yn ddigon clir ac eglur fel y byddai'r personau yn llwyr ymwybodol o ymrwymiad ac ymroddiad y corff i beidio â thrin cais a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Safon 137A

6.9.17. Os yw corff yn cyhoeddi'r canlynol, rhaid iddo eu cyhoeddi yn Gymraeg:

- ffurflenni cais am swyddi
- deunydd esboniadol ynghylch ei broses ar gyfer ymgeisio am swyddi
- gwybodaeth am y broses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi
- swydd-ddisgrifiadau.

6.9.18. Rhaid iddo hefyd sicrhau na chaiff unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau eu trin yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.

6.9.19. Mae Atodlen 3, Rhan 3, Paragraff 12 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau 137A (recriwtio) a 141 (arwyddion mewnol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
>
> (b) maint y deunydd;
>
> (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
>
> (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
>
> (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd."

6.9.20. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun)
- cynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir o fewn y deunydd).

Safon 137B

6.9.21. Rhaid i gorff beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg. Mae'r safon ei hun yn cynnig rhai enghreifftiau penodol o rai cyd-destunau lle na ddylid trin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais am swydd a wneir yn Saesneg:

> "[...] gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau."

6.9.22. Rhaid felly bod y dyddiad cau yr un fath ar gyfer ceisiadau Cymraeg a Saesneg ac nad oes oedi o ran amseriad rhoi gwybod am benderfyniad cais a wnaed yn Gymraeg o'i gymharu ag amseriad rhoi gwybod am benderfyniad cais a wnaed yn Saesneg.

6.9.23. Mae'r term '[p]eidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg' yng nghyswllt y safon hon hefyd yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y sylw a'r ystyriaeth y mae'r corff yn ei roi i'r cais hwnnw.

Safon 138

6.9.24. Rhaid i gorff sicrhau bod lle i unigolion nodi ar ffurflen gais am swydd eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu ddull arall o asesiad, yn Gymraeg. Os yw'r unigolyn yn dymuno hynny, rhaid i'r corff gynnal y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Safon 139

6.9.25. Rhaid i gorff sicrhau bod ei ffurflenni cais am swyddi:

- yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu ddull arall o asesiad, ac yn
- esbonio y bydd y corff yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen.

6.9.26. Os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad neu'r asesiad, rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweliad neu'r asesiad (os nad yw'r corff yn cynnal y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Beth yw ystyr y term 'dull arall o asesiad'?

6.9.27. Mae'r term yn cynnwys unrhyw ddull y bydd y corff yn ei ddefnyddio er mwyn asesu addasrwydd neu sgiliau ymgeiswyr ar gyfer swyddi. Gall enghreifftiau o'r fath gynnwys:

- tasgau neu weithgareddau penodol er mwyn profi addasrwydd neu allu yn y swydd e.e. tasg ysgrifenedig yn ymateb i senario benodol; tasg ysgrifennu llythyr safonol
- gweithgaredd chwarae rôl
- arholiad llafar neu ysgrifenedig
- profion seicometreg
- unrhyw gwestiynau aml ddewis y bydd gofyn i ymgeiswyr ymateb iddynt
- unrhyw gyflwyniad y mae gofyn i ymgeiswyr ei wneud fel rhan o'r cyfweliad.

A fyddai'n bosibl i gorff asesu hyfedredd unigolyn yn y Saesneg yn ogystal drwy gyfweliad neu ddull arall o asesiad?

6.9.28. Byddai. Nid yw'r safonau hyn yn rhwystro corff rhag gallu gwneud hynny.

Safon 140

6.9.29. Os yw corff yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw ei benderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, a bod y cais hwnnw wedi'i gyflwyno yn Gymraeg, rhaid iddo roi gwybod i'r unigolyn yn Gymraeg.

6.9.30. Rhaid i gorff wneud hynny mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wneir ar unrhyw gam o'r broses mewn perthynas â'r cais am swydd. Nid yw gofynion y safon hon yn gyfyngedig i'r penderfyniad terfynol a wneir ar ddiwedd y broses yn unig. Gall gynnwys penderfyniad a wneir megis:

- canlyniad asesiad a gynhaliwyd fel rhan o'r broses recriwtio
- bod yr ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus neu aflwyddiannus
- bod yr unigolyn wedi llwyddo neu wedi methu â chyrraedd rhestr fer
- unrhyw benderfyniad arall a wneir yn ystod y broses.

6.9.31. Mae gofynion y safon hon yn cynnwys unrhyw ddull y bydd corff yn ei ddefnyddio i roi gwybod i unigolyn beth yw eu penderfyniad. Gall hyn gynnwys rhoi gwybod i unigolyn ar lafar, wyneb-yn-wyneb neu'n ysgrifenedig.

6.10 Arwyddion a arddangosir yng ngweithle'r corff [safonau 141-143]

Beth yw'r gofynion?

6.10.1. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion newydd a osodir ganddo, neu ar arwyddion a gaiff eu hadnewyddu ganddo, yn eu gweithle yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Rhaid iddo hefyd sicrhau na chaiff y testun Cymraeg ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion hynny. Mae'r safonau hefyd yn gosod gofynion ynghylch cywirdeb a safle'r Gymraeg ar arwyddion.

6.10.2. Fel arfer, mae'r safonau hyn yn berthnasol i'r arwyddion a gaiff eu harddangos yng ngweithle corff sydd i'w gweld gan staff y corff yn unig.

6.10.3. Byddai corff yn 'gosod arwydd newydd' fel arfer pan fydd yn ei roi mewn safle lle na fu arwydd o'r fath o'r blaen. Byddai corff yn 'adnewyddu arwydd' os yw'n gwneud unrhyw newid i'r arwydd hwnnw neu yn rhoi arwydd newydd yn lle'r hen un ar yr un safle.

6.10.4. Mae'r safon hefyd yn berthnasol pan fo corff yn gosod arwydd mewn safle neu leoliad newydd.

6.10.5. Mewn perthynas ag arwyddion electronig, byddai arwydd newydd yn cael ei osod bob tro y mae testun yn ymddangos o'r newydd ar arwydd electronig.

Safon 141

6.10.6. Wrth osod arwydd newydd neu wrth adnewyddu arwydd yn y gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw destun yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Gall corff arddangos y testun Cymraeg ar yr un arwydd â'r

testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân. Rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwydd dan sylw.

6.10.7. Mae Atodlen 3, Rhan 3, Paragraff 12 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau 137A (recriwtio) a 141 (arwyddion mewnol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
>
> (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
>
> (b) maint y deunydd;
>
> (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
>
> (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
>
> (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd."

6.10.8. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- safon ac ansawdd y deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

Safon 142

6.10.9. Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn y gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid iddo sicrhau bod testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Rhaid i gorff sicrhau hyn os yw arwydd yn cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

6.10.10. Os yw corff yn rhoi testun Cymraeg a'r testun Saesneg cyfatebol ar yr un arwydd, byddai'r testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff ei osod ar y chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol, a hynny ar sail yr arfer safonol o ddarllen o'r chwith i'r dde ac o frig testun i'w waelod.

6.10.11. Os yw corff yn gosod arwydd ar ffordd o fewn ardal y gweithle drwy beintio'r arwydd hwnnw ar y ffordd a bod y testun Cymraeg a Saesneg cyfatebol gyda'i gilydd (ac nid ar wahân), byddai'r testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff ei osod ar y chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol.

6.10.12. Os yw corff yn rhoi'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg cyfatebol ar arwyddion ar wahân, byddai testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff yr arwydd â'r testun Cymraeg ei osod:

- ar y chwith
- uwchben, neu

- o flaen yr arwydd â'r testun Saesneg cyfatebol.

6.10.13. Er enghraifft, byddai gosod arwydd Cymraeg o flaen arwydd Saesneg ar ochr ffordd yn debygol o arwain at berson yn cyrraedd a darllen arwydd Cymraeg gyntaf fel arfer, a hynny ar sail yr arfer o ddarllen arwyddion unigol yn eu trefn.

Safon 143

6.10.14. Rhaid i gorff sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a gaiff eu harddangos yn ei weithle (boed y rheiny yn arwyddion a gafodd eu gosod neu eu hadnewyddu cyn neu ar ôl y diwrnod gosod) yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Gall hynny ymwneud â:

- o chynnwys yr arwydd
- o sillafiad y testun
- o cystrawen y testun
- o geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir.

Beth yw ystyr y term 'arwydd dros dro'?

6.10.15. Mae'r safonau hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw arwyddion dros dro a gaiff eu gosod neu eu hadnewyddu. Pan fo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon 141 felly, rhaid i unrhyw arwydd dros dro a gaiff ei osod o'r newydd neu ei adnewyddu gael ei arddangos yn Gymraeg. Pan fo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon 142, rhaid gosod y Gymraeg yn gyntaf ar yr arwydd hwnnw hefyd.

6.10.16. Mae 'arwydd dros dro' yn cynnwys unrhyw arwydd nad oes bwriad iddo aros yn barhaol yn y man lle caiff ei osod. Gall enghreifftiau o'r fath gynnwys:

- o arwydd yn rhoi gwybod nad yw peiriant neu gyfarpar yn gweithio
- o arwydd sy'n rhoi gwybod nad oes mynediad i ardal mewn adeilad oherwydd bod gwaith atgyweirio yn digwydd, neu
- o arwydd sy'n rhoi gwybod am oriau agor dros dro ffreutur mewnol y corff.

A yw hunaniaeth gorfforaethol corff sy'n ymddangos ar arwyddion yn berthnasol i safonau 141–143?

6.10.17. Ydy. Lle mae hunaniaeth gorfforaethol corff yn ymddangos ar arwydd, rhaid cydymffurfio (yn ddarostyngedig i'r hysbysiad cydymffurfio) â safon 83 yn ogystal â safonau 141–143. Nid yw hynny yn golygu fodd bynnag bod angen i destun Cymraeg ar hunaniaeth gorfforaethol gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Beth os yw enwau priod eraill yn cael eu harddangos ar arwydd? Oes rhaid sicrhau bod yr enwau hynny yn cael eu harddangos yn Gymraeg?

6.10.18. Oes. Rhaid i gorff arddangos yr enw priod yn Gymraeg i'r graddau bod:

- o enw Cymraeg yn bodoli ac wedi'i sefydlu ar gyfer yr hyn y bwriedir cyfeirio ato ar yr arwydd

- nad oes deddfiad arall yn atal corff rhag defnyddio enw priod Cymraeg ar arwydd
- nad oes deddfiad yn atal corff rhag defnyddio'r enw priod sydd wedi'i sillafu yn y modd y bwriedir ei arddangos ar yr arwydd.

6.10.19. Gall hyn gynnwys arddangos enwau:

- aneddiadau (pentrefi, trefi a dinasoedd)
- strydoedd ac ystadau
- adeiladau neu nodweddion adeiledig eraill (e.e. pont)
- sefydliadau
- ardaloedd (e.e. ardaloedd môr neu ardaloedd cadwraeth)
- nodweddion tirweddol (e.e. ynysoedd, mynyddoedd, bryniau, pentiroedd, creigiau, traethau, coedwigoedd neu afonydd)
- enwau lleoedd eraill.

6.10.20. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Gall y Comisiynydd gynghori cyrff ar ffurfiau safonol enwau aneddiadau (sef pentrefi, trefi a dinasoedd) yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi'r argymhellion hyn mewn cronfa ddata chwiliadwy ar-lein a gellid llwytho'r rhestrau i lawr o dan drwydded agored: Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru[50].

6.10.21. Mae'r Comisiynydd yn dilyn canllawiau safoni penodol wrth lunio'i argymhellion: Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru[51]. Mae'r Canllawiau hyn yn benodol ar gyfer enwau aneddiadau. Nid ydynt o reidrwydd yn berthnasol i enwau tai na nodweddion tirweddol eraill. Fodd bynnag, ceir ynddynt lawer o egwyddorion gwerthfawr y gellid eu cymhwyso wrth drin yr enwau hyn neu wrth fathu enwau.

6.10.22. I'r graddau nad oes deddfiad arall yn mynnu bod rhaid defnyddio ffurf arall ar enw Cymraeg ar arwydd, gall corff ddefnyddio'r gwasanaeth ymgynghorol hwn er mwyn sicrhau ei fod yn defnyddio ffurfiau Cymraeg safonol ar arwyddion.

6.11 Cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [safon 144]

Beth yw'r gofynion?

6.11.1. Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw gyhoeddiad dros offer sain yn y gweithle yn cael ei wneud yn Gymraeg, ac yn Gymraeg yn gyntaf, os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Saesneg hefyd.

[50] Gweler Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar wefan y Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Chwilio.aspx

[51] Gweler Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru ar wefan y Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Cyd_destun.aspx

Beth yw ystyr y term ‘cyhoeddiad dros offer sain’?

6.11.2. Mae’r term yn cynnwys unrhyw gyhoeddiadau a wneir trwy ddefnydd sain gan y corff at sylw’r gweithlu.

6.11.3. Gallai enghreifftiau o gyhoeddiadau fyddai’n berthnasol i’r safon hon gynnwys:

- cyhoeddiadau at sylw’r gweithlu mewn lifftiau o fewn adeiladau’r corff, neu
- negeseuon at sylw’r gweithlu dros uchel seinydd o fewn yr adeiladau, megis cyfarwyddo aelod o staff i fynd i ardal benodol neu neges i bawb adael yr adeilad mewn achos o argyfwng.

7 Safonau cadw cofnodion [147-154]

7.1 Cadw cofnodion gan gorff [safonau 147-154]

Beth yw'r gofynion?

7.1.1. Mae'r safonau canlynol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gadw cofnod o wybodaeth benodol sy'n gysylltiedig neu'n ymwneud â'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r safonau.

Safon 147

7.1.2. Rhaid i gorff gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion y mae'n eu cael o ran cydymffurfio â'r safonau.

Safon 148

7.1.3. Rhaid i gorff gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei chael o ran cydymffurfio â'r safonau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, sef y safonau hynny sydd yn ei hysbysiad cydymffurfio.

Safon 149

7.1.4. Rhaid i gorff gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae safon 149 felly'n berthnasol i bob cwyn a dderbynnir sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac yn cynnwys:

- cwynion sy'n ymwneud â'r safonau y mae corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (yn unol â safon 148)
- cwynion sy'n ymwneud â'r safonau y mae corff fel arfer o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, ond mae'r ddyletswydd wedi'i gohirio oherwydd her neu apêl
- cwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn gyffredinol (e.e. cwynion am ddiffyg argaeledd ysgolion cyfrwng Cymraeg neu wasanaethau eraill nad oes rhaid iddo eu darparu yn Gymraeg).

Safon 150

7.1.5. Rhaid i gorff gadw cofnod o'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Yng nghyd-destun y safon hon, gall y cofnodion hynny gynnwys y canlynol:

- copïau o asesiadau a wnaethpwyd gan y corff wrth ystyried effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg
- copïau o gofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd i drafod effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg
- copïau o gylch gorchwyl gwaith ymchwil sy'n dangos bod angen i'r ymchwil ystyried effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg.

Safon 151

7.1.6. Rhaid i gorff gadw cofnod, yn dilyn yr asesiadau a wnaed yn unol â safon 127, o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

7.1.7. Rhaid i gorff gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny os yw'n gwybod hynny. Fodd bynnag, disgwylir i gorff gadw cofnod o lefel sgiliau cyflogeion fel mater o drefn wrth asesu sgiliau Cymraeg cyflogeion.

7.1.8. Ynghyd â'r nifer, gall corff gadw cofnod o ganran y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg.

7.1.9. Gall corff gadw cofnod sefydliadol o nifer a chanran yr holl gyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg.

7.1.10. Gall corff gadw cofnod o nifer a chanran y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg:

- yn sefydliadol
- yn ôl canran
- yn ôl sgil
- yn ôl lefel
- yn ôl graddfa swydd
- fesul gweithle
- fesul gwasanaeth
- fesul cyfarwyddiaeth, adran, neu dîm.

7.1.11. Fel y nodir yng nghymal 6.8.4 y cod hwn, gall corff asesu'r sgiliau canlynol fel rhan o'r asesiad sy'n ofynnol yn safon 127:

- siarad
- gwrando
- darllen
- ysgrifennu
- deall.

7.1.12. Felly, os yw corff yn asesu'r uchod, disgwylir i'r cofnodion yng nghyswllt safon 151 gynnwys gwybodaeth am y materion uchod hefyd.

Safon 152

7.1.13. Rhaid i gorff gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o'r canlynol:

- nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg iddynt yn unol â safon 128
- os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 128 y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Safon 153

7.1.14. Rhaid i gorff gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwyd ganddo (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.

Safon 154

7.1.15. Rhaid i gorff gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio yn unol â safon 136 fel swyddi sy'n gofyn:

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
- nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Beth yw ystyr y term 'cadw cofnod'?

7.1.16. Caiff 'safon cadw cofnodion' ei dehongli yn adran 32(1) o'r Mesur, fel:

> "Safon sy'n ymwneud â chadw—
>
> (a) cofnodion sy'n ymwneud â safonau penodedig eraill, a
>
> (b) cofnodion sy'n ymwneud—
>
> (i) â chwynion am gydymffurfedd person â safonau penodedig eraill, neu
>
> (ii) â chwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg."

7.1.17. Yn ogystal, mae'r Safon Brydeinig yn dehongli "cofnodion" yn wybodaeth sydd wedi'i chreu, ei derbyn, a'i chynnal fel tystiolaeth a gwybodaeth gan berson, yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol neu o fewn trafodion busnes. Mae'n nodi:

> "information created, received and maintained as evidence and as an asset by an organization or person, in pursuit of legal obligations or in the transaction of business[52]."

7.1.18. Mae'r term felly yn golygu y dylai corff gadw cofnodion **ysgrifenedig** mewn perthynas â safonau a chwynion perthnasol. Gall y cofnodion hynny fod yn rhai y mae'r corff wedi'u creu ei hun, wedi'u derbyn neu eu cadw fel tystiolaeth.

Beth yw ystyr 'cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig'?

7.1.19. Mae'r gofyniad i 'gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig' y mae corff yn ei derbyn yn safonau 148 a 149 yn golygu bod rhaid i'r corff gadw copi o'r union gŵyn ysgrifenedig a dderbyniwyd. Gall hynny fod ar ffurf copi caled neu gopi electronig.

7.1.20. Mae gofynion deddfwriaeth diogelu data yn golygu na ddylid cadw gwybodaeth a data am yn hirach nag sy'n angenrheidiol. Argymhellir i gorff gadw copïau o'r cwynion a nodir yn safonau a safonau 148 a 149 am o leiaf 3 blynedd o'r dyddiad

[52] BS ISO 15489-1:2016 Information and documentation—Records management—Part 1: Concepts and Principles.

y derbyniwyd y gŵyn. Mae'r amser hwn yn sicrhau bod gan gorff wybodaeth ddigonol i adrodd yn ei adroddiad blynyddol ar y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn honno yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth gan y corff am gwynion pe bai achos Tribiwnlys neu Lys yn cael ei ddwyn yn erbyn y corff.

Beth yw ystyr y term 'blwyddyn ariannol'?

7.1.21. Mae Atodlen 5, Rhan 2, Paragraff 3 y rheoliadau yn nodi:

> "At ddibenion safonau 147, 151, 152 a 154—
>
> (a) pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safon am y tro cyntaf, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y daw corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon, ac sy'n dod i ben â'r 31 Mawrth dilynol;
>
> (b) yn ddarostyngedig i hynny, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth."

8 Safonau sy'n ymdrin â materion atodol [155-176]

8.1 Safonau sy'n ymdrin â materion atodol i'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, hybu a chadw cofnodion [safonau 155-176]

Beth yw'r gofynion?

8.1.1. Mae'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn sefydlu trefn o adrodd ar gydymffurfiaeth. Maent yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sicrhau bod ganddo ddogfennau penodol sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r safonau eraill y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Mae'r safonau hyn hefyd yn golygu darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd, pan fo'r Comisiynydd yn gofyn amdani.

Safonau 155, 161, 167, 173 a 175

8.1.2. Rhaid i gorff sicrhau bod dogfen sy'n cynnwys yr holl safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, hybu a chadw cofnodion y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael:

- ar ei wefan
- ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

8.1.3. Gall hynny olygu bod copi ar gael yn electronig neu ar bapur ac felly nid oes rheidrwydd bod copi papur wedi'i argraffu ym mhob swyddfa sy'n agored i'r cyhoedd. Mae hysbysiad cydymffurfio cyfredol y corff gyfystyr â dogfen o'r fath.

Safonau 156, 162 a 168

8.1.4. Rhaid i gorff sicrhau bod ganddo weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion canlynol:

- sut y mae'n bwriadu delio â chwynion ynglŷn â cydymffurfio gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy
- sut y bydd yn darparu hyfforddiant i'w staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny.

8.1.5. O ran y weithdrefn (neu'r gweithdrefnau) sy'n ymdrin â'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau llunio polisi (safonau 156 a 162), rhaid i'r corff:

- gyhoeddi dogfen (neu ddogfennau) sy'n cofnodi'r weithdrefn (neu'r gweithdrefnau) ar ei wefan, a
- sicrhau bod copi o'r ddogfen (neu'r dogfennau hynny) ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

8.1.6. Gall corff sicrhau bod copi ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd drwy gynnig copi electronig neu ar bapur. Felly, os oes copi electronig ar gael, nid oes rhaid sicrhau bod copi papur wedi'i argraffu hefyd.

8.1.7. O ran y weithdrefn sy'n ymdrin â'r safonau gweithredu (safon 168), rhaid i gorff sicrhau bod y ddogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn berthnasol yn cael ei chyhoeddi ar ei fewnrwyd (safon 168).

8.1.8. Pan fo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â mwy nag un o'r safonau hyn, gall corff gydymffurfio â'r gofynion mewn un weithdrefn gwyno. Nid oes rhaid i gorff sicrhau bod ganddo weithdrefn gwyno ar wahân fesul dosbarth o safonau. Mae'r rheoliadau yn caniatáu iddo wneud hynny drwy gynnwys y wybodaeth mewn un ddogfen.

8.1.9. Gall corff hefyd ddiwygio gweithdrefn gwyno sy'n bodoli eisoes i gynnwys gwybodaeth sy'n delio â'r materion angenrheidiol sydd wedi'u nodi yn y safonau. Er enghraifft, gall corff ddiwygio'i weithdrefn gwyno gorfforaethol i sicrhau bod hynny'n cydymffurfio â'r gofynion yn hytrach na chael gweithdrefn gwyno hollol ar wahân.

8.1.10. Mae gofynion rhan (a)(i) y safonau hyn yn golygu bod corff yn gallu cynnwys gwybodaeth mewn gweithdrefn gwyno ynghylch y canlynol:

- y sawl sy'n gyfrifol am ddelio â'r cwynion
- y ffordd y bydd corff yn delio â chwynion
- yr amserlen ar gyfer delio â chwynion
- y ffordd y mae'r corff yn delio â chwynion yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau yn wahanol i'r weithdrefn sy'n delio â chwynion eraill
- y ffyrdd y gall personau wneud cwyn i'r corff
- y cyfeiriadau y dylai personau eu defnyddio ar gyfer gwneud cwyn, a'r
- wybodaeth y dylai personau ei darparu er mwyn i'r corff allu delio â'r gŵyn yn effeithiol.

8.1.11. Mae gofynion rhan (a)(ii) yn golygu bod rhaid i gorff sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn nodi sut y bydd yn darparu hyfforddiant i'w staff i ddelio â chwynion am gydymffurfio â'r safonau. Gall hyn gynnwys:

- nodi yr union hyfforddiant y bydd corff yn ei ddarparu i staff sy'n delio â chwynion sy'n ymwneud â'r safonau
- egluro pa mor aml y cynhelir yr hyfforddiant hwnnw
- nodi ym mha ffordd y bydd y corff yn darparu'r hyfforddiant hwnnw i staff e.e. fel rhan o'r sesiwn ymsefydlu i staff newydd
- nodi pa gamau y bydd y corff yn eu cymryd i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth iddynt dderbyn cwyn neu wrth ddelio â chwynion sy'n ymwneud â'r safonau (e.e. cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth staff o'r weithdrefn a'r safonau y mae'r corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy)
- nodi pa gymorth sydd ar gael i staff wrth dderbyn cwyn neu wrth ddelio â chwynion sy'n ymwneud â'r safonau
- nodi sut i ddod o hyd i ddeunydd angenrheidiol er mwyn delio â'r gŵyn yn ogystal â sut i'w defnyddio (e.e. hysbysiad cydymffurfio, cod ymarfer, y rheoliadau neu'r Mesur)

- nodi sut mae adnabod os yw dyletswydd i gydymffurfio â safon wedi'i gohirio drwy her neu apêl.

Safonau 157, 163 a 169

8.1.12. Rhaid i gorff gyhoeddi dogfen sy'n dangos ei drefniadau goruchwylio i gydymffurfio gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a'r safonau gweithredu.

8.1.13. Mae safonau 157 a 169 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff nodi yn y ddogfen honno sut y bydd yn hybu a hwyluso'r gwasanaethau mae'n eu cynnig o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau a/neu'r safonau gweithredu, yn unol â gofynion safonau 81 ac 82.

8.1.14. Gall corff gofnodi ei drefniadau drwy ddarparu gwybodaeth ynghylch:

- cofnodi pa staff, timoedd ac/neu adrannau sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â'r safonau ac amlinelliad o sut mae'n gwneud hynny
- cofnodi'r trefniadau mewnol o ran goruchwylio'r ffordd y mae trydydd partïon yn cydymffurfio â gofynion y safonau
- cofnodi pa staff, timoedd ac/neu adrannau sy'n gyfrifol am hybu'r gwasanaethu Cymraeg a ddarperir ac amlinelliad o sut mae'n gwneud hynny
- cofnodi pa staff, timoedd ac/neu adrannau sy'n gyfrifol am hwyluso defnydd o'r gwasanaethau hynny ac amlinelliad o sut mae'n gwneud hynny
- cofnodi pa staff, timoedd ac/neu adrannau sy'n gyfrifol am wneud asesiad effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi ac amlinelliad o sut mae'n gwneud hynny
- cofnodi'r prosesau a'r strwythurau mewnol a ddefnyddir ar gyfer asesu a gwerthuso cydymffurfiaeth â'r safonau.

8.1.15. Rhaid i gorff hefyd sicrhau bod copi o'r ddogfen ar gael ar eu gwefan (safonau 157 a 163) neu ar eu mewnrwyd (safon 169) ac ym mhob un o'u swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

8.1.16. Gall corff wneud hynny drwy sicrhau bod copi electronig neu bapur ar gael ym mhob un o'u swyddfeydd. Felly, os yw copi electronig ar gael, nid oes rhaid sicrhau bod copi papur wedi'i argraffu hefyd.

8.1.17. Pan fo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â mwy nag un o'r safonau hyn, gall corff gydymffurfio â'r gofynion mewn un set o drefniadau goruchwylio. Nid oes rhaid i gorff sicrhau bod ganddo drefniadau goruchwylio ar wahân fesul dosbarth o safonau. Mae'r rheoliadau yn caniatáu iddo wneud hynny drwy gynnwys y wybodaeth mewn un ddogfen.

Safonau 158, 164 a 170

8.1.18. Rhaid i gorff lunio adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n adrodd ar y modd y bu iddo gydymffurfio â phob un o'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

8.1.19. Mae'r safonau hefyd yn gosod gofynion ynghylch adrodd ar nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn honno oedd yn ymwneud â cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a safonau gweithredu.

8.1.20. Mae safon 170 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gynnwys y wybodaeth y mae'n rhaid iddo ei chadw yn unol â safonau 151, 152 a 154 yn yr adroddiad. Gellir ystyried cyhoeddi'r wybodaeth mewn ffordd sydd yn dilyn egwyddorion data agored.

8.1.21. Rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael yn Gymraeg, a'i gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn adrodd arni.

8.1.22. Rhaid i gorff roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi'r adroddiad a sicrhau bod copi o'r adroddiad ar gael ar ei wefan ac ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. Gall rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y corff wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol gynnwys:

- gwneud datganiad sy'n rhoi gwybod bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi i'r wasg
- cyhoeddi gwybodaeth am yr adroddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, ar ei wefan
- rhannu'r adroddiad gyda rhanddeiliad perthnasol (e.e. mewn cylchlythyr).

8.1.23. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i gorff adrodd drwy gynnwys yr holl wybodaeth mewn un adroddiad blynyddol o'r enw "Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg".

8.1.24. Nid oes rhaid i gorff gyflwyno'r adroddiad blynyddol at sylw'r Comisiynydd fel y drefn adrodd a fu gyda chynlluniau iaith Gymraeg. Er hynny, gall y Comisiynydd gael mynediad at yr adroddiad drwy wefan y corff neu drwy ddarpariaeth a wneir yn safonau 160, 166, 172, 174 a 176.

Safon 159, Safon 165 a Safon 171

8.1.25. Rhaid i gorff gyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n egluro sut y mae am gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a'r safonau gweithredu y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Pan fo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â mwy nag un o'r safonau hyn, mae'r rheoliadau yn caniatáu iddo wneud hynny mewn un ddogfen.

8.1.26. Mae'r safonau hyn yn galluogi cyrff i adnabod a chynllunio'r camau penodol sydd angen eu cymryd i gydymffurfio â gofynion y safonau. Gall camau o'r fath gynnwys materion megis trefniadau cyfieithu, safonau ansawdd, dangosyddion perfformiad a thechnoleg gwybodaeth. Gallai'r ddogfen hefyd nodi pwy sy'n gyfrifol am weithredu unrhyw gamau angenrheidiol a gall nodi pryd y bydd angen i'r camau hynny gael eu cymryd er mwyn cydymffurfio.

Safonau 160, 166, 172, 174 a 176

8.1.27. Rhaid i gorff ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Comisiynydd y bydd yn gofyn amdani sy'n ymwneud â chydymffurfio gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, hybu a/neu'r safonau cadw cofnodion.

8.1.28. Gall gwybodaeth o'r fath gynnwys gwybodaeth am faterion megis y canlynol (i'r graddau y caiff y safonau perthnasol eu cynnwys yn hysbysiad cydymffurfio'r corff):

- ansawdd gwasanaethau Cymraeg
- sgiliau Cymraeg cyflogeion

- nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal y corff
- meithrin sgiliau Cymraeg cyflogeion
- penderfyniadau polisi
- y Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y corff
- ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol
- cwynion
- trefniadau goruchwylio cydymffurfedd
- hybu a hwyluso defnyddio gwasanaethau
- hybu'r Gymraeg (pan fo'n berthnasol).

8.1.29. Bydd y Comisiynydd yn gofyn am y wybodaeth o fewn cyfnod o amser rhesymol a gaiff ei bennu gan y Comisiynydd. Disgwylir i'r wybodaeth a gaiff ei chyflwyno fod yn berthnasol, yn gyfredol ac ar ffurf electronig, pan fydd y cais yn gofyn hynny. Yn y cyswllt hwn, nid yw ceisiadau'r Comisiynydd am wybodaeth yn cael eu gwneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ni all sefydliad felly ddefnyddio eithriadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth er mwyn gwrthod darparu'r wybodaeth, oni bai bod cyfyngiadau cyfreithiol yn caniatáu hynny.

Atodiad 1
Rhestr o'r cyrff y mae'r cod yn berthnasol iddynt[53]

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Gweinidogion Cymru

[53] Mae'r cod hefyd yn berthnasol i unrhyw gorff sy'n gweithredu yn enw, neu ar ran, unrhyw un neu ragor o'r cyrff hyn.

Atodiad 2
Newidiadau i'r rheoliadau

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016[54] yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae'r rheoliadau yn nodi:

> "4.—
>
> (1) Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).
>
> (2) In Part 3 of Schedule 1 after paragraph 24 insert—
>
> "24A Nid yw'n ofynnol i gorff gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau mewn cysylltiad â gweithgaredd neu wasanaeth pan fo'r gweithgaredd hwnnw'n cael ei gyflawni neu'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu o ganlyniad i orchymyn o dan adran 98 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.""

Mae Adran 98 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") caniatáu i Weinidogion Cymru ddirprwyo eu swyddogaethau trwyddedu morol neu eu swyddogaethau gorfodi drwy Orchymyn. Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo swyddogaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn unol â Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013[55].

Mae'r diwygiad yn golygu na fydd rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio ag unrhyw safon yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd neu wasanaeth sydd wedi ei ddirprwyo o dan Adran 98 o Ddeddf 2009.

[54] Adran 4, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/406/regulation/4/made/welsh

[55] O.S. 2013/414 (W.50)

Atodiad 3
Templedi i hwyluso cydymffurfedd

Isod, ceir cyfres o dempledi i hwyluso cydymffurfiaeth gyda'r safonau. Dylid nodi mai canllaw ydynt ac nad yw'n ofynnol i gorff eu defnyddio er mwyn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Maent yn cynnwys y canlynol:

Templed	Disgrifiad	Safonau perthnasol	
Templed 1	Canllaw y gellir ei defnyddio wrth i gorff lunio polisi newydd, neu adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli	88-90 a 150	Llunio polisi a chadw cofnodion
Templed 2	Canllaw y gellir ei defnyddio wrth i gorff gyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi dan ystyriaeth	91-93 a 150	Llunio polisi a chadw cofnodion
Templed 3	Canllaw y gellir ei defnyddio wrth i gorff lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau, neu wrth ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli	94-90 a 150	Llunio polisi a chadw cofnodion
Templed 4	Canllaw y gellir ei defnyddio wrth i gorff gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil er mwyn cynorthwyo'r corff i wneud penderfyniadau polisi	95-97 a 150	Llunio polisi a chadw cofnodion
Templed 5	Canllaw ar gyfer llunio 'Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg'	158, 164 a 170	Materion atodol

Templed 1: Safonau 88-90 a 150

1	Enw'r polisi	
2	Polisi (i) newydd, (ii) i'w adolygu neu, (iii) i'w addasu	
3	Y penderfyniad(au) sydd o dan ystyriaeth yn ystod y cyfnod ffurfiannol	
4	Cofnod o effeithiau posibl y penderfyniad(au) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg: Positif / Andwyol / Dim effeithiau	
5	Cofnod o effeithiau posibl y penderfyniad(au) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg: Positif / Andwyol / Dim effeithiau	
6	Cofnod o fesurau a gymerwyd i leddfu effeithiau'r penderfyniad polisi er mwyn cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif (yn seiliedig ar ganlyniadau rhesi 4 a 5 uchod)	
7	Cofnod o fesurau a gymerwyd i leddfu effeithiau'r penderfyniad polisi er mwyn osgoi effeithiau andwyol neu er mwyn cael effeithiau llai andwyol (yn seiliedig ar ganlyniadau rhesi 4 a 5 uchod)	
8	Cofnod o'r argymhellion mewn cysylltiad â'r Gymraeg at sylw'r person sy'n gwneud y penderfyniad polisi	
9	Cofnod o'r penderfyniad mewn cysylltiad â'r Gymraeg	
10	Cofnod o'r holl wybodaeth a thystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad arno	

Templed 2: Safonau 91-93 a 150

1	Enw'r ymgynghoriad	
2	Y penderfyniad(au) sydd o dan ystyriaeth yn ystod yr ymgynghoriad	
3	Cofnod o'r modd yr oedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn barn am effeithiau posibl y polisi arfaethedig ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â gofynion safonau 91–93	
4	Cofnod o'r modd yr oedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn barn am effeithiau posibl y polisi arfaethedig ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â gofynion safonau 91–93	
5	Cofnod o nifer yr ymatebion a gafwyd oedd yn gwneud sylw am effeithiau ar y Gymraeg	
6	Cofnod o fesurau lleddfu a gyflwynwyd yn sgil rhoi sylw i ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r Gymraeg	
7	Cofnod o'r rhesymau dros beidio â chyflwyno mesurau lleddfu pan gafwyd ymatebion mewn perthynas â'r Gymraeg	
8	Yn dilyn yr ymgynghoriad, cofnod o'r argymhellion mewn cysylltiad â'r Gymraeg a gyflwynwyd at sylw'r person sy'n gwneud y penderfyniad polisi	
9	Cofnod o'r penderfyniad a wnaed mewn cysylltiad â'r Gymraeg	
10	Cofnod o'r holl wybodaeth a thystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad arno	

Templed 3: Safonau 94 a 150

1	Enw'r grant	
2	Enw'r sawl sy'n gwneud asesiad o effeithiau ar y Gymraeg cyn dyfarnu grant	
3	Cofnod o effeithiau posibl dyfarnu'r grant ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg: Positif / Andwyol / Dim effeithiau	
4	Cofnod o effeithiau posibl y dyfarniad grant ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg: Positif / Andwyol / Dim effeithiau	
5	Cofnod o amodau grant yr argymhellir eu cynnwys cyn ei ddyfarnu er mwyn cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif (yn seiliedig ar ganlyniadau rhesi 3 a 4)	
6	Cofnod o amodau grant yr argymhellir eu cynnwys cyn dyfarnu er mwyn osgoi effeithiau andwyol neu er mwyn cael effeithiau llai andwyol (yn seiliedig ar ganlyniadau rhesi 3 a 4)	
7	Cofnod o'r amodau iaith a gynhwyswyd yn y dyfarniad grant mewn cysylltiad â'r Gymraeg	
8	Cofnod o'r sawl wnaeth y penderfyniad i ddyfarnu'r grant	
9	Cofnod o'r holl wybodaeth a thystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad arno	

Templed 4: Safonau 95-97 a 150

1	Enw'r gwaith ymchwil sydd i'w gynnal	
2	Cofnod o effeithiau posibl y polisi ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg: Positif / Andwyol / Dim effeithiau	
3	Cofnod o effeithiau posibl polisi ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg: Positif / Andwyol / Dim effeithiau	
4	Cofnod o agweddau yr argymhellir y dylid ymchwilio iddynt a'u cynnwys yn y fanyleb ar gyfer darn o waith ymchwil cyn ei ddechrau er mwyn cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif (yn seiliedig ar ganlyniadau rhesi 3 a 4)	
5	Cofnod o agweddau yr argymhellir y dylid ymchwilio iddynt a'u cynnwys yn y fanyleb ar gyfer darn o waith ymchwil cyn ei ddechrau er mwyn osgoi effeithiau andwyol neu er mwyn cael effeithiau llai andwyol (yn seiliedig ar ganlyniadau rhesi 3 a 4)	
6	Cofnod o'r hyn gynhwyswyd yn y fanyleb ymchwil mewn cysylltiad â'r Gymraeg	
7	Cofnod o'r sawl wnaeth y penderfyniad mewn cysylltiad â'r fanyleb ymchwil	
8	Cofnod o'r holl wybodaeth a thystiolaeth y seiliwyd yr asesiad hwn arno	

Templed 5: Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

1.	Rhagair	
1.1	Pwrpas yr adroddiad	
1.2	Datganiad hunan asesiad	
1.3	Dyddiad cyhoeddi	
1.4	Manylion cyswllt ar gyfer cyflwyno ymholiadau	
2.	Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfio	
2.1	Manylion yr uwch-swyddog cyfrifol	
2.2	Trefniadau dirprwyo cyfrifoldebau gweithredol	

2.3	Cymeradwyo'r adroddiad	
2.4	Mabwysiadu a chyhoeddi trefniadau goruchwylio cydymffurfio	
2.5	Trefniadau goruchwylio cydymffurfio	
3.	**Asesiad o Gydymffurfio**	
3.1	Ansawdd gwasanaethau Cymraeg	
3.2	Penderfyniadau Polisi	
3.3	Defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y corff	

3.4	Sgiliau Cymraeg Cyflogeion	
3.5	Hyfforddiant Cymraeg i Gyflogeion	
3.6	Ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol	
3.7	Recriwtio i swyddi gwag a newydd	
3.8	Hybu'r Gymraeg	
3.9	Cwynion	

3.10	Trefniadau goruchwylio cydymffurfio	
4.	**Sicrhau Cydymffurfio**	
4.1	Hunan asesiad o lefelau risg a thebygolrwydd o fethu a chydymffurfio â'r safonau (lle nad yw'r dyddiad gosod wedi mynd heibio).	
4.2	Mesurau arbennig y mae'r corff yn eu gweithredu o ganlyniad i gamau gorfodi [56].	
4.3	Cynnydd wnaed i gyflawni cynllun gweithredu a/neu gymryd camau er mwyn sicrhau cydymffurfedd o ganlyniad i gytundeb setlo [57].	
5.	**Dyletswyddau Cymwys**	
5.1	Newid yn y gofynion cydymffurfio.	

[56] yn unol ag adran 79 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac fel y cânt eu dehongli yn adrannau 110 (a) – (e) ohono

[57] yn unol ag adrannau 91 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru

@ComyGymraeg
comisiynyddygymraeg.cymru

This page is intentionally left blank

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Code of Practice for the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015



Practical guidance on the requirements of the Welsh language standards for Welsh Ministers, county councils, county borough councils and national park authorities

This code of practice should be read alongside the following:

- The body's compliance notice
- The Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015, and
- The Welsh Language (Wales) Measure 2011

Foreword

I present my first code of practice as Welsh Language Commissioner in relation to the standards that are in place for local authorities, Welsh Ministers and the national parks.

